ECO'R WYDDFA

Rhif 252 NADOLIG 1998 / IONAWR 1999 Pris 30c

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl ddarllenwyr,
hysbysebwyr, noddwyr
a gweithwyr

Agor Siop Newydd yng Nghwm-y-glo

Mae cynlluniau ar y gweill i ailagor siop a swyddfa bost ym mhentref Cwm-y-glo, wedi bwlch o dair blynedd. Y tu cefn i'r fenter y mae mudiad cydweithredol yng ngofal grŵp o naw o wirfoddolwyr gweithgar o'r enw 'Pwyllgor Diogelu Gwasanaethau Post Cwm-y-glo'.

Pan gaeodd siop Mr a Mrs Ware yn 1966 galwyd cyfarfod cyhoeddus gan y Cynghorydd Brian Jones, lle penderfynwyd ymgyrchu'n egnïol i ddiogelu gwasanaethau o fewn y pentref.

Un o'r prif broblemau fu canfod lle addas, ond diolch i ddatblygiad swyddfa newydd Menter Fachwen, a amlinellwyd yn rhifyn diwethaf yr *Eco*, mae lle hwylus yng nghanol y pentref bellach ar gael i'w rentu, ar lawr gwaelod hen siop ddillad Tŷ Llundain.

Ar un o dudalennau'r rhifyn hwn o'r Eco mae'r Pwyllgor yn hysbysebu am berson i ofalu am y swyddfa bost a siop. Eisoes derbyniwyd cymeradwyaeth Swyddfa'r Post i'r datblygiad, mewn egwyddor, ac mae'r Pwyllgor yn ceisio grantiau o wahanol ffynonellau, fel Cronfa Cist, Cyngor Gwynedd.

Meddai Cadeirydd y Pwyllgor Llywio, Paul Rowlinson, sydd hefyd yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanrug, 'Rydym wedi ymchwilio'n ofalus iawn i'r posibiliadau. Lluniwyd holiadur manwl ac yna cnocio drws bob tŷ yn y pentref, gan dreulio tua chwarter awr ym mhob cartref yn mynd drwy'r manylion linell wrth linell. Y farn gref oedd fod angen ailsefydlu siop, ac mai menter gydweithredol oedd y ffordd orau ymlaen.

'Bellach, mae'r nod o fewn ein cyrraedd. Yn ogystal â swyddfa'r post a siop fwyd, bydd cyfle i gyknhyrchwyr a chrefftwyr lleol werthu eu nwyddau, am gomisiwn bychan. Er enghraifft, os oes pentrefwr yn cadw gwenyn — gall werthu ei fêl yn y siop!

'Mae'n bosib iawn y bydd Menter Fachwen yn rhedeg caffi ar yr un llawr, fel y bydd hon yn datblygu'n ganolfan amlbwrpas bleserus yng nghanol y pentref.

'Apeliwn ar i bentrefwyr a chyfeillion ym mhob rhan o'r fro ein cefnogi'n ymarferol gyda benthyciad arian i sefydlu'r fenter. Ceir manylion pellach gennyf i ar 870389, neu unrhyw aelod o'r Pwyllgor.'

* * *

Mae'r Eco'n deall hefyd fod tafarn pentref Cwm-y-glo, y Snowdon Hotel, ar fin newid ei henw o'r Saesneg i'r Gymraeg. 'Y Fricsan' fu'r enw ar lafar gwlad ers cenedlaethau — am mai dyma'r adeilad brics cyntaf yn y pentref yn ôl rhai, er nad oes neb yn sicr.

Meddai'r dafarnwraig, Elaine Middleton, 'Byddwn yn newid bragdy yn y flwyddyn newydd ac fe'n perswadiwyd i fanteisio ar y cyfle i newid yr enw i'r hyn a arferir gan ein cwsmeriaid, ac ar lafar gwlad.'

Llongyfarchiadau, a iechyd da!

Diwedd Tymor

Mr Robin Williams, prifathro Ysgol Gynradd Llanrug, yn ffarwelio â Mrs Elizabeth Jones sy'n ymddeol ar ôl ugain mlynedd o wasanaeth yng nghegin yr Ysgol.

Mrs Catherine Williams sy'n ymddeol ar ôl 17 mlynedd o wasanaeth fel athrawes yn Ysgol Feithrin Llanberis.

Rhai o Sêr Bethel

Rhai o blant ieuenga'r pentref fu'n cystadlu'n ddiweddar yn yr eisteddfod.

Yn y rhifyn hwn . . .

ATODIAD EISTEDDFODAU'R FRO sy'n cynnwys rhestr enillwyr yn y gwahanol gystadlaethau llwyfan, llên a celf a chrefft.

Cynhwysir hefyd gynhyrchion llenyddol enillwyr prif dlysau'r eisteddfodau lleol

ECO'R WYDDFA

Rhif 252
NADOLIG/IONAWR 1999

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi, Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248 670726)
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, IONAWR 28
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, IONAWR 18
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD COPI	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â
CHWEFROR	IONAWR 18	IONAWR 28	WAUNFAWR	Mrs Nan Roberts
MAWRTH	CHWEFROR 22	MAWRTH 4	LLANRUG	Mr Iolo Llywelyn
EBRILL	MAWRTH 22	EBRILL 1	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands
MAI	EBRILL 19	EBRILL 29	DEINIOLEN	Mr W. O. Roberts
MEHEFIN	MAI 17	MAI 27	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts Williams
GORFFENNAF	MEHEFIN 21	GORFFENNAF 1	BETHEL	Mr Geraint Ellis
AWST	—	—	—	—
MEDI	AWST 23	MEDI 2	DINORWIG	Miss Marian Jones
HYDREF	MEDI 20	MEDI 30	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans
TACHWEDD	HYDREF 18	HYDREF 28	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans
RHAGFYR	TACHWEDD 20	RHAGFYR 2	CAEATHRO	Mr Clive James

Llythyrau

Y Wladfa

Annwyl Olygydd,

Mae'n fwriad gennyf i fynd a grŵp o ddeg o bobl i'r Wladfa fis Mawrth nesaf am gyfnod o dair wythnos. Byddwn yn hedfan o Fanceinion a bydd y daith yn cynnwys Buenos Aires, Trelew, Gaiman, Esquel ac Iguazú.

Am ragor o fanylion ffoniwch (01248) 712576.

Yn gywir,
CATHRIN WILLIAMS
Glandŵr
Ffordd Cynan, Porthaethwy
Ynys Môn LL59 5EY

Y Bocs Esgidiau

Annwyl gyfeillion,

Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch a gefnogodd Apêl Bocs Esgidiau yr elusen Ymgyrch Plentyn y Nadolig eleni. Roedd ysgolion, Ysgolion Sul a chyfeillion eraill wedi paratoi anrhegion ar gyfer plant mewn gwledydd fel Bosnia ac Armenia eleni eto, ac anfonwyd ymhell dros 400 o focsus o'r ardal hon. Casglwyd y bocsus i'w cludo i Wrecsam gan Mr Gordon Thomas (Plastirion, Llanberis gynt) ac yr oedd yn mynd i Armenia yn yr awyren anferth oedd yn cario tua 300,000 o focsus ddydd Sul, Rhagfyr 6. Gobeithiwn gael peth o'r hanes ganddo yn fuan. Diolch am bob cyfraniad ariannol hefyd.

Ar ran Ymgyrch Plentyn y Nadolig, sy'n rhan o'r elusen Pwrs y Samariad, diolch eto i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni.

Yn gywir,
JOHN PRITCHARD
Cilfynydd, Llanberis

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Y GAMPFA
CANOLFAN IECHYD A FFITRWYDD
(Perchennog: D. M. A. Lee)
DEINIOLEN
Ffôn: (01286) 872 240

NADOLIG LLAWEN a BLWYDDYN NEWYDD DDA oddi wrth
WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo
Ffôn: (01286) 870674
GWASANAETH GARDDIO PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
LONDON GARAGE
FIAT FIAT **CWM-Y-GLO** FIAT FIAT
ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT
GORSAF PRAWF MOT
POB MÊC — CEIR A FANIAU BACH
GWASANAETH ac ATGYWEIRIO
CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD
GALWCH MEL (Roberts) ar (01286) 870234
neu Ffacs: (01286) 870066

AR AGOR:
Llun - Gwener: 8.30 a.m. - 5 p.m.
Sadwrn: 8.30 a.m. - 12.00

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Richard S. Humphreys

ORIEL CWM
Cwm-y-glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

PARTI NADOLIG Y PLANT. Cynhelir y parti ar gyfer y plant iau — o ddiwrnod genedigaeth(!!) hyd at ddosbarth hynaf yr ysgol gynradd — ddydd Mawrth, 22 Rhagfyr. Eleni, er mwyn cynorthwyo rhaglen brysur Siôn Corn, bydd y te parti, gemau a dawnsio yn **Hen Ysgol Bontnewydd** o 5.30 ymlaen. Os oes plant na allant fynd i Bontnewydd gyda'u rhieni dylid ymgasglu ger mynedfa Erw Wen am 5.15.

COEDEN NADOLIG. Disgwylir goleuo'r goeden Nadolig fore Sadwrn, 19 Rhagfyr am 10 a.m.

GWASANAETH NADOLIG. Cynhelir gwasanaeth Nadolig y Capel am 5.30 p.m. nos Sul, 20 Rhagfyr, gyda Mr Dafydd Iwan, Rhos-bach.

BEDYDD. Ar 7fed Rhagfyr bedyddiwqyd Sioned Angharad, merch Nia (Chwiban-y-gwynt) a Garry gan y Parchg W. R. Williams.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Ionawr:

3: Parchg W. R. Williams
10: Parchg Trefor Jones
17: Parchg W. R. Williams
24: Parchg Iorwerth Jones-Owen

Yr oedfaon i gyd am 2.00 p.m.

Y CAPEL. Daeth tro ar fyd yng Nghaeathro. Gwerthwyd y Tŷ Capel a'r llain tir sydd wrth ei ochr ynghyd â'r Festri lle y cynhaliwyd holl weithgareddau'r pentref yn y gorffennol. Y bwriad yn awr yw defnyddio'r arian i addasu'r Capel yn adeilad aml-bwrpas i'r pentref. Tybed ai dyma'r ffordd ymlaen gogyfer y dyfodol. Bydd chwarter y capel yn cael ei droi yn gegin hwylus a thoiledau, mynedfa newydd i'r anabl a'i wneud yn adeilad hwylus. Bydd cyfle i addoli mewn adeilad modern, man cyfarfod i'r plant a'r henoed a holl weithgareddau eraill y pentref.

Derbyniwyd grantiau at y gwaith gan y Cyngor Cymuned, y Cyngor Sir a Chronfa Pantyfedwen ond er hyn i gyd mae angen ychydig mwy o arian arnom i gwblhau'r gwaith Bydd cronfa arbennig — Cronfa Capel Caeathro — yn cael ei sefydlu fel y byddwn ni y pentrefwyr yn cael cyfle i godi tipyn mwy o arian i gyrraedd y nod. Efallai bod rhai o ddarllenwyr yr Eco sydd ddim yn byw yn y pentref bellach, ond gydag atgofion melys am y Capel a'r ardal, yn hoffi rhoi cyfraniad tuag at y gronfa. Buasem yn falch iawn o unrhyw rodd. Gobeithiwn, drwy golofnau'r Eco, roi mwy o fanylion i chwi fel y bydd y gwaith yn mynd yn ei flaen a gobeithio eich gwahodd i'r adeilad newydd pan ei agorir yn ystod 1999.

TAFARN BRYNGWNA. Perchnogion newydd Bryngwna yw Brenda a Willie Anderson. Agorwyd y dafarn — ar ôl cyfnod byr o adnewyddu gyda chymorth teulu a phernasau — ar nos Fercher, 16 Rhagfyr. Bwriedir creu tafarn leol a thraddodiadol ar gyfer y teulu. Yn nechrau'r flwyddyn newydd bydd prydau bwyd ar gael a gobeithir sefydlu timau dartiau fel y rhai enwog a fu yn y gorffennol. Mae Brenda yn rhan o deulu 'Pen Nionyn', Y Groeslon a Willie yn ddrymiwr gyda band canu gwlad o'r enw 'Colerado' yn ei ardal enedigol, sef Elgin yng ngogledd-ddwyrain yr Alban. Pob lwc iddynt yn y fenter.

PLYGU'R ECO. Diolch yn fawr i'r dwsin o drigolion — o bob oed — fu'n plygu'r Eco yng Nglangwna. Plygwyd y cyfan ymhen dwyawr — da iawn!

Brenda a Willie Anderson o flaen y bar yn Nhafarn Bryngwna, yn ystod saib o'r gwaith adnewyddu. Agorwyd y dafarn, ar ôl bod ar gau am dros ddwy flynedd, nos Fercher, 16 Rhagfyr. Mae yno ddewis eang o gwrw ac yn nechrau'r flwyddyn newydd byddant yn paratoi prydau ysgafn ac maent yn gobeithio ailsefydlu'r timau dartiau.

NEWYDD AILAGOR!
BRYNGWNA
Caeathro

GALWCH HEIBIO AM GWRW BLASUS A CHROESO CYNNES AR HEN AELWYD (BYDD PRYDAU BAR RHAGOROL AR GAEL YN Y FLWYDDYN NEWYDD

Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i gwsmeriaid hen a newydd oddi wrth Willie a Brenda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb ym
MHARC GWYLIAU
GLAN GWNA
CAEATHRO. Ffôn: Caernarfon 673456
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

MODURDY
PLAS BACH
CAEATHRO
Ffôn: Caernarfon 672072
GWERTHU . TRWSIO
TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN
GAREJ GWALIA
CAEATHRO
Ffôn: 673096
M.O.T • TRWSIO CEIR
GWASANAETH
TORRI LAWR 24 AWR

Sbaenwyr o Antur Waunfawr

I Ddulyn yr aethom ddechrau'r mis ar drip yr Antur. Cafwyd diwrnod llwyddiannus tu hwnt gyda digon o hwyl a digon o Guiness. Ar ôl cyrraedd y porthladd roedd tywysydd wedi ei drefnu i fynd â ni ar daith o amgylch y ddinas ond bu camddealltwriaeth yn rhywle a'r ferch yn disgwyl llond bws o Sbaenwyr! Cychwynnodd ar ei llith mewn Sbaeneg perffaith a ninnau'n meddwl fod rhywun wedi rhoi'r radio ymlaen ar orsaf ddiarth!

Diolch i bawb fu draw yn yr Antur i'r Noson Pwnsh a Mins Peis a chafwyd noson lwyddiannus iawn. Roedd Siôn Corn wedi blino'n arw erbyn diwedd y noson gyda cymaint o blant wedi dod i'w gyfarfod.

Rydym wedi croesawu nifer o staff newydd yn ddiweddar. Mae Huw Jones wedi ymuno â'r Gwasanaeth Ailgylchu fel gyrrwr; Donna Williams o Waunfawr yn cychwynyn y swyddfa yn Ty'n Gerddi; Catrin Thomas o lanrug sydd yn gweithio fel ymchwilydd ar hanes John Evans; ac mae Alan Davies o Lanrug wedi cychwyn mewn swydd llawn-amser gyda'r cynllun cartrefu. Penodwyd Jane Evans hefyd i swydd Swyddog Datblygu a Marchnata i'r Gwasanaet Ailgylchu, felly os byddwch angen unrhyw wybodaeth am waith y Gwasanaeth cofiwch gysylltu â Jane ym Mangor 355 112.

YR ŴYL FAWR YN WAUNFAWR
Chwefror - Medi 1999

Ar gyfer y flwyddyn nesaf mae Antur Waunfawr wrthi'n trefnu Gŵyl uchelgeisiol yn ei sgôp a'i hamrywiaeth fydd yn saff o ddenu ymwelwyr o bob cwr i Waunfawr a'r cylch.

Trwy gydol y naw mis cynhelir toreth o ddigwyddiadau eang eu hapêl, a'r cyfan wedi eu lleoli yn Waunfawr. Y pinaclau fydd:

- ★ llwyfannu drama newydd Gareth Miles, 'Y Madogwys';
- ★ Pow-wow Waunfawr: noson o ddifyrwch ar ddydd Gŵyl Ddewi yng nghwmni beirdd fel David Lloyd o Efrog Newydd a Sky Dancer Louise o Ganada; ac o Gymru bydd beirdd megis Iwan Llwyd, sydd wedi'i ddylanwadu gan America;
- ★ pinacl yr Ŵyl ar Sul y Steddfod fydd agoriad swyddogol Amgueddfa John Evans yn y Tŷ Capel. Cynhelir gwasanaeth gan blant Ysgol Waunfawr, pobl o ogledd Dakota a chynrychiolwyr o blith yr Indiaid ymysg eraill. Diwrnod hanesyddol i bobl Waunfawr ac yn wir i Gymru gyfan.

Siôn Corn yn ei groto ar y noson pwnsh a mins peis yn Antur Waunfawr.

Fframia
GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd
Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY
PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
Teganau, Cardiau
Melysion
Anrhegion
Cacennau
Nadolig a
Bara Brith Traddodiadol
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR.** Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava
MOT
AA Specialist
RAC Selected
GEMINI SERVICE CENTRE
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £ £ £ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car
AVW
YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS
Beth am **Fwffe Enwog Nerys**
i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.
Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro — nos Wener olaf bob mis
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH **DANNY, NERYS** A'R **STAFF**

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

PRIODAS. Ddydd Sadwrn, 28ain o Dachwedd, yng Nghaernarfon, priodwyd Geraint Rees Morris, mab Mr a Mrs Dafydd Morris, Cefn Coch, Deiniolen â Eira Wyn Evans o Frynrefail. Dymunir pob bendith ac iechyd iddynt yn eu bywyd priodasol. Maent yn cartrefu yn Nhŷ Capel M.C.

YN YR YSBYTY. Drwg gennym ddeall fod Gwilym Davies, 10 Bro Elidir yn yr ysbyty ym Mangor. Hefyd Glyn Sinclair, 4 Maes Eilian wedi cael llawdriniaeth yn ysbyty Lerpwl. Hyderwn y bydd y ddau yn cael adferiad iechyd llwyr a buan.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Ar yr 20fed o Dachwedd croesawyd Eric Gray Thomas, Caernarfon i'n plith a chafwyd sgwrs feistrolgar ganddo am gloddio aur yn Nolgellau. Llywydd y noson oedd Miss Ellen Wyn Jones. Ar 1af o Ragfyr cafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni Siân Gibson, Sharon Vaughan Williams, Elfed Morris ac Olwen Bryn Hughes. Llywyddwyd gan Mrs Alice Griffith a thalwyd y diolch gan Mrs Betty Peris Roberts.

Dyma drefn y cyfarfodydd am y mis nesaf:

Nos lau, 7 Ionawr: Cyfarfod gweddi dechrau'r flwyddyn dan ofal Eglwys Sardis.

Nos lau, 21 Ionawr: Noson dan ofal Mr Eurig Wyn, Y Groeslon.

DRAENOG

7.00 o'r gloch un gyda'r nos yn Llanberis: **Y golau'n diffodd yn annisgwyl.**

7.01: **Y wraig yn sbio drwy'r ffenest a gweld bod yna olau ym mhob tŷ arall.**

7.02: **'Helô, Manweb? Fedrwch chi anfon rhywun acw i drwsio'r lectrig? Dim ond tŷ ni sydd heb olau.'**

7.10: **Y gŵr yn trwsio'r ffiws.**

7.12: **'Helô, Manweb? Fi sy 'ma eto. Mae'r lectrig yn ei ôl. Diolch am eich trafferth, ond fydd dim angen i neb alw.'**

7.15 tan 10.30 o'r gloch: **Y wraig wrthi'n brysur yn ceisio rhyddhau *deep fat fryer* oddi ar y stôf drydan. Roedd hi wedi gosod y ffriwr fel sosban chips gyffredin ar ben y stôf boeth a hwnnw wedi toddi gan chwythu ffiws y tŷ.**

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth Elaine a Steven Smith

THE PANNIER
50 STRYD FAWR
LLANBERIS
Ffôn: 870301

DEWCH ATOM AM FRECHDANAU A BYRBRYDAU FFRES A WNEIR AR EICH CAIS

Ar agor Mawrth — Sadwrn
9 a.m. - 4 p.m.

DERBYNNIR ARCHEBION DROS Y FFÔN

AM BRYDAU TSINEAIDD BLASUS I'W BWYTA GARTREF

LAKESIDE
CHINESE TAKEAWAY
47 STRYD FAWR
LLANBERIS
Ffôn: 871840

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU TELEDU
Ffôn; Llanberis 870545

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mr Wyn Morris, Stryd Newydd; Mrs Enid Price, Stryd Newydd; a Mrs Margaret Williams, Nant Forgan ar ôl iddynt dderbyn triniaethau yn Ysbyty Gwynedd.

NEWYDDION O'R YSGOL. Mae prysurdeb mawr yn ystod pythefnos olaf y tymor hwn:

Bydd dau berfformiad o'r Cyngerdd Nadolig — brynhawn a nos lau, Rhagfyr 10fed.

Cynhaliwyd dwy noson agored i'r rhieni weld a thrafod gwaith y plant.

Bydd noson o garolau a mins peis yn yr Ysgol nos Fawrth, Rhagfyr 15. Yn dilyn hynny bydd plant yr Adran Iau a nifer o oedolion y pentref yn ymweld â Stiwdio Granada, Manceinion.

Yna, bnawn Iau, Rhagfyr 17, cynhelir parti Nadolig a disgo yn yr Ysgol. Gobeithiwn y bydd Siôn Corn yn galw heibio i'n gweld eto.

Llongyfarchiadau i Mr Eifion Jones, Glan y Don, Cwm-y-glo a Mr Gwion Llwyd, Glasgoed, Llanrug ar ennill gwobrau mis Tachwedd yng Nghlwb yr Ysgol.

Anfonwn ein cyfarchion gorau i bawb dros Ŵyl y Nadolig a'n dymuniadau gorau hefyd am 1999. Diolch i bawb ohonoch a fu'n cefnogi gweithgareddau'r Ysgol drwy 1998. Rydym yn gwerthfawrogi eich haelioni yn fawr.

MENTER POST Y CWM

Oes gennych chi ddiddordeb mewn rhedeg swyddfa bost / siop bentref fel rhan o fenter gydweithredol yng Nghwm-y-glo?

Gan fod y swyddfa bost / siop y pentref wedi cau ddwy flynedd yn ôl, mae cwmni cydweithredol am gael ei ffurfio i agor y cyfleusterau hyn yn adeilad Menter Fachwen, Tŷ Llundain.

Rydym yn chwilio am rywun fyddai'n cymryd cyfrifoldeb dros y Post a rhedeg y siop ar sail rhan-amser i ddechrau.

Ymholiadau anffurfiol i Dr Paul Rowlinson
Min y Nant, Cwm-y-glo
(01286) 870389

Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda oddi wrth

ELLIS WYN
SIOP Y BARBWR, YR HEN FARCHNAD
STRYD Y PLAS, CAERNARFON
- **Hefyd yn galw yn eich cartref**
- **Ffoniwch am apwyntiad**

678963 (GARTREF) **0411 457215** (SYMUDOL)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Stuart Hungate

CARTREF YMDDEOL DEINIOLEN LODGE
Ffôn: (01286) 871073

AR FIN AGOR — YN Y FLWYDDYN NEWYDD
HOLWCH AM FANYLION

CHWILOTA

'CORLAN Y GEIFR' A GALLT Y CELYN

Ar ddiwrnod barrugog, oer, ddiwedd fis Tachwedd, cefais wahoddiad i ymweld â Gallt y Celyn, Clegir, a chael croeso cynnes yno gan Meirion Thomas a'i wraig. Roedd Meirion eisoes wedi sôn wrthyf am hen gorlan yn swatio yng nghysgod talcen clogwyn y tu cefn i'r tŷ, ac ar lethrau moel y Cefn Du. Mae'r olygfa oddi yma yn odidog, ac ar y diwrnod hwnnw, roedd yn bosibl gweld draw dros Ynys Seiriol tua mynyddoedd Ynys Manaw a bryniau deheuol yr Alban.

Nid y Gallt y Celyn presennol oedd y tŷ gwreiddiol. Mae hwnnw (a llun o olion y tyddyn a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf o'r *Eco*) ymhellach yn ôl o ffordd y Clegir, yn swatio mewn cilfach gysgodol, ac ar dir sychach na'r fawnog wleb gerllaw. Mae'n debyg mai Gallt y Celyn oedd un o'r tai cyntaf i'w hadeiladu yn ardal y Clegir. Yng Nghofiant Siân Dafydd, Clegir, mae'r hen wraig yn sôn amdani'n cyrraedd yr ardal am y tro cyntaf wedi ei phriodas â Dafydd John Owen, Tŷ Du, a hynny ym Medi 1806. Disgrifia ei thaith o Dŷ Du dros y Clegir i Lanrug, ac mae'n nodi mai'r unig dai oedd ffermdy bychan Glynrhonwy, ffermdy Llwyncoed, a ffermdy Coed Golau (lle mae parc carafannau Bryn Teg heddiw). Nid yw'r Gallt y Celyn gwreiddiol i'w weld o ffordd y Clegir, ac felly, mae'n bosibl na welodd Siân Dafydd mohono. Wrth gwrs, rhaid cofio mai tir comin oedd ardal y Clegir i gyd bryd hynny, a rhan o'r mynydd agored.

Credir i'r tŷ gael ei adeiladu tua 1804. yn y flwyddyn honno, priododd Morris Jones (mab John Thomas, Glynrhonwy) â Margaret William, gwraig weddw o'r Ceunant, Nant Peris, ag iddi un plentyn — Dafydd Prys — a aned yn 1800. Fe aned wyth o blant o'r briodas hon, i gyd yng Ngallt y Celyn, rhwng 1806 a 1823. Mae'n rhesymol tybio felly, mai Morris Jones a adeiladodd y tŷ ar dir comin a oedd yn cael ei bori gan anifeiliaid ei dad yng Nghlynrhonwy.

Bu Margaret William farw yn 1838, a Morris Jones, ei phriod yn 1840. Roedd y plant i gyd wedi gadael y nyth erbyn hynny, ar wahân i Dafydd Prys, a'i hanner chwaer, Elin Morris. Dyna'r unig ddau sy'n byw yng Ngallt y Celyn yn ôl Cyfrifiad 1841. Ond erbyn hynny, roedd y Gallt y Celyn presennol wedi ei adeiladu. Yr enw arno bryd hynny oedd Gallt y Celyn Isaf. Ellis Morris (mab Morris Jones) oedd yn byw yno, ac mae'n debyg mai ef a'i hadeiladodd tua 1840 yn dilyn ei briodas â Catherine William yn Eglwys Llanrug yn yr un flwyddyn.

Yn 1846, priododd Dafydd Prys â Margaret Williams (merch o'r un enw a'i fam) yn Eglwys Llanrug. Ni fu plant o'r briodas, ond bu'r ddau yn byw yn y fangre ddiarffordd hon bron yn hunan-gynhaliol hyd ddiwedd eu hoes. Roedd gardd wedi ei diwyllio o'r mynydd-dir, ac wedi ei chau allan â phren bocs, ac yno y tyfai Dafydd Prys ei datws a'i lysiau. Byddai'r ddau yn cario eu hychydig nwyddau ychwanegol o Lanberis neu Gwm-y-glo. Bryd hynny hefyd, roedd angen mwsoglu'r to at y gaeaf. Cesglid sacheidiau o fwsogl o'r mynydd ar ddiwrnod sych, a byddai Dafydd Prys wrthi'n brysur yn mwsoglu'r to â thriwel i'w ddiddosi at y gaeaf.

'Corlan y Geifr' ar dir Gallt y Celyn. Sylwch fel mae'r clogwyn serth yn rhoi cysgod i weddill y gorlan, ac ar y fynedfa gul i mewn iddi.

Bu Margaret Williams, ei briod, farw yn Chwefror 1881, gan adael Dafydd Prys yn hen ŵr dros ei bedwar ugain oed, yn ddibynnol ar y plwyf. Penderfynwyd mynd ag ef i'r Tloty yng Nghaernarfon, ond roedd hyn yn groes i ewyllys yr hen ŵr, a bu'n rhaid ei gario o'r mynydd a'i roi mewn trol i'w hebrwng i'r dref. Bu farw yn fuan wedi hynny.

Nid yw'n debyg bod unrhyw un wedi byw yng Ngallt y Celyn wedi hynny. Tynnwyd y llechi oddi ar y to, a defnyddiwyd y coed at ddibenion y teulu yng Ngallt y Celyn Isaf.

Yn agos i'r hen dŷ mae adeiladau eraill fel beudy a chwt mochyn, ond mae'r gorlan cryn bellter oddi wrth y ddau dŷ. Defnyddiwyd talcen y clogwyn fel un wal iddi, ac y mae'r waliau eraill wedi eu hadeiladu yn bur uchel, gydag un fynedfa gul iawn i fynd i mewn. Dywedir mai corlan i ddal geifr gwyllt oedd hon. Byddai geifr yn aml yn chwilio am waelod clogwyn a roddai gysgod iddynt rhag gwyntoedd a glaw'r ucheldir. Ar ôl gwthio i mewn trwy fynedfa gul y gorlan gellid ei chau i mewn gyda llidiart ac yr oedd y waliau'n rhy uchel i'r geifr neidio drostynt.

Ond pryd y defnyddiwyd corlannau o'r fath? Roedd yn arferol cadw geifr ar ffermydd yn y gorffennol, ond yn dilyn datblygiadau ym myd amaeth, a sefydlu cymdeithasau amaethyddol ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r ganrif ddiwethaf, rhoddwyd mwy o bwyslais ar anifeiliaid eraill. Yn wir, cafodd tenantiaid Stâd y Faenol orchymyn i gael gwared â'u holl eifr, a hynny mor bell yn ôl â 1778. Ar fferm Hafod y Rhug ym mhlwyf Llanrug, roedd cae o'r enw Cae Corlan y Geifr ar y llethrau sy'n codi tuag ardal y Ceunant. Ar ôl 1778, yr enw a roddir i'r cae yw Cae Corlan. Mae'n amlwg fod y tenant am gadarnhau bod geifr wedi diflannu oddi ar ei dir! Y geifr dof hyn a ollyngwyd i'r tiroedd comin ac i'r mynydd-dir agored sy'n gyfrifol am y diadelloedd o eifr 'gwyllt' sy'n parhau i droedio mynyddoedd Eryri heddiw. Mae nifer go dda ohonynt i'w gweld ym Mharc Padarn, ac yng nghyffiniau Pentre Castell, Llanberis ar aeafau caled.

Gallai'r gorlan yng Ngallt y Celyn berthyn i un o ddau gyfnod: (a) cyn 1778. Doedd fawr neb yn byw yn ardal y Clegir bryd hynny, a digon posibl bod geifr gwyllt yn byw ar fynydd y Cefn Du. Byddai'r trigolion yn eu dal er mwyn cael cig, neu er mwyn eu cynnwys ar eu ffermydd fel rhan o'u da byw; (b) ar ôl 1778. Er bod tenantiaid y Faenol wedi eu gwahardd rhag cadw geifr, efallai bod nifer o'r

Trin Traed Gwartheg

'Crush' pwrpasol gan W.O.P.A.

Ar gyfer buwch neu darw

Hefyd:

Ymgymerir â shafio gwartheg tew

Dylan Roberts

Penllech Bach, Tudweiliog, Pwllheli

(01758) 770279 : symudol 0421 956143

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Olion o'r hen ddiadelloedd yw'r geifr 'gwyllt' a welir ym Mharc Padarn heddiw.

ffermwyr yn parhau i ddefnyddio'r geifr 'gwyllt' a ollyngwyd yn rhydd o'u ffermydd, i ychwanegu at eu stôr bwyd. Os felly, roedd angen eu dal, a byddai corlannau ar y mynydd yn fannau hwylus i wneud hynny.

Hyd y gwn, does dim cofnodion ar gael i nodi faint o eifr oedd yn cael eu cadw ar ffermydd y cyfnod hwnnw, na faint o eifr gwyllt oedd yn byw yn y cyffiniau hyn. Gallai corlan Gallt y Celyn berthyn i'r cyfnod cyn bod tŷ yno, ac mai trigolion fferm Glynrhonwy a'i hadeiladodd i ddal geifr gwyllt oddi ar y mynydd. Ar y llaw arall, gallai Morris Jones fod wedi ei hadeiladu yn gynnar ar ôl adeiladu Gallt y Celyn, a hynny cyn iddo ddechrau cau tir y mynydd i mewn gyda waliau cerrig. Yn ddiweddarach y pasiwyd y Deddfau Cau'r Tiroedd Comin, ac ar ddechrau 1820au y ganrif ddiwethaf yr hawliwyd tyddynod y Clegir gan stadau Glynllifon a Phlastirion a'r Faenol.

Byddai'n ddiddorol cael hanes mwy o'r ymsefydlu cynnar hwn yn ardal y Clegir. Cafwyd llawer o'r wybodaeth am drigolion Gallt y Celyn o nodiadau a gasglwyd gan y diweddar Gwilym Roberts, Fron Olau, Llanberis. Tybed a fu hynafiaid rhai o ddarllenwyr yr *Eco* yn byw yn y Clegir, ac a oes traddodiadau neu hanesion teuluol wedi aros o'r cyfnod hwnnw.

PONCAN BRYN LLAN

Yn dilyn y cais yn y rhifyn diwethaf, dyma'r fersiwn llawn o'r gân 'Poncan Bryn Llan' gan Glan Rhyddallt. Mae wedi ei gosod, yn ôl yr awdur, i'r alaw 'Ta Ta', ond chlywais i 'rioed amdani. Oes rhywun o'r darllenwyr all helpu?

PONCAN BRYN LLAN
(Alaw: Ta Ta)

Hen lannerch gysegredig
Yw poncan bach Bryn Llan,
Awelon gwynfydedig
Sy'n crwydro gylch y fan;
Cans yno gwywa blodau —
Prydferthaf flodau'r fro,
Eneinir hwy â dagrau plwy
Rhai annwyl sy'n y gro.

Mae hiraeth yn fy nghalon drwch
Wrth grwydro'r boncan fad,
Cans dyma lle y gorwedd llwch
Anwylaf mam a nhad

Hen lannerch lle mae'r ywen
Ers oesau'n gwylio'n fud,
Uwch bedd y tlawd dilechen,
Ac uwch y marmor drud;
Gan blygu'i phen yn wylaidd,
O barch i'r sanctaidd fan
O'i brigau hi daw dagrau'n lli
Ar boncan bach Bryn Llan.

Mae hiraeth . . . etc, etc.

Mae Dafydd Ddu Eryri,
Yn ??on o dan y gist,
A thawel lu aneiri'
Anwyliaid Iesu Grist.
Lle'r huna 'Penygreuor',
Ac Eos Gwynedd mwy,
Ar nos o haf hyd yno'r af,
Gan gofio'u lleisiau hwy,

Mae hiraeth . . . etc, etc.

Hen Eglwys fach Mihangel
Sydd draw, a'i drws yn goch,
Mae lluoedd heddiw'n isel
Fu'n ufudd gynt i'w chloch;
Pa le mae'r llu amodau
Wnaed wrth ei hallor goed?
A llawer llw, pa le mae nhw?
Yn ddrylliau wrth ei throed?

Mae hiraeth . . . etc, etc.

Rhyw ddydd ceir finnau'n isel,
A marwol fydd fy rhan,
O cluder fi yn dawel
I boncan bach Bryn Llan,
Na chaner salm nac emyn
Cyn troi'r dywarchen werdd,
Gadewch, o'r llwyn, i'r fronfraith fwyn
I ganu'm galar gerdd.

Mae hiraeth . . . etc, etc.

Llanrug GLAN RHYDDALLT

O NEIGWL I LANDDEINIOLEN

Yn rhifyn diwethaf o'r *Eco* cafwyd hanes teulu Gunnis a'r cysylltiad posibl â Llanddeiniolen. Hyd yma, methais a darganfod unrhyw wybodaeth ychwanegol am Gainor verch Thomas na'i chartref ym mhlwyf Llanddeiniolen. Yn y cyfamser cefais alwad ffôn gan Mr Arfon Owen o Fethel yn holi ynglŷn â chysylltiad arall rhwng Llanddeiniolen a Neigwl; y tro hwn, tua dau can mlynedd yn ddiweddarach.

Yn ôl Mr Owen roedd hen nain iddo yn llaethferch ar fferm y Castell. Deuai yn wreiddiol o Lŷn, ac yr oedd chwaer iddi yn byw yn Neigwl. Thomas oedd ei chyfenw hithau hefyd, a phriododd â Hugh Hughes, saer maen a fu'n gyfrifol am adeiladu llawer o dai yn ardal Saron, Bethel. Yno, yn y Fron Haulog yr oedd Hugh ac Elisabeth Hughes yn byw. Y cwestiwn a ofynnai Mr Owen oedd pa gysylltiad allai fod rhwng Neigwl a Llanddeiniolen yn chwarter olaf y ganrif ddiwethaf, a thybed a oedd y cysylltiad hwnnw yn deillio o briodas Gainor verch Thomas a Richard Gunnis?

Teulu Roberts oedd yn byw ar fferm y Castell yn ystod y ganrif ddiwethaf. Bu'r John Roberts gwreiddiol yn stiward yng ngwaith copr Mynydd Parys, ond roedd wedi symud yn ddiweddarach i Lanllyfni, ac yna i'r Castell tua diwedd y ddeunawfed ganrif neu ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Roedd John Roberts yn un o'r rhai a fu'n gyfrifol am sefydlu'r achos Methodistaid yn yr Ysgoldy yn 1808, ac ymhen pedair blynedd, cawn ei fod yn ymwneud â sefydlu'r achos yng nghapel Pentgir. Bu farw yn 1826.

Un o'i feibion oedd Richard Roberts a aned yn 1798. Roedd yntau'n byw yn y Castell, ac yno y ganed ei saith plentyn: John, a raddiodd o Brifysgol Caeredin yn 1856, ac a ddaeth yn feddyg i'r ardal. Roedd yn byw yng Nghlwt-y-bont. Thomas oedd yr ail fab. Daeth yn Ustus Heddwch, ac yn 1913 roedd yn Uchel Siryf Sir Gaernarfon. Aeth Richard, y trydydd mab, dramor a bu'n gweithio yn Bombay. Merched oedd y gweddill — Anne, Catherine a Sarah (priod Dr Griffith Owen Roberts o Glwt-y-bont).

Ellen oedd y ferch hynaf. Priododd â David Evans Owen, ac yr oeddent yn byw yn y Castell tua diwedd y ganrif ddiwethaf. Mab oedd David Evans Owen i Owen Owen, Bodnithoedd, Llŷn, a nain iddo oedd Jane Griffith, Neigwl Ucha, Llŷn. Tybed, felly, ai dyma'r cysylltiad? A oedd yn bosibl i hogan ifanc o Neigwl gael ei hanfon gan ei meistres (Jane Griffith) i'r Castell i fod yn forwyn fach i'w hŵyr, David Evans Owen? Ni allaf ddarganfod cysylltiad arall.

Gyda llaw, roedd Catherine, chwaer i Richard Roberts y Castell, wedi priodi ag Owen Roberts o'r Dinas, Llanwnda, ac felly yn hen hen nain i'r Iarll Snowdon, cyn-ŵr y Dywysoges Margaret.

Rŵan, 'sgwn i faint o'r darllenwyr fydd yn honni bod yn ddisgynyddion o deulu'r Castell, ac felly yn hawlio cysylltiadau brenhinol? I chi, mwynhewch araith y frenhines dros y 'Dolig, ac i bawb arall, gwyliau dedwydd.

Cofiwch gysylltu rhwng rŵan a diwedd Ionawr os am gynnig gwybodaeth neu wneud ymholiad ar unrhyw agwedd o hanes y fro. Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. Ffôn (01286) 673515.

SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu
Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol
CREDWCH! HOLWCH!
ffonlwch (01286) 830609
— TENEUWCH —
SLIM CHWIM MEWN DIM!

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB
ODDI WRTH
KMP LLANBERIS
DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN
Dim bysus dydd Nadolig a Gŵyl San Steffan, 25 a 26 Rhagfyr, a Dydd Calan, 1 Ionawr 1999. Gwasanaeth dydd Sul ar 27 a 28 Rhagfyr
Gwasanaeth arferol dydd Sadwrn, 2 Ionawr 1999

CYFLENWYR PORTHIANT
IDRIS MORRIS
BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO
Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
Y Felinheli 670439
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Wil a'r staff
Cig Bethel
Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763
Gwyliwch am ein prisiau arbennig am wyn lleol yn y flwyddyn newydd
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH
ANN A BILLY HUGHES
SIOP TREFLYN
BETHEL
Ffôn: (01248) 670106
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Cefnogwch Fusnesau Lleol
CEIR CYMRU
BETHEL (01248) 670451
(Hefyd yn Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)
Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros yr wyth mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.
Dymuniadau gorau ar gyfer 1999 i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd: **'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

APÊL AM ORGANYDD. Mewn cyfarfod o'r PCC a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Deiniol, Llanddeiniolen, nos Fawrth, 1 Rhagfyr, mynegodd yr aelodau eu pryder nad oes organydd yn yr Eglwys ers i Mrs Siân Hughes ymadael â'r ardal ar ôl blynyddoedd o wasanaeth.

Mae'r aelodau'n awyddus i gael organydd i'r gwasanaethau am 3 o'r gloch ar y Sul. Os oes unrhyw un â diddordeb cysyllter â'r Parchg Ann Smitham ar (01248) 671967.

PLANT MEWN ANGEN. Casglodd Sarah, Emma, Katie, Kelly, Leah, Tracey, Ian, Gethin, Jamie, Mark, Iwan a Paul £67 i Apêl Plant Mewn Angen trwy chwarae pêl-fasged yn eu gwisgoedd nos ar iard yr Ysgol. Diolch i bawb am eu cyfraniad ac i Mr Thomas, prifathro'r Ysgol Gynradd am ganiatâd i ddefnyddio'r iard a'r offer.

DRAENOG

Glywsoch chi am y golffiwr hwnnw yng Nghaernarfon yn taro'r bêl yn gam? Yn hytrach na disgyn yn daclus wrth y twll fe darodd y bêl ei wrthwynebwr oedd yn sefyll yr ochr arall i'r lawnt. Roedd yr ergyd ganddo *ef yn s* âl, ond rhyfedd na fyddech chithau wedi gweld y bêl yn dod, *Robin. Sbecs* newydd amdani i'r ddau ohonoch chi.

CLWB ERYRI

Yn y cyfarfod ar nos Wener, 4 Rhagfyr, estynnwyd croeso cynnes i'r ddau aelod newydd Huw Price Hughes, Bethel a Tom Eilian Jones, Llanberis. Dymunodd y llywydd, Alwyn Evans, gysylltiad hir a ffrwythlon â'r Clwb i'r ddau, ac edrychid ymlaen at eu cyfraniad mewn dadl a gweithgaredd pan godai'r cyfle.

Roedd cynrychiolaeth iach yn bresennol i wrando ar y cadeirydd, Geraint Lloyd Owen, yn cyflwyno'r siaradwr, Edgar Parry, yn ei ddull afiaethus a ffraeth ei hun.

Wedi'r rhagymadroddi, cafwyd portread meistrolgar ac ysgolheigaidd yn yr anerchiad o ysgolhaig, bardd, llenor, botanegydd, pensaer, arlunydd a chrwydrwr mynyddoedd heb ei ail, sef yr offeiriad John Parker a flodeuai yn negawdau hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf. Mewn gair, delwedd a darlun, cadwodd y gŵr arbennig hwn fanylion am bensaerniaeth a strwythurau mewnol llawer o hen eglwysi plwyf Cymru wledig yn ogystal â chadierlan Tyddewi ei hun i'r oesoedd a ddêl cyn i ailwampio a moderneiddio difeddwl a dichwaeth diweddarach eu dinistrio. Testun syndod oedd cael gweld gallu arbennig John Parker fel artist a'i ddawn i ddal manylyn mewn cerfwaith neu ogoniant mawreddog ucheldir a mynyddoedd Cymru gyda'r un rhwyddineb greddfol.

Wedi trafodaeth ddiddorol o'r llawr, diolchwyd i'r siaradwr a phawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson gan Frank Green. Wrth gloi, cyhoeddodd y llywydd fod y cyfarfod nesaf ar nos Wener, Ionawr 8, pryd y ceir anerchiad gan y Dr R. S. Williams, Waunfawr gyda Stanley Owen, Bontnewydd yn cadeirio.

IOLO HUWS-ROBERTS

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PWYLLGOR NEUADD. Enillwyr Clwb Cant Tachwedd oedd: 1, Rhian Roberts, Pen-y-groes; 2, R. Jones, Heatherbank; 3, Sioned Mai, Tai Arthur. Enillwyr Rhagfyr oedd: 1, Ann Ifans, Sycharth; 2, Gwen Roberts, Weirglodd Goch; 3, Dilys Williams, Llys-y-gwynt. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i holl aelodau'r Clwb Cant am eu cefnogaeth yn 1998 a gobeithir cael yr un gefnogaeth yn 1999. Adnewyddir yr aelodaeth yn lonawr – 50c y mis neu £6 y flwyddyn. Mae croeso cynnes wrth gwrs i aelodau newydd. Y mae'r weithgaredd hon yn hwb enfawr tuag at y gost o redeg y Neuadd Gymuned. Diolchir hefyd i bawb a gefnogodd pob gweithgaredd yn ystod y flwyddyn. Os bydd y tywydd yn ffafriol bydd criw o garolwyr yn dod o amgylch y pentref nos Lun, Rhagfyr 21ain, gan gychwyn o Llys-y-gwynt am 6.30 p.m.

DIOLCH. Dymuna'r henoed ddiolch o galon i'r trefnwyr am y cinio Nadolig a gawsant yn Ninas Dinlle. Diolch am haelioni Eglwys Santes Helen, Ysgol Sul Undebol Bosra a chefnogaeth y pentref oll yn y Noson Goffi gan sicrhau cychwyn diddan a chyfeillgar i'r Nadolig.

YSGOL SUL BOSRA. Cynhelir gwasanaeth y plant fore Sul, Rhagfyr 20fed am 10 o'r gloch. Thema'r gwasanaeth fydd, 'Y Goeden Nadolig Fach Unig'. Croeso cynnes i bawb ddod i fwynhau hwyl yr Ŵyl gyda'r plant. Gwneir casgliad tuag at achos da. Bydd y parti Nadolig bnawn Llun, Rhagfyr 21ain, o 3 tan 5 o'r gloch yn Neuadd Santes Helen.

DEUNAW OED. Llongyfarchiadau i ti, Aled, 17 Bryntirion ar gyrraedd dy 18 oed. Pob dymuniad da iti oddi wrth Mam, Dad, Sioned a Nain a'r teulu oll a phawb yn y pentref.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau brwd i ti, Mathew Philips, ar gael dy ddewis i ganu'r piano yng Nghyngerdd y Goreuon sydd wedi'i drefnu gan Fwrdd Cyswllt yr Ysgolion Cerdd Brenhinol, yn Neuadd PJ, Bangor, ar Dachwedd 6ed. Llwyddodd Mathew i gael marciau uchel iawn yn ei arholiad piano, gradd 3, yn ddiweddar. Dalied ati.

POB LWC. Dydd Sadwn, Hydref 24ain, yng Nghapel y Rhos, Llanrug, priodwyd Olwen Meredydd Jones â Kevin Morgan, 39 Stryd Eleanor, Caernarfon. Dymunir pob bendith i'r ddau ohonoch yn eich bywyd priodasol, oddi wrth y ddau deulu a phawb ohonom yn y pentref.

Olwen a Kevin ar achlysur eu priodas.

Dymuna Olwen a Kevin ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian a'r llu cardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr iawn.

PEN-BLWYDD HAPUS. Rwy'n siŵr fod pawb ym mro'r Eco wedi mwynhau y rhaglen 'Pen-blwydd Hapus' a deledwyd ddechrau'r mis hwn – pen-blwydd hapus un o sylfaenwyr yr Eco a chadeirydd presennol y pwyllgor llywio, Arwel Jones, Cae Eboni. Nid yw'n rhy ddiweddar i ninnau ategu'r cyfarchion a diolch am raglen ddifyr a hwyliog.

EGLWYS SANTES HELEN. Dyma dref y gwasanaethau yn ystod y Nadolig:

20: Gwasanaeth y Goleuni am 3 o'r gloch, gyda plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan.

24: Noswyl Nadolig. Gwasanaeth y Cymun Bendigaid am 11.30 o'r gloch yr hwyr.

27: Gwasanaeth y Cymun a Charolau am 10.30 a.m.

Dymunir gwellhad buan i Mrs Jennie Roberts, Llanrug ac i W. H. Williams, Llanrug.

CYFARCHION. Dymunir Nadolig dedwydd i chwi oll a phob bendith yn 1999.

APÊL. Wedi bron i bymtheg mlynedd fel gohebydd newyddion y pentref dymuna Ann Ifans apelio yn daer ar i rywun ymgymryd â'r dasg o gasglu newyddion o ddiwedd lonawr ymlaen. Cysylltir ar 872407 neu ag un o'r golygyddion.

ATEBION Y CWIS NADOLIG

1. Mark Hughes (Man.U v Barcelona, Cwpan Enillwyr Cwpanau Ewrop)
2. Robin McBryde.
3. Wilf Wooler, Tony Lewis, Mathew Maynard.
4. Spurs.
5. Llechid Celts.
6. Iorys Griffiths
7. Yr Almaen a Sbaen.
8. Widnes, Warrington.
9. Pen-y-bont.
10. Bethesda.
11. 1996.
12. Colin Jones, Alun Vaughan.
13. Porthmadog v Bangor.
14. Anfield, Copenhagen, Parc Ninian.
15. Joe Jordan, Diego Maradona.
16. Juventus.
17. Joe Brown.
18. Ian Gwyn Hughes (ei daid, Lewis Valentine, yw awdur yr emyn).
19. Rwmania.
20. Leighton James o'r smotyn.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD

BANGOR
(01248)
354646

NOSWYL NADOLIG

Welai ddim ceirw yn dod dros y bryn,
A chlywai mo'r clychau yn canu'n y glyn;

Ond mae'r gwynt yn chwipio'r llyn dan y lloer
Gwell i mi swatio ar noson mor oer,

Mae 'na ddyn eira ar ganol y rhos
Yn disgwyl yn eiddgar am Santa Clos,

Sgarff am ei wddf o a het ar ei ben
Yn astudio'r sêr sy'n disgleirio'n y nen;

Gwell mynd i gysgu a chael breuddwyd pêr
Am geirw'n carlamu dan drimins o sêr,

Yna deffro'n y bore yn gynnar iawn
A chanfod yr hosan yn fwy na llawn,

A Santa wedi diflannu'n llwyr
Fel y dyn eira. I ble? Pwy a ŵyr?

SELWYN GRIFFITH

Dewch â'ch Cynhadledd i Lanberis

Roedd Gwen Griffiths o Westy'r Victoria, Llanberis ymhlith staff gwesty o bob rhan o ogledd Cymru mewn cynhadledd a drefnwyd yn ddiweddar i geisio denu mwy o gynadleddau i'r ardal.

Trefnwyd y cwrs arloesol gan Cynaleddau Gogledd Cymru, a redir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Yno hefyd roedd swyddogion twristiaeth o gynghorau Gwynedd a Fflint.

Mae busnes twristiaeth yn werth £16 miliwn y flwyddyn i economi gogledd Cymru, gyda chynadleddwyr yn gwario teirgwait mwy o arian nag ymwelwyr hamdden. Tra bo cynadleddwyr yn gwario £84 y dydd, £24 a werir ar gyfartaledd gan ymwelwyr hamdden.

Meddai Gwen Griffiths, 'Dysgais lawer iawn ynghylch denu cynadleddau a'r ffordd orau o ymateb i ymholiadau. Roedd yn gwrs rhagorol i unrhyw un sy'n dechrau yn y diwydiant ymwelwyr.'

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill
Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL

Nadolig Llawen a diolch am eich cefnogaeth oddi wrth
Alwyn a Sarah Jones
BLODAU RACCA
PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870605
RITHOEDD CELYN
COED NADOLIG
Brysiwch i archebu!
Ar agor saith diwrnod yr wythnos

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr yr *Eco*

CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER: WAUNFAWR (01286) 650552
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco.

Mae Liz a John Whitehead, Anna, Cerys a Fiona
SIOP CHIPS WAUNFAWR
Ffôn: 650683
yn dymuno Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

GWASANAETH AILGYLCHU GWYNEDD
Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd
(mewn patneriaeth â chyngor Gwynedd)
Gwnewch Adduned yn y Flwyddyn Newydd i Ailgylchu yn Rheolaidd ym 1999
Safleoedd Cymunedol yn:
WAUNFAWR : LLANRUG : LLANBERIS
CWM-Y-GLO : BETHEL
Ffôn: (01248) 355 112
ANTUR WAUNFAWR

Mae BRIAN a RITA HENDERSON
SIOP Y PENTREF
BRYN GWYNEDD
WAUNFAWR
YN DYMUNO NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB
GWERTHWYR CARDIAU MITAR MANWEB
— FIDEOS I'W LLOGI —

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
EMRYS OWEN
PEIRIANAU AMAETHYDDOL Y WAUN
(Waun Argricultural Engineering)
OFFER AMAETHYDDOL O BOB MATH
HAEARN ADDURN I'R TŶ
WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650 253

SFP
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth pawb yn
SNOWDONIA FIRE PROTECTION
YR HEN EFAIL, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650235
Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445
OFFER DIFFODD TÂN — masnachol ac i'r cartref
OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref
GOLEUADAU ARGYFWNG
LARWM TÂN, a llawer mwy
i'w gweld yn ein swyddfa.
BSI REGISTERED FIRM

Mae
LLEUFER, NELMA A TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650 291
yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.
★ O LEIAF 60 O WELYAU MEWN STOC
★ 5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
★ 40 O '3-PIECE SUITES'

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR Ffôn: 650218
★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn
NOS SADWRN, 19 RHAGFYR: PARTI A DISGO NADOLIG I'R TEULU
YMWELIAD SANTA 7.30 — 8.30 p.m.
CROESO CYNNES I BAWB DROS WYLIAU'R NADOLIG

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn
STERMAT
OFFER TŶ A GARDD
CAERNARFON
Ffôn: 676506
Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

PEN-BLWYDD PRIODAS. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs O. T. Jones, Bryn Gwenallt ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

PRIODAS. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i David Jones, Bro Waun ar ei briodas â Nia o Bontllyfni.

DATHLU PEN-BLWYDD. Bu Mr Evan Hughes, Bryn Golau yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Llongyfarchidadau a phob dymuniad da ichi Mr Hughes. Dymuna Mr Hughes ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd a diolch hefyd am y parti a drefnwyd gan y plant ar ei gyfer yn y Bistro, Llanberis.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Annie Bennett, Llechwedd ar gyrraedd ei 92 oed. Nid yw Mrs Bennett wedi bod yn dda yn ddiweddar a gobeithiwn yn fawr eich bod yn teimlo'n well erbyn hyn.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at mrs Bethan Williams, Gwernydd; Mr Ray Johnston, Tŷ Gwyn; Mr John Cotton a Mrs Joyce Steene sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

GARTREF O'R YSBYTY. Mae'n dda deall fod Mrs Anne Addison, Lloches; Mrs Amy Roberts, Glan Gwyrfai; a Mr Treflyn Thomas, Treforfan yn gwella wedi iddynt fod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithiwn yn fawr fod Mrs Arianwen Thomas, Stad Tref Eilian yn gwella wedi iddi fod yn sâl, ac hefyd Trevor Beech, Bronallt yn gwella wedi iddo frifo yn ei waith. Ar dymor ewyllys da fel y Nadolig anfonwn ein cofion at bob un sy'n wael ac yn gaeth i'w cartrefi.

PROFEDIGAETH. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Christina, Lywela, Jean, Richard ac Emlyn yn eu profedigaeth o golli eu tad, y diweddar Mr David Morris, 2 Ael-y-bryn.

DOD YN ÔL I'R WAUN. Croeso yn ôl i Sandra ac Emyr a'u mab bychan, Gareth Wyn, yn ôl i fyw i'r pentref. Mae'r teulu bach wedi ymgartrefu yn Llys Meredydd.

NOSON O GAROLAU. Bydd côr y pentref yn cynnal noson o gân yn Eglwys Sant Ioan, nos Sul, Rhagfyr 20, ac estynnir croeso cynnes i bawb yno i brofi naws y Nadolig. Gwneir casgliad tuag at Eglwys Sant Ioan.

YR URDD. Llongyfarchiadau i'r plant a fu'n cystadlu yn y Gala Nofio ym Mangor. Pob lwc i Rebecca Sanderson yn y rasus terfynol a gynhelir yn Abertawe.

Bydd y tymor hwn yn gorffen nos Fercher, 16 Rhagfyr, gyda'r plant yn canu carolau o gwmpas y pentref ac yn gorffen yn y Ganolfan gyda noson o paned a mins peis ac mae'n siŵr y cawn ymweliad gan Siôn Corn.

KARATE. Llongyfarchiadau i Iwan, Rhydian a Jason ar lwyddo i ennill eu belt coch mewn Karate. Rhaid gweithio'n galed rŵan ar gyfer y belt nesaf. Diolch yn fawr i George Morgan am eu hyfforddi.

CLWB IEUENCTID Y PENTREF. Mae'r Clwb ar agor bob nos Fawrth a nos Fercher o 7.30 hyd 9.30 i bobl ifan rhwng 13 a 19 oed. Dyma'r gweithgareddau fu yn y Clwb yn ystod mis Tachwedd: Ymwelwyd â Chlwb Ieuenctid Bethel i chwarae unihoc, pŵl, ac ati. Bu'r Clwb am drip yn Llandudno. Cafwyd noson o bingo. Bu Sandra Owen yn y Clwb i hyfforddi'r merched ifanc am goluro a thrin ewinedd. Ymwelwyd â Chanolfan Hamdden Arfon a bu'r aelodau'n chwarae volley-ball a street-hockey ar roller-blades. Roedd y Ganolfan yn llawn o bobl ifanc nos Fawrth, 17 Tachwedd, i'r cwis rhanbarthol ac roedd dwy adran, sef iau (dan 16) a hŷn (dros 16) a'r canlyniadau i'r Clwb oedd 4ydd i'r adran iau ac 2il i'r adran hŷn. Bu Clare Roberts yn y Clwb i roi help llaw i'r aelodau i baratoi collage ar y pentref fydd yn cael ei gyflwyno i'r Ŵyl Gelf (Eisteddfod y Clybiau Ieuenctid) ym mis Chwefror 1999. Gwahoddwyd Lindsey Jennings i'r Clwb nos Fercher, 25 Tachwedd, i ddangos i'r aelodau sut i baentio ar sidan ac roedd y canlyniadau yn drawiadol iawn!

Dyna ichwi enghreifftiau o weithgareddau'r Clwb Ieuenctid, felly ymunwch â ni. Rydym angen aelodau newydd —dowch i gyfarfod â Llinos, yr Arweinyddes, a Paul, yr Is-arweinydd, ac ymunwch yn yr hwyl. Tâl aelodaeth am noson yw 25c.

DIOLCH. Dymuna Catherine ac O. T. Jones, Bryn Gwenallt ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn ar achlysur dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

ENILLWYR y Clwb 300 am fis Tachwedd oedd £40: Mrs Wendy Jones, 2 Penclip; £25: Mr Eurig Wyn, Y Frenni; £10: Mr J. H. Edwards, Y Frenni.

APÊL. Ni, trigolion y Waun, fydd yn gyfrifol am blygu y rhifyn nesaf o'r Eco. Apeliaf yn daer ar i bob un fydd yn gallu dod i helpu gyda'r gwaith ddod i Festri Capel Croesywaun, nos Iau, Ionawr 28, o 5.30 p.m. ymlaen nes cwblheir y gwaith. Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae'r ymateb wedi bod yn dda a'r gwaith wedi ei orffen erbyn 7.30 p.m. Diolch am eich cefnogaeth.

CYFARFOD Â DAMWAIN. Anfonwn ein cofion i Mrs Glenda Williams a'n dymuniadau gorau am wellhad buan wedi iddi frifo ei choes yn ei chartref.

CYDYMDEIMLO. Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Mrs Buddug Rowlands.

DIOLCH. Dymuna Eurwyn a Pearl, Parc ddiolch i'w perthnasau, cyfeillion a chymdogion am bob cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli brawd a brawd yng nghyfraith, sef Victor Parry, 7 Marine Terrace, Waterloo Port, Caernarfon. Diolch hefyd am y galwadau ffôn, cardiau a'r rhoddion tuag at Ymchwil y Cancr.

CYFARCHION Y TYMOR. Dymunwn Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i chwi i gyd.

WELDPAR
CYMRU WALES
8 Pant y Waun
WAUNFAWR. Ffôn: 650426/720
OFFER WELDIO O'R SAFON UCHAF
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH **BRIAN, SHIRLEY A TONY**

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos
NADOLIG LLAWEN **PLUM24CYM** A BLWYDDYN NEWYDD DDA
Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwms
Gwaith cynnal a chadw o bob math
Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

Swyddfa'r Post
SWYDDFA'R POST ac YSTORFA TŶ NEWYDD WAUNFAWR Ffôn: 650708
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH COLIN, JUDY A'R STAFF
CROESO I GWSMERIAID HEN A NEWYDD YN 1999

CANOLFAN FFITRWYDD P.C.
HEN SAFLE MARCONI
WAUNFAWR
(01286) 650011
★ OFFER RHAGOROL ★
★ YSTAFELLOEDD NEWID ★
★ CAWODYDD ★
★ TALU WRTH Y DRWS ★
★ DIM ANGEN CADW LLE ★
ORIAU AGOR:
11 a.m. - 10 p.m. Llun - Gwener
10 a.m. - 10 p.m. penwythnosau
PRISIAU:
1 sesiwn £3 10 sesiwn £25
Tocynnau 6 a 12 mis ar gael
NADOLIG LLAWEN a BLWYDDYN NEWYDD DDA

ŠKODA OCTAVIA
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
John Ferrarese a'r staff
MODURDY PANT Y WAEN
WAUNFAWR Ffôn: 650524

Dewch i ddreifio'r OCTAVIA . . .
a chasglu 1000 o bwyntiau Tesco Clubcard

EGLWYS SANT IOAN WAUNFAWR
NOSON O GÂN
gyda CHÔR Y PENTREF
yn Eglwys Sant Ioan
Nos Sul, 20 Rhagfyr 1998
Gwneir casgliad at yr Eglwys

Bydd Aelodau'r Urdd yn
CANU CAROLAU
o gwmpas y pentref
(o'r Ganolfan am 6 p.m.)
nos Fercher, 16 Rhagfyr 1998
Yna ceir paned, mins peis ac ymweliad gan Siôn Corn yn y Ganolfan am 7.30 p.m. a charolau dan arweiniad Eurig Wyn

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

Paratoi ar gyfer y sioe 'Olifar'.

YR URDD. Bu'r canlynol yn cymryd rhan yn y Gala Nofio Rhanbarthol a gynhaliwyd ym Mhwll Nofio Bangor yn ddiweddar — dan 10 oed; Tomos Parry; dan 12 oed: Alaw Ceris, Sioned Jones, Aneira Thomas, Jaco Mullane, Gruffudd Pritchard, Daniel Roberts a Joseff Simpson. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

YR AELWYD. Nos Fercher, Tachwedd 25, roedd aelodau'r Aelwyd wedi cael gwahoddiad i ymuno ag Aelwyd Bontnewydd yn y Ganolfan yn Bontnewydd. Roedd cwis wedi ei drefnu yng ngofal Arwel Jones, Penisarwaun. Er mwyn sicrhau tegwch â phawb — yn cynnwys y cwisfeistr o Lanberis fu'n brifathro Ysgol Bontnewydd! — ffurfiwyd pedwar tîm cymysg, a chafwyd digon o hwyl wrth ateb y cwestiynau amrywiol. Bwriedir croesawu aelodau Bontnewydd i Lanberis yn y flwyddyn newydd. Yn gynharach yn y mis roedd dau dîm o'r Aelwyd wedi bod ym Mhen-y-groes mewn cystadleuaeth pŵl, ac aeth wyth o'r aelodau ar drip sglefrio i Lannau Dyfrdwy oedd wedi ei drefnu ar gyfer aelwydydd y sir.

CAPEL COCH. Daeth tymor y cyfarfod plant i ben ddydd Mawrth, Rhagfyr 15 a chafwyd parti Nadolig oedd wedi ei drefnu gan Mrs Vera Griffith. Bydd y cyfarfod plant yn ailddechrau ddydd Mawrth, Ionawr 12.

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul am 2 o'r gloch, brynhawn Sul, Rhagfyr 20, a chynhelir y parti Nadolig nos Fawrth, Rhagfyr 22.

Bydd gwasanaeth yn y festri fore dydd Nadolig am 10 o'r gloch ac mae croeso i eglwysi eraill y pentref i ymuno â ni fel arfer.

YSGOL FEITHRIN. Mae Mrs Catherine Williams yn ymddeol ddiwedd y tymor wedi 17 mlynedd o wasanaeth fel athrawes yr Ysgol Feithrin. Bu 'Anti Catherine' yn fawr ei gofal am ddegau os nad cannoedd o blant, a bydd chwith mawr i bawb yn yr Ysgol Feithrin hebddi. Diolch iddi am ei gwaith a'i gofal am yr holl blant a fu gyda hi trwy'r blynyddoedd. Wrth ddymuno'r gorau iddi dymunwn yn dda hefyd i Delyth Tomos a fydd yn cymryd drosodd yr arweinyddiaeth ym mis Ionawr. Gwaned elw o £150 er budd yr Ysgol Feithrin o'r noson a drefnwyd gan y Body Shop yng Ngwesty'r Dolbadarn ar Ragfyr 2. Diolch i Aneurin am ei groeso a'i gefnogaeth arferol, a diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r fenter.

YSGOL DOLBADARN. Bu'n gyfnod prysur iawn yma yn ddiweddar. Yn fuan wedi prysurdeb paratoi'r bocsus ar gyfer Ymgyrch Plentyn y Nadolig bu'r plant wrthi'n paratoi a gwerthu cacennau a diodydd a theganau diwrnod Plant Mewn Angen ar Dachwedd 20, a gwnaed elw o £128.40 at yr apêl. Cynhaliwyd y Ffair Lyfrau flynyddol ar Dachwedd 24 a diolchwn i bawb a'n cefnogodd eleni eto. Aeth holl blant yr Ysgol i'r pantomeim 'Og Ogo Pogo' yn Theatr Gwynedd ar Ragfyr 7 a chafwyd cinio Nadolig ddydd Iau, Rhagfyr 10. Uchafbwynt dathliadau'r Nadolig oedd Gwasanaeth y Babanod brynhawn Mercher, Rhagfyr 15, a'r ddau berfformiad o'r sioe 'Olifar' brynhawn Mawrth a nos Fercher, Rhagfyr 15 a 16. Bu'r plant yn brysur ers wythnosau yn paratoi ar gyfer perfformiadau 'Olifar' a llongyfarchwn hwy ar eu gwaith. Diolch yn arbennig i Mr Dylan Parry a Miss Bethan Owens am yr oriau lawer o waith paratoi ar gyfer y sioe. Gobeithio eu bod wedi mwynhau'r holl waith gymaint â'r plant eu hunain. Diolch hefyd i Miss Sian Willis am gynllunio'r set, ac i Mr Hefin Parry a Mr Tom Edwards am yr offer sain. Nadolig llawen iawn i'r plant a'u teuluoedd a holl garedigion yr Ysgol.

Enillwyr Clwb Ffrindiau'r Ysgol am fis Rhagfyr oedd: £35 Mrs D. Williams, 18 Ffordd Tŷ Du (20); £25 Mrs C. Fowler, Pant Cafn (197); £15 Mrs M. Davies, Stryd yr Wyddfa (98); £10 Mrs C. Williams, 'Rallt Goch (86); £5 Christine Roberts, 34 Maes Padarn (180). Pelen eira: £50 yr un i Mrs S. Davies, Bryn Tirion (57) a Mrs G. Roberts, Hyfrydle (48).

DIOLCH. Dymuna Siân, Eilir a'r teulu, 2 Tai Gwyrfai ddiolch i'w cymdogion a'u ffrindiau am y cardiau, galwadau ffôn a'r cydymdeimlad a amlygwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli tad, tad yng nghyfraith a thaid, sef John Gwyn Evans, 12 Rhos-y-coed, Bethesda.

CWMNI DRAMA LLANBERIS

NOSON o GAROLAU

gyda LLEISIAU LLIWEDD

(Arweinydd: Mrs Mattie Hughes)

NOS LUN, RHAGFYR 21

am 7.30 o'r gloch

YN THEATR FACH GORFFWYSFA

Mynediad £1

yn cynnwys paned a mins pei

Elw at y Cwmni Drama

CYNGHORYDD NEWYDD. Etholwyd Trefor Edwards (Ymgeisydd Annibynnol) yn Gynghorydd Sirol dros Lanberis a Nant Peris yn yr etholiad a gynhaliwyd ddydd Iau, Tachwedd 19. Llongyfarchiadau iddo a dymuniadau gorau ar gyfer y gwaith. Danny Roberts (Plaid Cymru) oedd yn ail; Gwyn Williams (Democratiaid Rhyddfrydol) yn drydydd; a Keith Parry (Llafur) yn bedwerydd.

Trefor Edwards.

DYWEDDÏAD. Llongyfarchiadau mawr i Siân Gwyn Griffiths a Maldwyn Price Morris ar achlysur eu dyweddïad yn ddiweddar.

PLAS PENGWAITH. Mae Mrs M. Munro a Mrs F. Ellis wedi dod gartref o'r ysbyty. Croeso cynnes yn ôl atom. Roedd Mr T. A. Pritchard yn dathlu ei ben-blwydd ddiwedd mis Tachwedd a gobeithio iddo fwynhau y diwrnod. Ym mis Rhagfyr mae Mrs Mair Hughes a Mrs C. Smith yn dathlu pen-blwydd ac mae pawb yn dymuno pen-blwydd hapus iddynt. Ar ddiwrnod Nadolig bydd Anti Mari yn dathlu ei phen-blwydd ac mae pawb yn dymunno pen-blwydd hapus iddi hithau.

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn Jones a'r staff

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul

Royal Victoria Hotel
wrth droed yr Wyddfa
Ffôn: Llanberis 870253

Cynhaliwyd y Ffair Nadolig ddydd Gwener, 4 Rhagfyr. Hon oedd y Ffair gyntaf i'w chynnal yn y pnawn ac fe fu'n llwyddiant mawr. Diolch yn fawr am y gefnogaeth – fe wnaed elw o £1026.26 i gronfa mwynderau'r trigolion.

Dymuna swyddogion y cartref ddiolch yn far iawn i'r staff a fu'n helpu ar y diwrnod ac am y gwaith caled i baratoi popeth. Diolch arbennig i Mr B. Thomas, Bontnewydd (ac i Siôn Corn) am ddod atom i ddifyrru'r trigolion a'r plant. Mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr iawn. Diolch hefyd i Mrs Beryl Jones sydd bob amser yn barod i helpu i werthu tocynnau raffl – hwb mawr i gael gwerthu y rheini. Enillwyr y raffl fawr oedd Mr C. Price-Jones, Carmel; Mrs H. Jones, Dinorwig; Mrs V. Griffiths, Llanberis; Siôn Arfon; Rowena Owen; Liz, Gors Bach; Julie, Cwm-y-glo; Gareth Flynn; P. Moss; 870404; Oz; Reg; Glenys; Louis Pritchard; Joe Brown; Paula, 12 Maes Padarn; Eleri Thomas. Enillwyr y raffl fach: Mrs O. Lambrecht; Mrs Th. Griffiths; Mrs E. Williams; Siôn Llywelyn; 10 Dôl Elidir; Plas Pengwaith.

Dymuna'r trigolion, swyddogion a'r staff ddiolch i bawb sy'n ein diddori dros yr Ŵyl a dymunwn Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb. Diolch yn fawr hefyd i Mr Vinney am drefnu'r bingo bob dydd Mercher ac i bawb fydd yn dod yma i'n cefnogi.

UNDEB Y MAMAU. Yn Eglwys St. Padarn bnawn Mawrth, Rhagfyr 1, cafwyd gwasanaeth o Ddarlleniadau ac Emynau ar gyfer Adfent. Daeth aelodau cangen Llanrug a Chwm-y-glo atom a chymerodd y dair Eglwys ran yn y gwasanaeth oedd wedi'i drefnu gan y Rheithor, y Parchg Philip Hughes. Mr Gareth Jones oedd yr organydd. Roedd merched cangen Llanberis wedi paratoi te arbennig yn nhŷ'r Curad a mwynhawyd y wledd yn fawr. Mrs Marjorie Roberts o Gwm-y-glo oedd enillydd y raffl a oedd yn rhoddedig Mrs Nan Owen. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Dorothy Jones o Gwm-y-glo. Aed â lluniaeth i bedair aelod sydd ddim yn mwynhau iechyd da ar hyn o bryd ac yn annalluog i fod gyda ni, sef Mrs Betty Williams, Mrs Muriel Morris, Mrs Jean Roberts a Mrs Beryl Owen.

DIOLCHIADAU

Dymuna Trefor ddiolch i holl drigolion Llanberis a Nant Peris am eu cefnogaeth yn ystod yr ymgyrch etholiadol a'r holl bleidleisiau a dderbyniodd ar ddiwrnod yr etholiad. Diolch yn fawr iawn, a Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i chi gyd.

Dymuna Alwena a'i chwiorydd a theulu'r ddiweddar Nancy Rowlands, 12 Stryd-y-dŵr, ddiolch o galon i'w perthnasau, cyfeillion a chymdogion am y galwadau ffôn a'r cardiau, i Feddygfa Llanberis, Ysbyty Gwynedd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a chymorth a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolchwn yn arbennig i'r Parchg John Pritchard, Mrs Lowri P. Roberts-Williams ac i E. W. Pritchard am y trefniadau.

Dymuna Ernest Owen, 8 Rhes Efrog ddiolch yn fawr i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 70 oed. Diolch hefyd i'r rhai fu'n trefnu'r syrpreis!

Dymuna Mrs Jean Roberts, 13 Stryd Goodman ddiolch yn fawr i feddygon a nyrsus Ward Alaw am eu gofal tra oedd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r Rheithor, y Parchg Philip Hughes, i Undeb y Mamau, i Gymdeithas Eglwysi Sant Peris a Sant Padarn ac i Glwb y Mamau. Diolch i'w theulu, ei ffrindiau a phentrefwyr Llanberis am y llu cardiau a'r galwadau ffôn.

BYDD YN WROL

(Er cof am Ellen Owen, Dôl Elidir)

Gwraig gref a ddioddefodd,– yn dawel
Hyd y diwedd brwydrodd;
Yn driw a gwrol fe drodd
Ei hwyneb i'r daith anodd.

B.J.

DRAENOG

Welsoch chi ddyn bach yn cario batri car rhwng 'Rallt Goch a'r Stryd Fawr yn Llanberis a hynny bob bore *am wythnos gyfan?* Roedd y car wedi torri a'r dyn bach wedi mynd â'r batri adre i'w osod ar charge. Ond er chargio'r batri dros nos wnâi'r car ddim cychwyn yn y bore, a rhaid oedd cario'r batri adref i roi rhagor o bŵer ynddo erbyn y bore wedyn. Wedi wythnos gyfan sylweddolodd cyfaill iddo nad oedd yna fan-belt yn y car ac mai dyna pam nad oedd y car yn tanio.

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes Faenol Ffôn: 871174

MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r gangen nos Lun, Tachwedd 16 o dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Williams. Ein gwraig wadd oedd Mrs G. Lloyd Jones, Llandegfan. Rhoddodd sgwrs i ni am 'Hanes y Fodrwy' mewn dull difyr a diddan iawn; gan olrhain yr hanes o adeg y Beibl hyd heddiw, a sôn am lawer o arferion arbennig ynglŷn â gwisgo modrwyau. Diolchwyd iddi gan Mrs Alice Griffith. Gwnaed y te gan Mrs M. E. Jones a Mrs M. Roberts.

Ar Ragfyr 6ed ymunwyd ag aelodau eraill Merched y Wawr i ganu carolau yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon.

PLAID CYMRU. Enillwyr Clwb 100 mis Tachwedd oedd £10 Mrs Myfi Jones, 11 Hafod Olau; £5 Mrs Alice Griffiths, Tan-y-bwlch, Dinorwig. Mis Rhagfyr: £10 Mrs Gwladys Jones, 18 Hafod Olau; £5: Mrs Eurwen Williams, 32 Hafod Olau.

DIOLCH. Dymuna Clarice Roberts ddiolch o galon i bawb am yr holl anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddiweddar.

YSGOL FEITHRIN. Ar ran pwyllgor a phlant yr Ysgol Feithrin hoffem ddiolch yn fawr iawn i Dewi Rees Williams, 9 Caradog Place a Dylan Jones, 5 Tai Gerddi, y ddau o Ddeiniolen, am redeg yn Ras yr Wyddfa gan godi arian i'r Ysgol Feithrin ac fe gasglwyd cyfanswm o £776.85. Diolch yn fawr hefyd i'w noddwyr.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas Lenyddol Undebol yn Y Caban nos Lun, Tachwedd 23. Y gŵr gwadd oedd Mr Emyr Llewelyn, Caernarfon (Cynfi gynt). Cafwyd sgwrs ddifyr ganddo yn sôn am lyfrau gan ganolbwyntio ar hanes Bob Owen Croesor. Soniodd hefyd am ei gyfnod ef ei hun yn llyfrwerthwr. Diolchwyd iddo gan Mr Tydfil Jones. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Ionawr 25, pan geir sgwrs gan Mr John Hughes, Racca, Penisarwaun, ar 'Blismona yn yr Hen Sir Gaernarfon'.

Y CYNGOR EGLWYSIG. Bydd eglwysi'r pentref yn cydaddoli mewn dwy oedfa yn Eglwys Llandinorwig dros y Nadolig. Fore Nadolig bydd Gwasanaeth y Cymun am 9 o'r gloch. A nos Sul cynhelir Gwasanaeth Goleuni am 5 o'r gloch. Cynhelir cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd nos Lun, Ionawr 11, yn Libanus am 7 o'r gloch.

CEFNYWAUN AC EBENESER. Bydd oedfaon y Nadolig yn y ddau gapel ddydd Sul, Rhagfyr 20. Am 10 o'r gloch y bore cynhelir gwasanaeth plant yr Ysgol Sul Unedig yn Ebeneser; ac am 5 o'r gloch cynhelir oedfa undebol yng Nghefnywaun. Dowch i ddathlu.

Cynhaliodd aelodau cymdeithas chwiorydd yr eglwysi eu gwasanaeth Nadolig yn Ebeneser brynhawn Iau, Rhagfyr 17.

CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Iorwerth a Peri , 5 Hafod Olau, Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i'w teulu, cymdogion a ffrindiau.

Y parti cydadrodd buddugol o dan 12 oed yn Eisteddfod Gwaun Gynfi.

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi oll oddi wrth **Tim, Jackie a phawb yng**
NGORSAF BETROL
Esso BERAN
DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau
Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd
Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn
TICEDI LOTERI AR WERTH

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?
YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);
YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)
Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)
CDH
Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055
Cyfarchion y Tymor i bawb

GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ *Porches*
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

CYFARCHION NADOLIG

LLANRUG

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon

673574

PEN CIGYDD Y FRO

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI

Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda oddi wrth Bob

Uned 1A BRYNAFON
LLANRUG
Ffôn: (01286) 650732 (fin nos)
FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

***FFENESTRI CELTIC* WINDOWS**

Sefydlwyd 1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

NHBC

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Richard, Meirwen a'r staff

SPAR

Y SGWÂR, LLANRUG

Ffôn: (01286) 672790

Oriau Arferol:
7am - 10pm wythnos; 8am - 10pm Sul
NOSWYL NADOLIG: 7am - 8pm
GŴYL SAN STEFFAN(Boxing Day): 8am - 8pm
NOSON OLA'R FLWYDDYN: 7am - 8pm
DYDD CALAN: 8am - 6 pm

Angen cymorth gyda'ch ffurflen treth incwm?
Angen gwell sustem ariannol ar gyfer eich busnes?
Angen cymorth gyda'ch cyfrifon?
Cysylltwch â

NADOLIG LLAWEN a

GORONWY HUGHES
Tel/Ffacs (01286) 674839
E-Bost gorhug@global.net.uk
Gweinyddiaeth Ariannol i Fusnesau Bach

BLWYDDYN NEWYDD DDA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR
LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael
Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Rhiannon a holl staff

BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 675175

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

YMDDEOLIAD HAPUS iawn i Mrs Elizabeth Jones, Brynheli sydd wedi ymddeol wedi gweinyddu yng nghegin Ysgol Gynradd Llanrug am ugain mlynedd. Bydd colled fawr ar ei hôl yno ond dymuna pawb ymddeoliad hapus a phrysur iawn iddi gyda'r teulu i gyd.

DIOLCHIADAU

Dymuna Llew Jones, Rhiwenfa, Afon Rhos ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y rhoddion, cardiau a'r galwadau ffôn tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac wedi iddo ddod gartref. Diolch hefyd i feddygon a gweinyddesau wardiau Glyder a Hebog am eu gofal a'u caredigrwydd.

Hoffai Elisabeth Jones, Brynheli ddiolch o galon i'r prifathro, staff a phlant Ysgol Gynradd Llanrug, i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad.

Dymuna Mrs Catherine Jones, Llys Eiddon, Lôn Groes ddiolch i bawb am y galwadau, anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn ddiweddar. Dymuna Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb.

Dymuna Mrs Gwenda Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y dymuniadau da mewn galwadau ffôn, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd tra yn ysbytai Gwynedd a Walton yn ddiweddar.

CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Bet, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, Nadolig hapus a phob dim gorau am y flwyddyn newydd i'w holl ffrindiau, cymdogion a theulu.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Iona Wyn Williams, Antmor, Bryn Moelyn sydd ar hyn o bryd yn Sbaen yn chwarae pêl-droed ym mhen-campwriaeth Ewrop i dîm Merched Cymru o dan 18 oed. Mae'r tîm yn chwarae yn erbyn y Swisdir, Ffrainc a Sbaen. Pob lwc yn y gemau a gobeithio dy fod yn mwynhau dy hun, Iona.

PLAID CYMRU. Cynhaliwyd y Ffair Nadolig nos Fercher, Rhagfyr 2 yn yr Ysgol Gynradd ac fe alwodd Siôn Corn yno i roi anrhegion i'r plant. Cafwyd noson lwyddiannus gyda stondinau a phaned, a digon o rafflau o bob math.

Yr enillydd am enwi'r ddol oedd Cliff Williams ac enillwyd y brif raffl gan Eirwen Rowlands, a gwobrau eraill gan Urien Deiniol, Debra, Geraint Iwan, Cari Owen, Pat Jones, Eirlys Williams, Miriam Davies ac Arwyn Roberts.

Erbyn hyn mae noson gyda Mary Vaughan Jones yn rhan hanfodol o raglen y tymor a byddwn yn cael ei chwmni i deithio'r byd nos Fercher, Ionawr 20. Cynhelir y cyfarfod yng Nghanolfan Penisarwaun am 7.30 o'r gloch ac mae croeso cynnes i bawb.

YSGOL GYNRADD LLANRUG. Dydd Gwener, Tachwedd 27ain bu plant a staff yr ysgol yn ffarwelio ag aelod gwerthfawr iawn o staff y gegin, sef Mrs Elizabeth Jones. Mae Mrs Jones wedi ymddeol o'i swydd ar ôl ugain mlynedd o wasanaeth ac mae pawb yn Ysgol Llanrug yn dymuno ymddeoliad hapus iawn iddi.

Yn ystod mis Tachwedd hefyd bu nifer o'r plant yn cynrychioli'r ysgol yn y tîm nofio yn Gala Nofio yr urdd a gynhaliwyd ym Mangor. Gwnaethant ymdrech dda a llongyfarchiadau iddynt i gyd. Aelodau'r tîm o dan 10 oed oedd Carwyn George, Owen Bracegirdle, Mari Deiniol, Lowri Ann Jones, Ffion Williams, Alex Lynes ac Iwan Arwel Jones. Aelodau'r tîm dan 12 oed oed Meilyr Owen, Ifan Dafydd, Emlyn Roberts, Iwan Machno, Sophie Gordon, Fflur Griffiths, Debbie Hughes, Siôn Derfel Jones, Llion Gethin, Gwenllian Williams, Llinos Catrin Roberts.

Mae nifer o blant blynyddoedd 5 a 6 yn edrych ymlaen i fynychu cwrs trawsgwricwlaidd yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn yn ystod Ionawr 5-8. Pob hwyl iddynt!

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, Rhagfyr 8fed, aeth criw da o'r aelodau i ddathlu'r Nadolig ym mwyty Meifon, Bontnewydd. Diolchodd y llywydd, Margaret Parry, i Meirwen Lloyd am drefnu'r noson. Anfonir cofion annwyl at Mrs Gwladys Jones, Dalar Deg wedi'i arhosiad yn yr ysbyty. Nid yw'n rhy ddiweddar eto i archebu tocynnau llyfrau Cymraeg ar gyfer y Nadolig a'r pris yw £5, ac mae cardiau Nadolig ar werth. Gofynnir yn garedig am y tocynnau raffl yn ôl erbyn y cyfarfod nesaf, sef Ionawr 12fed. Y wraig wadd yn y cyfarfod hwnnw fydd Bethan Evans, Gwanas gyda 'Dyddiadur Mewn Llun'. Croeso i aelodau newydd. Dymunir Nadolig llawen i chwi oll a blwyddyn lwyddiannus i'r gangen yn 1999.

CLYCHAU'R GRUG. Bu'r Parti yn canu carolau yng nghartref yr henoed Maesincla, Caernarfon, a chartref Cerrig-yr-afon, Y Felinheli, yn ddiweddar. Dymuna'r genod ddiolch i Glenys a Heulwen am eu gwaith diflino drwy 1998. Edrychir ymlaen am y cinio blynyddol ym mwyty Meifod ar Ionawr 8fed.

CYFARCHION. Mae'n ddrwg gan Mrs Gwladys Medwen Jones, Dalar Deg, na all anfon cardiau Nadolig eleni ond hoffai, trwy'r Eco, ddymuno Nadolig llawen i'r holl ddarllenwyr a diolch i bawb am eu caredigrwydd iddi tra bu yn yr ysbyty wedi'i damwain. Yn ffodus iawn ni thorrodd dim ond cafodd dôs iawn o anwyd ond mae hi bellach ar ei thraed ac wedi dod gartref. Diolch yn fawr i bawb a chofion cynnes.

GOLEUNI

A Duw a gafodd freuddwyd, —
'Mi a greaf blaned
o ddŵr a thân,
ac fe'i gosodaf yn y gwagle
i droi
ac i droi
am filiynau o flynyddoedd.

Hefyd, mi greaf anifail o ddyn
a'i osod ar degan o fyd,
ac fe'i temtiaf
i ddinistrio fy nghreadigaeth.'

A phan ferwodd y môr
yng nghynnwrf y dechreuad
fe grewyd y gamp.
Rhuodd terfysg yng nghrombil daear
gan falurio'r crystyn brau
a'i hyrddio fel gwaddod drwy eigion dyfroedd
i ymgaledu
yn haen
ar haen.

A bu tywyllwch.

Ond Duw a wenodd,
a bu goleuni.

Ac Efe a gymerodd y goleuni
a'i fowldio yn ei ddwylo
i wneud yr haul,
ac fe'i gosododd yn y nef
i g'nesu'r blaned,
ac i oleuo'r ffurfafen.
Yna fe daflodd y gweddill gwreichion
fel conffeti i'r entrychion,
a chafwyd lloer a sêr
i oleuo'r nos.

Ac un noson
ddwy fil o flynyddoedd yn ôl
ymddangosodd seren mwy disglair na'r cyffredin, —
fe'i dilynwyd gan ddoethion,
ymddangosodd angylion,
ac fe swatiodd y bugeiliaid mewn ofn
wrth wylio eu praidd.

A'r noson honno,
yn nyddiau Herod frenin,
— daeth GOLEUNI I'N BYD.

SELWYN GRIFFITH

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

DYMUNWN wellhad buan i Denis Jones, Rhos y Grug ar ôl llawdriniaeth ar ei ben-glin yn ddiweddar — brysia wella 'rhen goes!

POB HWYL i Siân, Rhos y Grug sy'n dilyn cwrs yn Lerpwl; ac i'w chwaer Llinos sy'n dilyn cwrs yng Ngholeg Menai, Bangor.

POB HWYL hefyd i Sharon, Gwynfryn sy'n dilyn cwrs ym Mhrifysgol Bangor.

TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: (01286) 872276

DIOLCH. Dymuna Julie ac Amlyn Llwyd Evans ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn eich cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn: C'fon: 675754
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

EMYR JONES
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon
673513
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth

ARFON A CARYS

SIOP CHIPS TEGFAN

Y Sgwâr

LLANRUG

676128

CYFARCHION Y TYMOR
A DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth

NEIL A STAFF

y Siop Sglodion

Pontrhythallt
Llanrug

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

Nadolig
Llawen a
Blwyddyn
Newydd dda
oddi wrth

BERYL A GWENDA

LLYTHYRDY
LLANRUG

Ffôn: C'fon 672422

Nadolig Llawen a
Blwyddyn
Newydd dda oddi
wrth bawb yng

NGHARTREF

Foelas

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: C'fon 674652

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Chris, Siân
a staff y

GLYNTWROG
LLANRUG

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso
cynnes yma
dros yr ŵyl

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

HUGH, SUE
A STAFF

TAFARN
PENBONT
LLANRUG

—::—

Lle braf a chwmni
difyr dros wyliau'r
Nadolig

GAREJ HAFOD

PEUGEOT

LLANRUG Ffôn: 673372

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
John Trevor
a'i deulu,
a'r holl staff

PEUGOT 306

SYFRDANOL! CYFFROUS!

Y CAR I'CH CLUDO I'R MILENIWM NEWYDD

'Un funud fach . . .'

MAE'N DDOLIG

Mae gan y Dolig ddawn i ddod â'r gorau mewn pobol i'r golwg. Byddwn yn cyfarch ein gilydd yn fwy annwyl yr adeg hon o'r flwyddyn. Rhown anrhegion i'n gilydd a chyfrannwn at wahanol elusennau.

Ond gall ddod â'r gwaethaf i'r golwg hefyd, fel y duedd i gwyno a gweld bai ar bawb a phopeth. Sawl gwaith glywsoch chi bobol yn siarad fel hyn eleni?:

'Be sy'n bod ar bobol heddiw?'

'Dydi'r Dolig ddim yr hyn oedd o ers talwm.'

'Mae gormod o wario o'r hanner.'

'Mae gormod o stŵr yn cael ei wneud o'r holl beth.'

'Does neb yn cofio gwir ystyr yr Ŵyl erbyn hyn.'

Mae'n hawdd i Gristnogion feirniadu pobl eraill am y ffordd y maent yn dathlu'r Nadolig. Mae'n hawdd gweld bai ar bobol am wneud hyn ac am beidio gwneud y llall. Llawer mwy buddiol eleni fyddai i ni edrych ar y ffordd y byddwn ni ein hunain yn dathlu'r Ŵyl.

Beth am geisio sicrhau ein bod yn dathlu'r *peth iawn* yn y *ffordd iawn.* Mae'n braf cael eich annog i ddathlu'r peth iawn wrth eich atgoffa am gariad Duw yn anfon Iesu Grist i'r byd yn Waredwr i ni. Ond ar wahân i'ch annog i addoli'r Iesu hwnnw, peidiwch disgwyl i mi na neb arall geisio llunio rheolau neu gyfarwyddiadau sut i wneud hynny.

Mae gofyn i ni weithio allan ein hunain sut y byddwn yn dathlu geni'r Gwaredwr. Fedrwn ni ddim deddfu sawl oedfa sydd ei hangen a phryd i'w cynnal. Fedrwn ni ddim deddfu faint ac ar beth y byddwn yn gwario ein harian. Ond sut bynnag byddwn ni'n dathlu eleni boed i bawb ohonom fwynhau llawenydd a thangnefedd yr Ŵyl ryfeddol hon.

JOHN PRITCHARD

DRAENOG

Aeth dyn a'i gar i Fangor i gael ffenast flaen newydd. Gadawodd y car wrth y gweithdy a mynd i'r dref i ladd amser tra byddai'r ffenast yn ca'l 'i gosod. Ymhen awr neu ddwy sylweddolodd bod goriadau'r car yn ei boced! Roedd y gweithwyr wedi methu agor y car a chan ei bod yn ddiwedd y pnawn bu'n rhaid iddo fynd a'r car adref a dychwelyd y bore wedyn i osod y ffenast. Petai'r gweithwyr wedi galw am help y frigâd dân i dynnu'r ffenast, does wybod pa brif swyddog fyddai wedi cael ei alw yno, nagoes?

Llythyr o'r America

Cambria
Wis

Anwyl frawd, Nov 4th 1884

Cymeraf hamdden unwaith yn rhagor i anfon gair attat, er mai disgwyl wrthyt ti yr ydwyf bob dydd. Ond gan fod genyf amser iw hebgor heno, ni wnaeth i mi oi gymryd i anfon ychydig o eiriau attat ti.

Gobeithiaf dy fod mewn cystal iechyd ag yr oeddyt yn fy hysbysu dy fod yn dy lythyr diweddaf, dylet gymeryd gofal neilltuol iawn yng nghorph y gauaf dyfodol yma. Peth hawdd iawn yw dioddef gormod o oerfel, ag i hyny droi yn ddrwg i iechyd. Byddaf fi fy hunan yn cymeryd gofal mawr iawn o honwyf fy hun rhag oeri dim. Y mae yn hawdd iawn cael anwyd yn y wlad hon pan y mae yr amser cynnes yn ein gadael, a'r tywydd oer yn dechreu dod i mewn. Ond yr ydwyf fi yn hynod o dda rhag un math o afiechyd. Nid wyf wedi colli yr un diwrnod o waith er pan wyf yn y wlad yma o achos un gradd o afiechyd. Bum ychydig yn wael yn amser y cynheuaf am tuag wythnos o amser, ond nid digon i 'fyw ar fy arian'. Dylwn fod yn ddiolchgar iawn am iechyd mor rhagorol, oni ddylwn. Y mae y rhan hon o'r wlad yn dda iawn oddiwrth heintiau a chlefydion. 'Llaw yr Arglwydd' yn dosturiol iawn wrth bawb yma. Rwy'n deall mae colli cyfeillion anwyl a hoff sydd yna o hyd. Nid oes braidd yr un Newyddiadur yn dod oddiyna, nad oes ynddo hanes marwolaeth rhai o'm cydnabod, yn Llanberis a'r amgylchoedd. Byddaf yn neidio i'r 'marwolaethau' yn gyntaf peth bob amser, ac yn eu darllen yn bur fanwl. Yr wyf yn anfon y 'Drychod' ac yn yi bostio yna i ti a'r un waith a'r llythyr hwn. Y mae ynddynt lawer iawn o newyddion pur interesting i chwi yna, yn enwedig hanes marwolaeth John W. Jones, Golygydd 'Y Drych'. Y mae yma redeg i eithafion mawr iawn mewn cysylltiad ai farwolaeth. Rhai yn ei dra-ddyrchafu mewn gwirionedd nad yw yn haeddu ond ychydig iawn. Cofiwch mai nid wrth y Drych y mae i chwi farnu character J. W. Jones. Na, yr hyn a ddywed y wlad am dano o'r teulu allan i'r Drych sydd wirionedd am dano ef. Yn y cyfan nid oes ond nifer o'i gyfeillion tua'r 'Drych Office', y rhai ni roddant ond yr ochr oleu ar y mater. Y gwirionedd meddai pawb am dano ydyw mae anffyddiwr ydoedd yn y gwraidd, er ei fod yn aelod gyda'r Annibynwyr.

Wel y mae heddyw yn ddiwrnod mawr yn America, sef diwrnod yr 'Etholiad Cyffredinol' y President. Yr oedd yma 5 yn ceisio am y swydd, sef Blaine, Cleveland, St. John, a dynes o California, ac un arall nad wyf yn gwybod ei enw. Blaine dros y Gwerinwyr, Cleveland dros y Democratiaid, St John dros y Dirwestwyr, a'r ddynes o California dros y 'Women's Rights'. Ac wrth gwrs nid oes ond un o honynt a gaiff y swydd, ac yn ol bob tebyg mai Blaine fydd y person hwnnw. Mae'n debyg y bydd yn syn genych glywed fod genyf vote yma, a hono yn gystal vote ag sydd gan yr un Landlor yng Nghymru, ac yr wyf mor falch o honi a'r un sydd yn y wlad, rwy'n sicr.

Cychwynais oddiyma i Votio i i Schoolhouse bychan rhyw 2 filldir oddiyma, ac ar ol myned yno cymerais afael mewn Republican Ticket, ac yn brintiedig arno yr oedd:

Blaine for President
Logan for Vice President

Plygais ef i fyny a rhoddais ef yn y Ballot Box a'm llaw fy hun, yna yr oedd y Chairman yn gofyn fy enw. Dywedais fy enw yn llawn wrtho, yna rhoes yntau fy enw ar goedd i'r Ysgrifennydd, yna troais tuag adref yng nghwmni 5 o ieuenctyd eraill, mor llawen a'r gog, heb neb unaith yn flaenorol ofyn am fy Vote, ac heb undyn byw edrych yn hyll arnaf wedi hyny. Nid oes yma ddim prynu Votes, dim ond disgwyl am adfywiad gell ar fasnaeth ar ol cael arglwydd newydd i eistedd yn y gadair Lywyddol, ond cofier mai danlywodraeth Llywydd uwch.

Ychydig iawn oedd y sel etholiadol oedd i'w gweled yn y rhan hon o'r wlad. Llawer llai nag oedd mewn gwirionedd. Dim terfu a rhedeg a gwaeddi mawr, fel oedd yna, na, pawb yn gweithio yn ddistaw, boneddigaidd, a pharchus o'i gilydd, ond etto yn sicr. Dyna fel y mae i fod, ond mae yn debyg ei bod yn wahanol yn y trefydd mawrion.

Y mae y gauaf wedi rhoddi rhybydd i ni ers tro ei fod wrth y drws, yr hin yn dechreu oeri, y coed yn bwrw eu dail, cawod o eira yn awr ac eilwaith, yr hwyaid a'r gwyddau gwylltion i'w gweled yn heidiaid yn myned o'r Gogledd i'r De, a lliaws o bethau aeraill yn tystio fod y gauaf wrth y drws. Nid yw y rhew wedi cloi y ddaear fel nas gellir aredig hyd yn hyn, ond nid oes ond hyny i'w ddisgwyl ymhen 2 neu 3 wythnos etto tua adeg ein 'cyfarfod Diolchgarwch'. Y mae llawer wedi dod adref o Dakota i lechu dros gauaf i ardal Cambria yma, ond nid oes yr un o blant y 'Llan' yma wedi dod etto. Y mae Betty a Jemima yn dod nos Iau nesaf, a Tom yn dod ymhen 3 wythnos ar eu holau. Yr oedd Tom wedi meddwl am osod neu werth ei ffarm yna etto, ond nis gallai wneud yr un or ddau, achos y mae prisiau y gwenith yn isel iawn yn Dakota eleni, a phawb ofn mentro yno.

Y mae pawb o'r teulu yn iach ar y Prairie yma, a phawb o honynt mor garedig a pharchus o honof ar dydd cyntaf y deuthym yma, os nad mwy felly.

Wel rhaid terfyn a hynny o ddiffyg nerth im cadw yn effro.

Terfyniaf gan gofio attoch fel teulu,
Ydwyf dy frawd Owen.

RHAGFYR

Rhu'r gaeafwynt dros y mynydd,
Gyda'r glaw a'r cenllysg bras,
Adeg cardod tlawd yr adar,
Dryw a Thitw Tomos Las;
Weithiau fe ddaw plu yr eira
Gyda'i fantell ddistaw, oer,
Rhew a barrug yn y cysgod,
Sgrech llwynogast dan y lloer.

Byr ac oer yw dyddiau Rhagfyr,
'Chydig iawn o olau dydd;
Ond mae pawb yn 'dal i gredu',
Peidied neb a cholli ffydd;
Mae'r Nadolig eto'n agos,
Amser geni Iesu Grist;
Mae rhyw neges yn y Geni,
Stori wych ond eto'n drist.

Mae 'na rai sy'n methu dathlu,
Wedi colli tad neu fam,
Eraill sydd yn llwgu 'nghanol
Byd sy'n llawn o boen a cham;
Ond mae'n rhaid i mi addoli
Y Goruchaf, Dduw yr Iôr;
Wedi'i eni yn y stabal,
Yn y gwair ar lawr y côr.

JOHN V. MORRIS, Rhianfa, Clwt-y-bont

Ysgol Brynrefail tua 1927-28

Y pedwerydd o'r dde yn y rhes gefn yw Edwin Lloyd Jones ac o'i flaen mae Dilys (Baylis) ei chwaer, a anfonodd y llun atom. Gwilym Jones oedd yr athro.

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
DENNIS ROBERTS
(Glyn Roberts a'i Fab)
DYNION GLO LLANRUG
Ffôn: 675043
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
G. EVANS
ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR
Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug
(01286) 678030

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth
JONES A PITTS
PEIRIANWYR MECANYDDOL
Arbenigwyr mewn pob math
o waith metel
GWAITH BRYN AFON
LLANRUG
Ffôn: 675523

Rydym yn creu'r parc
carafannau gorau
yn y wlad . . .
ac wedi canfod y lle
delfrydol i ddechrau
BRYNTEG
HOLIDAY HOME PARK
Llanrug Ffôn: 871374
Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb oddi wrth
y perchennog newydd
James McAllister a'r holl staff.
Edrychwn ymlaen at flwyddyn o
welliannau cyffrous

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth **Elaine, a staff**
Elaine's
LLANRUG, Ffôn: 672023

ORIAU AGOR	
Mawrth	9.00 - 7.00
Mercher	9.00 - 1.00
Iau	9.00 - 8.00
Gwener	9.00 - 8.00
Sadwrn	7.30 - 2.00

Dydd Mawrth a dydd
Mercher i bensiynwyr
Nos Fawrth i ddynion
Colurio ar gyfer
achlysuron arbennig

DYMUNA
GWYNFA A MARGARET
PRITCHARD
GWERTHWYR LLEFRITH
CEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263
NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn
Y CO-OP
LLANRUG
Ffôn: (01286) 672937
I gael bargen drwy'r flwyddyn ymunwch â'ch Co-op lleol — y siop yr ydych chi'n berchen arni
DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN 1998
DYMUNIADAU GORAU AM 1999

Gwledd i Ddod

Fel 'Mary Post' y caiff ei hadnabod yn Llanuwchllyn — ond ar lwyfannau mwya'r byd fel Mary Lloyd Davies yr adnabyddir hi. Dyma un o gantoresau gorau Cymru, ac ar **nos Wener, 12 Chwefror 1999** bydd yn un o westeion **Côr Meibion Peris** yn eu cyngerdd yn **Eglwys Sant Padarn, Llanberis.**

Fel rhagflas gellir gweld rhaglen ar S4C nos Calan yn olrhain hanes y gantores fydenwog hon. Yn rhannu llwyfan â hi yn yr Eglwys bydd un o gantorion mwyaf poblogaidd Cymru, Trebor Lloyd Evans a chyfeilydd mwyaf dawnus y genedl, Annette Bryn Parri. Un ohonom ni ydi Annette a cheir cyfle nid yn unig i'w chlywed yn cyfeilio ond hefyd yn rhoi datganiadau.

Gan fod hon yn fenter uchelgeisiol iawn — y fwyaf yn hanes y côr — rhagwelir y bydd gofyn mawr am docynnau. Gellir eu harchebu ymlaen llaw drwy gysylltu, mor fuan ag sydd modd, ag unrhyw aelod o'r côr. Cewch wybodaeth eto ym mha siopau y byddant ar werth. Pris y tocynnau fydd £3.50 a £3.00 i blant a phenisynwyr. Bargen os bu un erioed! Nid ymgyrch i wneud elw ydi hon ond gweithred o ddiolchgarwch ar ran y côr i drigolion y fro am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd, gan gynnig diddanwch a diwylliant o'r safon orau. Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Gorsaf Radio Newydd

John Roberts (un o hogia Deiniolen); Mrs Eira Davies, Rheolwraig Champion FM, a'r Aelod Seneddol, Dafydd Wigley, adeg lansio'r orsaf radio newydd, Champion 103FM, yn adeilad Mynydd Gwefru. Mae'r orsaf radio newydd yn darlledu o'r stiwdios newydd ym Mharc Menai i ogledd-orllewin Cymru.

Pwy 'sa'n meddwl y byddai gweithiwr yn un o siopau mawr Bangor yn camgymryd cwpwl priod o Ddinorwig am dad a merch. Fel hyn roedd hi: aeth y cwpwl i siopa ar ddydd *Mawrth* er manteisio ar ddisgownt i bensiynwyr ond pan ddaethant i dalu cawsant wybod mai dydd *Mercher* roedd y disgownt i'w gael.

'Dowch a'ch tad yn ôl fory,' meddai'r gweithiwr wrth y wraig.

Dyna ichi insylt — ANDRO-S o insylt i'r gŵr druan!

ANTUR WAUNFAWR

ANTUR WAUNFAWR

- gwasanaeth trin gerddi
- siop grefftau a chaffi
- Parc Natur a man chwarae
- gwasanaeth ailgylchu cymunedol
- gwaith coed a mân waith adeiladu

Dymuna pawb o Antur Waunfawr Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ac yn enwedig i'r rhai sydd wedi ein cefnogi yn ystod y flwyddyn

Ffôn: (01286) 650 721

Diolch i Christine Rose-Thomas, 11 Stryd Fawr, Llanberis am y llun a'r ymateb hwn: Wedi darllen yr erthygl am 'Charles Oscar Owen' yn y rhifyn diwethaf o'r Eco fe gofiais fod y llun hwn gen i ac y byddai o ddiddordeb i'r darllenwyr. Credaf fod mwyafrif aelodau'r côr wedi marw erbyn hyn ond mae'n bosib fod rhai o bobl Llanberis yn eu cofio. Llun ydyw o gôr plant Mr O. Jonah Owen, brawd Mr Charles Owen, a fu farw o'i glwyfau yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Dyma enwau'r plant sydd yn y llun — yn sefyll: Cassie, Annie May, Annie, Jennie, Mair, Dilys, L.C., Rosie, Teddy, David Jeffery, John Richard, Owen Kerry, John Idwal, Richard Jones, Maisie, Jonah Gilym, Willie Jones Henry. Yn eistedd: Huw Wheldon, Deliah, Annie Mary, Jane a Llywarch.

Newyddion Ysgol Brynrefail

Sgorio!

Fore Mawrth, 24 Tachwedd, roedd bechgyn Bl. 10 wedi cynhyrfu'n lân. Beth oedd achos yr holl gyffro? Ymweliad gan Amanda Protheroe Thomas, cyflwynydd y rhaglen deledu 'Sgorio!' Ar ôl gwylio fideo o'r rhaglen chwaraeon, cafwyd trafodaeth a chyfle i'r hogiau awyddus ofyn amryw o gwestiynau i'r seren S4C. Gorffennwyd yr ymweliad gyda chystadleuaeth a chyfle i ennill crys-T a pheli melyn 'Sgorio!' Enillwyd y crys-T gan Kathryn Pike a chafodd pawb neges bersonol wedi'i lofnodi. Ein neges ni y disgyblion i Amanda yw ei bod hi wedi sgorio gyda ni!

KIRSTY (Blwyddyn 10)

Parti'r *Daily Post*

Adroddiad Brys: Wrth i'r Eco fynd i'r wasg . . . nos Lun, 7 Rhagfyr, yng Nghlwb Paradocs, Caernarfon, cynhaliwyd parti bythgofiadwy i holl ddisgyblion yr ysgol. Cafwyd bwyd, gwobrau ac anrhegion ac, wrth gwrs, dawnsio! Manylion a lluniau o'r noson fawr yn y rhifyn nesaf . . .

Ymweliad yr Adran Saesneg

Ar 16 Hydref aeth 17 o fyfyrwyr o'r chweched dosbarth, dan arweiniad Mrs Yvonne Roberts, i berfformiad o farddoniaeth Carol Rumens fel rhan o Ŵyl Hydref Llandudno. Mae Carol Rumens yn fardd poblogaidd sy'n ysgrifennu yn Saesneg ac sydd wedi cyhoeddi nifer o lyfrau barddoniaeth dros y blynyddoedd. Mae ei gwaith yn rhan o faes llafur Saesneg lefel-uwch ar hyn o bryd, felly roedd y profiad yn un hanfodol i'r myfyrwyr.

Cawsom fwynhad mawr o'r profiad. Sgwrs gan y bardd a siaradai yn ddiddorol a bywiog gyda fflachiadau o hiwmor. Yr un broblem oedd, na chawsom ddigon! Byr braidd oedd y sgwrs yn enwedig am y cerddi rydym yn ei astudio.

SIÔN WYN PRITCHARD (Bl.13)

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

Ysgol Yrru Ofalus

★ Gwasanaeth 7 diwrnod
★ O ddrws i ddrws
★Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon, Llanrug
Ffôn: C'fon 675112

Cymeradwy gan yr Adran Drafnidiaeth

Nadolig Llawen a Blyddyn Newydd Dda i bawb

Simneau glân am bris rhesymol gan

G. LLOYD

4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG

Cyfarchion y tymor i chwi oll

Defnyddir peiriant sugno i lanhau

Ffôn: Caernarfon 674781

LINDA MORRIS
GWASANAETH TRIN GWALLT
YN EICH CARTREF
1 BRYN FEDWEN, FFORDD YR ORSAF
LLANRUG. Ffôn: 678857

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

CARTREF PRESWYL
LLYS EIDDON

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

oddi wrth breswylwyr a staff y cartref

Gŵyl Ddrama Blwyddyn 9

Rhai o'r plant fu'n perfformio yn yr Ŵyl Ddrama.

Nos Iau, Tachwedd 19, bu criw o ddosbarth drama 9SE yn perfformio yn Neuadd John Phillips, Prifysgol Bangor, mewn Gŵyl Ddrama i ysgolion. Trefnwyd yr ŵyl ar y cyd rhwng yr Adran Hybu Iechyd, Heddlu Gogledd Cymru a'r Brifysgol fel rhan o weithgaredd wythnos Atal Cyffuriau Ewropeaidd. Roedd y criw o ddeunaw wedi paratoi y cyflwyniad eu hunain ar y thema, alcohol. Daeth yr actores leol, Gwen Lasarus i'r ysgol at y criw i gynnal gweithdy ac o'r gweithdy hwnnw y blodeuodd eu drama.

Parti Gwenni: delio ag effaith alochol ar bobl ifanc oedd eu perfformiad a chafodd pob un fudd mawr o'r ŵyl a'r cyfleusterau ardderchog sydd yn y Neuadd.

Y cast oedd Nia Catrin Jones, Bethan Mackinon, Sarah Williams, Charlotte Bellis, Ben Boothroyd, Gemma Bourne, Siân Griffiths, Joe Hill, Carys Jones, John Paul Jones, Sioned Jones, Sarah Owen, Gwenno Thomas, Iwan Williams, Samantha Williams, Cefin Williams a Delyth Pritchard.

Ymweliad Cwmni'r Frân Wen

Unwaith eto cafwyd cyflwyniad gwreiddiol ac addysgiadol iawn gan y cwmni drama yma. Maent ar daith o gwmpas ysgolion yn cyflwyno drama fer wedi ei seilio ar gyffuriau. Roedd hyn ynghlwm â'r Ŵyl Ddrama y bu Bl. 9 yn rhan ohoni.

Gwelwn yn y llun grŵp o ddisgyblion Bl. 9 yn cymryd rhan mewn 'hot-seating' gyda'r actorion yn holi a stilio ynglŷn â phroblemau sy'n wynebu'r to ifanc.

Nadolig llawen a blwyddyn newydd lwyddiannus oddi wrth

GWESTY'R SEIONT MANOR
LLANRUG

Ffôn: 673366

Virgin
HOTEL
COLLECTION

MAE LLEOEDD YN DAL AR GAEL AR GYFER EIN CINIO A DAWNS I GROESAWU'R FLWYDDYN NEWYDD.

FFONIWCH AR UNWAITH!

Cwcs y Dyfodol

Bu dosbarth Arlwyo Blwyddyn 10 yn brysur iawn yn ystod y mis diwethaf yn gwneud cacennau Nadolig. Cafwyd nifer o addurniadau gwreiddiol arnynt a'r 'cwcs' yn mwynhau eu hunain yn fawr. Tybed ai rhain fydd arlwywyr y dyfodol?

Diwrnod Plant Mewn Angen

Ymdrech ardderchog gan y disgyblion a'r athrawon i gasglu £530.

Y disgyblion yn cael diwrnod di-wisg-ysgol a thalu am y fraint! Yr athrawon yn gwisgo gwisg ysgol neu dalu dirwy!

Gorchuddiwyd llun o Arth Pudsey gydag arian gan godi swm sylweddol iawn.

Bu'r athrawon yn diddanu'r plant gyda'u fersiwn hwy o'r 'Dancing Queen' gan Abba ac roedd pwb yn fwy na pharod i dalu am eu gweld a'u clywed. Yn ogystal roedd nifer fawr o weithgareddau unigol yn mynd ymlaen drwy'r dydd.

Diolch o galon i bawb am yr ymdrech i godi'r swm ariannol anrhydeddus.

Ymweliad gan yr RNIB

Dydd Mawrth, y chweched o Hydref, daeth Mr Ffrangcon Roberts yma i Ysgol Brynrefail. Daeth ar ran adran yr RNIB, sef y Royal National Institute for the Blind. Fe aethom oll fel dosbarth i'r neuadd lle roedd blaen y llwyfan wedi'i orchuddio â gwahanol fathau o declynnau sydd wedi eu gwneud yn arbennig ar gyfer plant a phobl ddall.

Yn gyntaf cawsom sgwrs ganddo ac fe soniodd sut deimlad yw bod yn ddall. Wrth wrando arno'n sgwrsio teimlem ni'r disgyblion ein bod yn lwcus ofnadwy i gael llygaid sy'n gweithio'n iawn a'n bod yn gallu gweld. Yna, gan wisgo sbectol arbennig, cawsom gyfle i roi menyn ar frechdan a thorri'r crystun o'i amgylch. Wedyn cyfle i roi dŵr mewn jwg ac yna'i dollti i gwpan gyda help synhwyrydd. Roedd y synhwyrydd yn cael ei osod ar ochr y gwpan ac yna pan oedd yn llawn roedd y synhwyrydd yn seinio i'ch rhybuddio. Cawsom hefyd gyfle i drio dweud faint o'r gloch oedd hi ar oriawr a chloc braille. Wedyn roedd yn rhaid i ni roi jig-so efo'i gilydd ac yna, yn rhyfeddol, rhaid oedd i bawb gerdded oddiamgylch y neuadd ar wahanol lwybrau gan ddefnyddio help y ffon wen. Cofiwch roedd yn rhaid inni wneud hyn oll heb ddefnyddio ein llygaid oherwydd roedd pawb yn gorfod gwisgo sbecol arbennig a oedd wedi'i duo o'r tu mewn a'r tu allan i'n rhwystro rhag gweld.

Roedd cwblhau'r gweithgareddau hyn yn anodd iawn ond cawsom lawer iawn o hwyl. Yna dywedodd Mr Ffrangcon Roberts bod bron iawn pob un ohonom yn mynd i un ai golli ein golwg neu fe fydd ein llygaid yn dirywio yn y dyfodol pan fyddem yn hŷn. Eglurodd hefyd fod geneth sydd ym mlwyddyn saith eleni yn ddal a'i henw yw Aletea. Mae Aletea yn deall braille yn iawn ac yn gwneud ei gwaith wrth ei ddefnddio. Gan ei bod yn mynychu'r ysgol hon mae'n bwysig i bob un ohonom ni'r disgyblion chwarae ein rhan gan gadw at y rheolau i gerdded ar y dde yn wastad a dim rhedeg ar hyd y coridorau i helpu rhywfaint arni.

Ar ôl sgwrsio am amser gyda Mr Ffrancon Roberts am wahanol bethau sydd o help i bobl a phlant dall, gwelsom fod yna binnau ffelt arbennig sy'n aiogli o wahanol ffrwythau, e.e., roedd pin ffelt felyn yn arogli o lemwn, un oren yn arogli fel oren ac un piws yn arogli o fwyar duon. Gâllwn fynd ymlaen ac ymlaen am y gwahanol declynnau sydd ar gael i fod o gymorth i'r deillion. Ar ddiwedd y wers gofynnodd Mrs L. Roberts, ein hathrawes, gwestiwn i bawb, 'Be ydan ni i gyd yn gallu 'i wneud ar ddiwedd y wers hon?' ac atebodd pawb, 'Rydym ni'n gallu tynnu'r sbectol dywyll i ffwrdd a mynd adref gan weld ein ffrindiau a'n teuluoedd'. Nid yw hyn yn bosib i bobl a phlant dall fel Aletea.

Roedd hyn yn wers a oedd yn llawer ow hwyl i'w gwneud a'i gweld ond yn ogystal roedd hi'n wers addysgol iawn i bob un ohonom.

HELEDD JONES, 8E

Cystadlu ym Mhont-y-pŵl

Teithiodd Eifion Williams o Lanrug i Bont-y-pŵl yn Nhachwedd i gystadlu yn yr WASA Nationals, Winter Championships. O dan 13 oed roedd o'n cystadlu a daeth gartref gyda chwe medal o wyth ras! Dau gyntaf, 50m a 100m dull rhydd; tri ail, 200m a 400m dull rhydd a'r 100m pili-pala; a thrydydd yn y ras 200m cymysg, unigol. Tipyn o gamp! A'i gam nesaf yw mynd gyda carfan gogledd Cymru i gystadlu yn Lerpwl ym mis Ionawr. Pob lwc iddo.

Newyddion Ysgol Brynrefail

Sgorio!

Fore Mawrth, 24 Tachwedd, roedd bechgyn Bl. 10 wedi cynhyrfu'n lân. Beth oedd achos yr holl gyffro? Ymweliad gan Amanda Protheroe Thomas, cyflwynydd y rhaglen deledu 'Sgorio!' Ar ôl gwylio fideo o'r rhaglen chwaraeon, cafwyd trafodaeth a chyfle i'r hogiau awyddus ofyn amryw o gwestiynau i'r seren S4C. Gorffennwyd yr ymweliad gyda chystadleuaeth a chyfle i ennill crys-T a pheli melyn 'Sgorio!' Enillwyd y crys-T gan Kathryn Pike a chafodd pawb neges bersonol wedi'i lofnodi. Ein neges ni y disgyblion i Amanda yw ei bod hi wedi sgorio gyda ni!

KIRSTY (Blwyddyn 10)

Parti'r *Daily Post*

Adroddiad Brys: Wrth i'r Eco fynd i'r wasg . . . nos Lun, 7 Rhagfyr, yng Nghlwb Paradocs, Caernarfon, cynhaliwyd parti bythgofiadwy i holl ddisgyblion yr ysgol. Cafwyd bwyd, gwobrau ac anrhegion ac, wrth gwrs, dawnsio! Manylion a lluniau o'r noson fawr yn y rhifyn nesaf . . .

Ymweliad yr Adran Saesneg

Ar 16 Hydref aeth 17 o fyfyrwyr o'r chweched dosbarth, dan arweiniad Mrs Yvonne Roberts, i berfformiad o farddoniaeth Carol Rumens fel rhan o Ŵyl Hydref Llandudno. Mae Carol Rumens yn fardd poblogaidd sy'n ysgrifennu yn Saesneg ac sydd wedi cyhoeddi nifer o lyfrau barddoniaeth dros y blynyddoedd. Mae ei gwaith yn rhan o faes llafur Saesneg lefel-uwch ar hyn o bryd, felly roedd y profiad yn un hanfodol i'r myfyrwyr.

Cawsom fwynhad mawr o'r profiad. Sgwrs gan y bardd a siaradai yn ddiddorol a bywiog gyda fflachiadau o hiwmor. Yr un broblem oedd, na chawsom ddigon! Byr braidd oedd y sgwrs yn enwedig am y cerddi rydym yn ei astudio.

SIÔN WYN PRITCHARD (Bl.13)

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

Ysgol Yrru Ofalus

★ Gwasanaeth 7 diwrnod
★ O ddrws i ddrws
★Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon, Llanrug
Ffôn: C'fon 675112

Cymeradwy gan yr Adran Drafnidiaeth

Nadolig Llawen a Blyddyn Newydd Dda i bawb

Simneau glân am bris rhesymol gan

G. LLOYD

4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG

Cyfarchion y tymor i chwi oll

Defnyddir peiriant sugno i lanhau

Ffôn: Caernarfon 674781

LINDA MORRIS

GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

1 BRYN FEDWEN, FFORDD YR ORSAF
LLANRUG. Ffôn: 678857

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

CARTREF PRESWYL

LLYS EIDDON

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

oddi wrth breswylwyr a staff y cartref

Gŵyl Ddrama Blwyddyn 9

Rhai o'r plant fu'n perfformio yn yr Ŵyl Ddrama.

Nos Iau, Tachwedd 19, bu criw o ddosbarth drama 9SE yn perfformio yn Neuadd John Phillips, Prifysgol Bangor, mewn Gŵyl Ddrama i ysgolion. Trefnwyd yr ŵyl ar y cyd rhwng yr Adran Hybu Iechyd, Heddlu Gogledd Cymru a'r Brifysgol fel rhan o weithgaredd wythnos Atal Cyffuriau Ewropeaidd. Roedd y criw o ddeunaw wedi paratoi y cyflwyniad eu hunain ar y thema, alcohol. Daeth yr actores leol, Gwen Lasarus i'r ysgol at y criw i gynnal gweithdy ac o'r gweithdy hwnnw y blodeuodd eu drama.

Parti Gwenni: delio ag effaith alochol ar bobl ifanc oedd eu perfformiad a chafodd pob un fudd mawr o'r ŵyl a'r cyfleusterau ardderchog sydd yn y Neuadd.

Y cast oedd Nia Catrin Jones, Bethan Mackinon, Sarah Williams, Charlotte Bellis, Ben Boothroyd, Gemma Bourne, Siân Griffiths, Joe Hill, Carys Jones, John Paul Jones, Sioned Jones, Sarah Owen, Gwenno Thomas, Iwan Williams, Samantha Williams, Cefin Williams a Delyth Pritchard.

Ymweliad Cwmni'r Frân Wen

Unwaith eto cafwyd cyflwyniad gwreiddiol ac addysgiadol iawn gan y cwmni drama yma. Maent ar daith o gwmpas ysgolion yn cyflwyno drama fer wedi ei seilio ar gyffuriau. Roedd hyn ynghlwm â'r Ŵyl Ddrama y bu Bl. 9 yn rhan ohoni.

Gwelwn yn y llun grŵp o ddisgyblion Bl. 9 yn cymryd rhan mewn 'hot-seating' gyda'r actorion yn holi a stilio ynglŷn â phroblemau sy'n wynebu'r to ifanc.

Nadolig llawen a blwyddyn newydd lwyddiannus oddi wrth

GWESTY'R SEIONT MANOR
LLANRUG

Ffôn: 673366

Virgin HOTEL COLLECTION

MAE LLEOEDD YN DAL AR GAEL AR GYFER EIN CINIO A DAWNS I GROESAWU'R FLWYDDYN NEWYDD.

FFONIWCH AR UNWAITH!

Cwcs y Dyfodol

Bu dosbarth Arlwyo Blwyddyn 10 yn brysur iawn yn ystod y mis diwethaf yn gwneud cacennau Nadolig. Cafwyd nifer o addurniadau gwreiddiol arnynt a'r 'cwcs' yn mwynhau eu hunain yn fawr. Tybed ai rhain fydd arlwywyr y dyfodol?

Diwrnod Plant Mewn Angen

Ymdrech ardderchog gan y disgyblion a'r athrawon i gasglu £530.

Y disgyblion yn cael diwrnod di-wisg-ysgol a thalu am y fraint! Yr athrawon yn gwisgo gwisg ysgol neu dalu dirwy!

Gorchuddiwyd llun o Arth Pudsey gydag arian gan godi swm sylweddol iawn.

Bu'r athrawon yn diddanu'r plant gyda'u fersiwn hwy o'r 'Dancing Queen' gan Abba ac roedd pwb yn fwy na pharod i dalu am eu gweld a'u clywed. Yn ogystal roedd nifer fawr o weithgareddau unigol yn mynd ymlaen drwy'r dydd.

Diolch o galon i bawb am yr ymdrech i godi'r swm ariannol anrhydeddus.

Ymweliad gan yr RNIB

Dydd Mawrth, y chweched o Hydref, daeth Mr Ffrangcon Roberts yma i Ysgol Brynrefail. Daeth ar ran adran yr RNIB, sef y Royal National Institute for the Blind. Fe aethom oll fel dosbarth i'r neuadd lle roedd blaen y llwyfan wedi'i orchuddio â gwahanol fathau o declynnau sydd wedi eu gwneud yn arbennig ar gyfer plant a phobl ddall.

Yn gyntaf cawsom sgwrs ganddo ac fe soniodd sut deimlad yw bod yn ddall. Wrth wrando arno'n sgwrsio teimlem ni'r disgyblion ein bod yn lwcus ofnadwy i gael llygaid sy'n gweithio'n iawn a'n bod yn gallu gweld. Yna, gan wisgo sbectol arbennig, cawsom gyfle i roi menyn ar frechdan a thorri'r crystun o'i amgylch. Wedyn cyfle i roi dŵr mewn jwg ac yna'i dollti i gwpan gyda help synhwyrydd. Roedd y synhwyrydd yn cael ei osod ar ochr y gwpan ac yna pan oedd yn llawn roedd y synhwyrydd yn seinio i'ch rhybuddio. Cawsom hefyd gyfle i drio dweud faint o'r gloch oedd hi ar oriawr a chloc braille. Wedyn roedd yn rhaid i ni roi jig-so efo'i gilydd ac yna, yn rhyfeddol, rhaid oedd i bawb gerdded oddiamgylch y neuadd ar wahanol lwybrau gan ddefnyddio help y ffon wen. Cofiwch roedd yn rhaid inni wneud hyn oll heb ddefnyddio ein llygaid oherwydd roedd pawb yn gorfod gwisgo sbecol arbennig a oedd wedi'i duo o'r tu mewn a'r tu allan i'n rhwystro rhag gweld.

Roedd cwblhau'r gweithgareddau hyn yn anodd iawn ond cawsom lawer iawn o hwyl. Yna dywedodd Mr Ffrangcon Roberts bod bron iawn pob un ohonom yn mynd i un ai golli ein golwg neu fe fydd ein llygaid yn dirywio yn y dyfodol pan fyddem yn hŷn. Eglurodd hefyd fod geneth sydd ym mlwyddyn saith eleni yn ddal a'i henw yw Aletea. Mae Aletea yn deall braille yn iawn ac yn gwneud ei gwaith wrth ei ddefnddio. Gan ei bod yn mynychu'r ysgol hon mae'n bwysig i bob un ohonom ni'r disgyblion chwarae ein rhan gan gadw at y rheolau i gerdded ar y dde yn wastad a dim rhedeg ar hyd y coridorau i helpu rhywfaint arni.

Ar ôl sgwrsio am amser gyda Mr Ffrancon Roberts am wahanol bethau sydd o help i bobl a phlant dall, gwelsom fod yna binnau ffelt arbennig sy'n aiogli o wahanol ffrwythau, e.e., roedd pin ffelt felyn yn arogli o lemwn, un oren yn arogli fel oren ac un piws yn arogli o fwyar duon. Gâllwn fynd ymlaen ac ymlaen am y gwahanol declynnau sydd ar gael i fod o gymorth i'r deillion. Ar ddiwedd y wers gofynnodd Mrs L. Roberts, ein hathrawes, gwestiwn i bawb, 'Be ydan ni i gyd yn gallu 'i wneud ar ddiwedd y wers hon?' ac atebodd pawb, 'Rydym ni'n gallu tynnu'r sbectol dywyll i ffwrdd a mynd adref gan weld ein ffrindiau a'n teuluoedd'. Nid yw hyn yn bosib i bobl a phlant dall fel Aletea.

Roedd hyn yn wers a oedd yn llawer ow hwyl i'w gwneud a'i gweld ond yn ogystal roedd hi'n wers addysgol iawn i bob un ohonom.

HELEDD JONES, 8E

Cystadlu ym Mhont-y-pŵl

Teithiodd Eifion Williams o Lanrug i Bont-y-pŵl yn Nhachwedd i gystadlu yn yr WASA Nationals, Winter Championships. O dan 13 oed roedd o'n cystadlu a daeth gartref gyda chwe medal o wyth ras! Dau gyntaf, 50m a 100m dull rhydd; tri ail, 200m a 400m dull rhydd a'r 100m pili-pala; a thrydydd yn y ras 200m cymysg, unigol. Tipyn o gamp! A'i gam nesaf yw mynd gyda carfan gogledd Cymru i gystadlu yn Lerpwl ym mis Ionawr. Pob lwc iddo.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

MARWOLAETH. Ar Dachwedd 25ain bu farw Mrs Hannah Jane Jones, 7 Trem Eilian yn 89 mlwydd oed. Chwith yw colli un o hynafiaid y pentref o'n plith, un a fu yn arbennig o glòs i'w theulu, un a gyfrannodd yn gymdeithasol i fywyd y pentref ac a fu'n aelod ffyddlon o Eglwys M.C. Brynrefail gydol ei hoes. Bu'r angladd preifat yn y cartref ddydd Llun, Tachwedd 30 ac yn dilyn yn gyhoeddus yn Amlosgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parchg John Pritchard, Llanberis.

Cydymdeimlwn yn ddwys a'i pherthnasau yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain a oedd mor annwyl ganddynt.

Dymuna'r teulu oll gydnabod yn ddiolchgar pob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswydd tuag atynt ac am y rhoddion er cof tuag at Ymchwil y Cancr.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Bu aelodau'r gangen yn dathlu'r Nadolig eleni gyda chinio ym Mwyty Meifod, Bontnewydd a threuliwyd noson bleserus iawn.

Bydd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd nos Lun, Ionawr 18fed pryd y disgwylir Jan Daniels, Mynydd Llandygai i roi sgwrs ar aromatherapi.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Roedd yn ofidus gan yr Eglwys ddeall am farwolaeth Mr Robert Elwyn Williams, Caergybi ar Ragfyr 4ydd. Roedd yn un o dri o feibion i'r diweddar Barchg a Mrs Robert Williams, Gweledfa. Mawr fu eu parch fel teulu yn yr Eglwys a'r ardal tra bu'r Parchg Robert Williams yn gweinidogaethu yma ym Mrynrefail o 1927 hyd 1942. Rhoddodd Elwyn Williams yntau wasanaeth clodwiw i'r Achos gydol ei oes a'i feibion yntau bellach yn hynod weithgar yn eu heglwysi ac yn amlwg yng ngweithgareddau'r Cyfundeb. Cydymdeimlir â'i weddw Mrs Peggy Williams a'i feibion Mr Robyn Williams yng Nghaergybi a'r Dr John Williams yn Lerpwl, a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Trefn y moddion yn ystod Ionawr 1999:

3: Cyfarfod Gweddi Dechrau Blwyddyn dan nawdd yr aelodau (5.30)
10: Mr Glyn Owen, Llanwnda (5.30)
17: Parchg Marcus Robinson, Bethel (5.30)
24: Parchg Glyn Tudwal Jones, Bangor (10)
31: Parchg H. Gareth Alban, Bae Colwyn (10)

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

D. P. OWENS
RHIWLAS
01248-361044

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
LLOGWCH FWS I'W DDATHLU'N DDIOGEL

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant yn rhoi gwerth eich arian.

Cartref a Chynnwys
Teithio • Car
Anifail Anwes
Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales) Enterprises Limited
Ffordd Santes Helen
Caernarfon
Gwynedd LL55 2YD
01286 678310

AGE Concern
INSURANCE SERVICES

All our profits support the work of Age Concern

NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

YSGOL FEITHRIN. Mae Mrs Catherine Williams yn ymddeol ddiwedd y tymor wedi 17 mlynedd o wasanaeth fel athrawes yn Ysgol Feithrin Llanberis. Bu 'Anti Catherine' yn fawr ei gofal am ddegau os nad cannoedd o blant, a bydd chwith mawr i bawb yn yr Ysgol Feithrin hebddi. Diolch iddi am ei gwaith a'i gofal am yr holl blant a fu gyda hi trwy'r blynyddoedd. Wrth ddymuno'r gorau iddi dymunwn yn dda hefyd i Delyth Tomos a fydd yn cymryd drosodd yr arweinyddiaeth ym mis Ionawr. Gwnaed elw o £150 er budd yr Ysgol Feithrin o'r noson a drefnwyd gan y Body Shop yng Ngwesty'r Dolbadarn ar Ragfyr 2. Diolch i Aneurin am ei groeso a'i gefnogaeth arferol, a diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r fenter.

COFION. Mae Mr Ted Anwyl, 2 Bro Glyder yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd a dymunwn wellhad buan iddo. Gobeithio bydd adref erbyn y Nadolig. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Beverley Anwyl o glywed am farwolaeth ei mam yn Llundain yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Melvyn Pritchard, Llys Awel ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a'r parti annisgwyl a gafodd i ddathlu ei ben-blwydd yn 60 oed. Diolch i'r teulu a'r ffrindiau am bopeth. Mae ei ŵyr, Jordan Sibley, Ceunant hefyd yn diolch i Bwyllgor Carnifal y pentref am yr anrheg a gafodd wedi iddo fod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

BRYSIWCH WELLA. Bu Mrs Nancy Williams, 1 Tan y Bryn yn yr ysbyty yn ddiweddar a dymunwn iddi wellhad buan. Yr un yw'r dymuniadau da i Mrs Hay, 3 Nant Ffynnon a gafod driniaeth i'w llygaid. Mae'r ddwy gartref erbyn hyn.

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Jill, 6 Bro Glyder ar ei phriodas yn ddiweddar. Dymuniadau gorau iddi a'i gŵr.

PARTI NADOLIG. Daeth y pentrefwyr ynghyd i Dy'n Llan nos Wener, Rhagfyr 4 i barti mawr a drefnwyd gan bwyllgor y carnifal. Cafwyd noson arbennig a braf oedd gweld pawb o bob oed yn ymuno â'i gilydd yn yr hwyl. Diolch i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith. Diolch yn arbennig i Richard a Llinos am eu croeso yn Nhy'n Llan ac am y bwyd ardderchog a baratowyd ganddynt. Daeth Siôn Corn heibio a diolch yn fawr i Sam Tân a'i gydweithwyr yng Ngorsaf Dân Llanberis am ddod ag ef yn ddiogel i'r Nant. Cafodd y plant a'r pensiynwyr anrheg ganddo.

Miss Selina Morris, yr hynaf o bobl y Nant, yn sgwrsio efo Siôn Corn ym mharti Nadolig y pentref.

NODAU'R NADOLIG. Bu'n rhaid aildrefnu'r noson garolau oedd i'w chynnal yn festri Rehoboth ar Ragfyr 10. Bydd yn cael ei chynnal am 7.30 o'r gloch, nos Wener, Rhagfyr 18, yng nghwmni Lleisiau Lliwedd.

CYNGHORYDD NEWYDD. Etholwyd Trefor Edwards (Ymgeisydd Annibynnol) yn Gynghorydd Sirol dros Lanberis a Nant Peris yn yr etholiad a gynhaliwyd ddydd Iau, Tachwedd 19. Llongyfarchiadau iddo a dymuniadau gorau ar gyfer y gwaith. Danny Roberts (Plaid Cymru) oedd yn ail; Gwyn Williams (Democratiaid Rhyddfrydol) yn drydydd a Keith Parry (Llafur) yn bedwerydd.

DIOLCH. Dymuna Trefor ddiolch i holl drigolion Nant Peris am eu cefnogaeth yn ystod yr ymgyrch etholiadol a'r holl bleidleisiau a dderbyniodd ar ddiwrnod yr etholiad. Diolch yn fawr iawn, a Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i chi gyd.

Jordan Sibley, plentyn 'fenga'r Nant yn cyfarfod â Siôn Corn.

ATODIAD EISTEDDFODAU 1998

Enillydd Cadair Eisteddfod Ysgol Brynrefail

Y Stafell Ddirgel

gan JENNIE LYN MORRIS

'Dacw mam yn . . . dŵad . . . ar ben y . . . gamfa . . . gamfa wen. Dwi'n credu 'y 'mod i wedi gwneud yn ddigon da am heddiw, nyrs.'

'O'r gora, Mr Jones, mi f'asa hi'n well i chi gael mymryn o gwsg neu mi fyddwch wedi ffwndro'n lân.'

Cydiodd y nyrs yn y cwrlid a'i rwymo, edrychai fel plentyn newydd-anedig wedi'i lapio'n dyn fel pelen fach gron.

* * * *

'Tyrd, Rhys bach, traed 'dani neu mi fyddi'n hwyr i'r ysgol.'

'O'r gora, Dad, dau funud, dwi 'di gadael fy llyfr darllen yn y llofft.'

'O, brysia!'

Carlamodd y coesau bach yn ôl i'r tŷ ac i fyny i'r llofft, cydiodd yn ei lyfr a rhedeg yn ôl nerth ei draed gan wybod y byddai pryd o dafod ei dad yn ei ddisgwyl yn y car. Clepiodd y drws, a sicrhaodd fod y gwregys diogelwch wedi'i gau, oherwydd gwyddai y byddai ei dad yn gyrru fel gafr ar darannau i gyrraedd yr ysgol mewn pryd.

Roedd hi'n fore gwlyb ac roedd y niwl yn flanced drwchus dros y pentref. Ffordd digon cul oedd honno i'r ysgol, yn nadreddu ei ffordd o ddrws y tŷ hyd at y fynedfa. Y bore hwn teimlai'r daith yn wahanol i'r arfer, ond ni feddyliodd Ifan ddim byd am y peth, dim ond mynd fel arfer.

'Iwan, wyt ti'n cofio'r hwiangerdd ti i fod i'w chanu yn y cyngerdd nos yfory?' gofynnodd Ifan i'w fab, a oedd yn eistedd yn y gadair babi ym mhen blaen y car.

'Yndw, Dad.'

'Wyt ti am ei chanu, dydi Rhys heb dy glywed ti eto, 'naddo, Rhys?'

'Naddo, Dad,' atebodd Rhys yr un mor ddi-serch ar y tywydd y bore yma.

'Un-dau-tri.'

'Dacw mam yn dŵad ar ben y gamfa wen, rhywbeth yn ei ffedog a phiser ar ei phen, y fuwch yn y beudy yn brefu am y llo, a'r llo'r ochr arall yn chwarae jim cro.'

'Da iawn chdi, yntê Rhys?'

'Ia, biti 'i fod o'n methu canu mewn tiwn!'

'Rhys, rho'r gorau iddi, cofia mai am dy frawd bach rwyt ti'n siarad. Dyna ti, reit i'r giât.'

'Diolch.'

'Hwyl!'

Ond ni atebodd, ond clepio'r drws ar ei ôl a cherdded â'i ben yn ei blu i'r ysgol. Ni wyddai ei dad beth i'w wneud ag o, roedd o wastad mewn tymer ddrwg. Dim ond ychydig o sylw oedd ei angen arno ac fe fyddai'n Rhys unwaith eto — roedd o fel cwpan mewn dŵr.

Canllath i lawr y lôn oedd galwad nesaf Ifan, sef yr Ysgol Feithrin. Cydiodd yn Iwan ac fe aeth y ddau i mewn i'r feithrinfa.

'Bore da, Mr Jones.'

'Bore da, Miss Lewis.'

'A sut mai Iwan heddiw?'

'Mae o'n dda iawn, diolch. Mae o wedi dysgu ei hwiangerdd ar gyfer nos 'fory.'

'Do? Da iawn, wyt ti am ei chanu hi er mwyn i Dad a finna gael ei chlywed hi?'

'Dacw Mam yn dŵad ar ben y gamfa wen, rhywbeth yn ei ffedog a phiser ar ei phen, y fuwch yn y beudy yn brefu ar y llo, a'r llo'r ochr aral yn chwarae jim cro.'

'Wel, da iawn chdi, Iwan, yntê Dad?'

'Ia, mae o'n well na'i frawd.'

'O, pam felly?'

'Rhys sydd 'chydig yn genfigennus o'r sylw mae Iwan yn ei gael.'

'Peidiwch â phoeni, mae'n naturiol iddo fod yn genfigennus.'

'Os dach chi'n deud. Hwyl fawr, Miss Lewis.'

'Hwyl fawr, Mr Jones.'

Cerddodd Ifan yn ôl i'r car ac ailgychwyn ei daith i'w waith. Trodd y radio ymlaen gan obeithio y byddai wedi dal y bwletin newyddion ar yr awr, ond roedd ychydig eiliadau yn rhy hwyr. Gyrrodd yn ofalus gan gymryd gofal wrth yrru o gwmpas y troeadau gan y gwyddai fod pob wedi mynd i yrru yn wallgof ar y ffordd. Roedd y niw yr un mor drwchus â phan gychwynnodd o'r tŷ y bore hwnnw. Byddai awr o daith arferol yn mynd i fod yn ddwy awr y bore yma.

Clywodd sŵn rhyfedd yn dod o injan y car ac fe ddaeth y car i stop. Aeth allan a chodi'r bonet i weld a allai ddarganfod y broblem, ond methodd.

Sylwodd bod ffôn ar ochr arall y ffordd a phenderfynodd groesi i ffonio am help. Edrychodd i'r dde ac i'r chwith, i'r dde ac i'r chwith eto a chroesodd, gan feddwl fod y ffordd yn hollol glir.

Clywodd sŵn dyrnu trwm yn dod yn agosach, ac yn agosach, edrychodd i'r chwith a sylwodd

ar olau yn treiddio trwy'r blanced o niwl trwchus. Rhewodd yng nghanol y lôn. Roedd ei goesau fel plwm ac roedd yn amhosibl iddo eu codi oddi ar y ffordd. Syllodd ar y disgleirdeb i grombil yr anghenfil oedd yn gyrru tuag ato. Clywai ei galon yn curo'n drwm, daeth chwys oer drosto a phinnau mân yn pigo pob rhan o'i gorff. Teimlodd rhywbeth fel llafn yn mynd i lawr asgwrn ei gefn ac ni allai symud. Roedd yr ofn wedi glynu ei draed yn gadarn i'r ddaear. Rhythodd. Chwysodd. Ni lwyddodd y gyrrwr i'w osgoi gan fod y ffordd yn rhy gul a'r niwl yn ei ddallu.

BANG!

* * * *

'Dacw mam . . . yn . . . dŵad . . . ar . . . ben y gamfa . . . gamfa . . . las . . . goch . . . wen. Pwy ydi'r plant a'r ddynes yn y llun? Pam nad ydwi yn ei 'nabod nhw? Dwi'n cydio yn y plentyn, beth ydi ei enw fo? Pwy di'r ddynes sy'n gafael yn fy llaw? Lle mae'r tŷ 'na? Dydw i erioed wedi bod yno. Naddo. Siawns gen i y buaswn i'n cofio fy nheulu a fy nhŷ? Dim yn fan'na dwi'n byw. Dwi'n byw mewn tŷ bach yn y goedwig ac mi rydw i a Wil drws nesa yn chwarae cowbois ac indians, yn dydan, Wil. Wil? . . . Wil . . . cowbois ac indians. Mi 'dan ni'n canu hefyd, canu "Dau Gi Bach" a "Jac y Do", a ma Mam yn gneud i mi ganu daw mam yn dŵad ar y ffordd i'r ysgol, ma hi'n gofyn, "Wyt ti am ganu dacw mam i mi?" ac mi fydda i'n ateb, "Yndw, Mam." Dacw mam yn dŵad . . . ar . . . ben . . . y . . . gamfa wen; ac mae Mam yn dweud, "Da iawn, Ifan, cofiad di ei chanu i Miss Wilias yn hogyn da, ac efallai y cei di seren aur am wneud. Ac os y cei di seren aur mi gei di aros allan am hanner awr yn fwy heno." Pwy 'di'r ddynes yn y llun? Pwy 'di'r babi sydd yn fy nghesail? Pwy sy'n byw . . .'

'. . . Ifan, ma'ch gwraig yma i'ch gweld.'

'Does gen i ddim gwraig, nyrs. Dwi'n rhy ifanc, dim ond saith a thri chwarter ydw i.'

'Ifan, mae Rhys ac Iwan yma hefyd.'

'Esgusodwch fi, Miss. Dydw i ddim yn 'ych nabod chi, a phwy ydi Rhys ac Iwan?'

Dechreuodd ei wraig wylo.

'Peidiwch â phoeni, mae'n siŵr o ddod at ei goed,' ceisiodd y nyrs ei chysuro.

'Gobeithio'n wir, oherwydd mae ei feddwl o fel rhyw stafell ddirgel i mi.'

'Dacw mam yn . . . dŵad . . . ar ben . . . y gamfa . . . wen. Pwy 'di'r ddynes yn y llun? Pwy 'di'r babi sy'n fy nghôl? Pam? Pam na alla i gofio? PAM? Rhywbeth . . . yn ei ffedog . . . a . . . a . . . phiser ar ei phen . . . Y fuwch yn y . . . beudy . . . yn brefu am y llo . . . a'r llo'r ochr arall yn . . . chwarae . . . chwarae . . . jim cro. Dwi'n credu bod hynna'n ddigon da am heddiw, nyrs.'

'O'r gora, Mr Jones.'

Cydiodd y nyrs yn y cwrlid a'i lapio'n gynnes fel pelen fach gron.

Huw Alun Foulkes a Bethan Vaughan Jones, enillwyr y mwyaf o farciau yng nghystadlaethau llwyfan Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

Enillydd Tlws yr Ifanc Eisteddfod Llanrug

Ifan Difeddwl

gan SIÔN EMYR WYNNE

Dechreuodd y bore hwn yr un peth â phob bore hyfryd — yr haul yn tywynnu a'r adar yn canu. Ond cafodd y freuddwyd felys honno ei chwalu'n deilchion gan ddyrnaid ar y drws.

'Ifan, wyt ti wedi codi?'

'Naddo!'

'Mam, dydy Ifan ddim wedi codi!'

Agorais y drws i weld Sara fy chwaer fach yn sefyll yno.

'Wyt ti wedi cofio cael presant pen-blwydd i Dad?'

Damia. Carlamais yn ôl i mewn i fy ystafell, gwisgo'n sydyn a brasgamu i lawr y grisiau.

'Brecwast, Ifan,' meddai Mam.

'Dim heddiw. Mae gen i fore prysur o fy mlaen,' ac i ffwrdd â fi.

Y cwestiwn oedd yn mynd trwy fy meddwl oedd be oeddwn i am gael i Dad a chyda beth yr oeddwn i'n mynd i'w brynu? Pan oeddwn mewn penbleth fel arfer roeddwn yn mynd i dŷ Mathew oherwydd fe fuasai ef yn gwybod beth i'w wneud.

'Helô, Anti Ann, ydy Mathew o gwmpas?'

'Disgwylia. Fe â i i chwilio amdano.'

Roedd y tŷ i'w weld yn flêr ac roedd hynny'n syndod oherwydd oredd yn un o briodweddau Anti Ann i gadw ei thŷ yn lân. O rhywle agorodd ffenest o do y tŷ ac yno roedd Mathew yn snwffian. Cymerodd anadl ddofn cyn siarad.

'Sori, ond fedra i ddim dod allan. Mae Taid wedi marw.'

'Mae'n ddrwg gen i glywed,' oedd fy unig ateb.

Nawr roeddwn i mewn cawl! Heb Mathew, heb ddim syniadau ac yn waeth na hynny doedd gen i ddim ffadan-beni. Roeddwn ar fin gwneud fy ffordd am adref pan feddyliais na fyddai Mam yn cydymdeimlo os nad oedd gen i bresant i Dad. Penderfynais gerdded adref ar hyd llwybr cyhoeddus y Plas er mwyn cael mwy o amser i feddwl. Daliodd y llygad ar rywbeth disglair a dechreuodd fy nghalon guro'n gyflymach. Estynnais fy llaw allan am y gwrthrych gan ei dynnu ataf.

Pwrs ydoedd!

Agorais y botwm!

Agorais y sip!

Edrychais i mewn iddo gan ddisgwyl gweld ffortiwn ond yr unig beth oedd ynddo oedd cwpwl o *vouchers 15p off Kitty Kat.* Wel, am siom! Meddyliais am hynny am amser wedyn ond fe gefais y syniad o fynd a'r pwrs i'r perchennog — efallai y cawn wobr. Agorais y pwrs ac edrych ar y 'pas bws' gan weld mai Mrs Jones, Graig Las, Ffordd y Gloch, Llanrhaeadr oedd y perchennog. Llanrhaeadr oedd y

pentref agosaf i Prion a chwarter awr a gymerai i mi fynd yno ar fy meic.

Ar ôl dau damaid o ginio es i nôl fy meic, a oedd yn llwch i gyd, o'r sied yng ngwaelod yr ardd. Roeddwn yn teimlo fel rasiwr yn pedlo fel y diawl i fyny ac i lawr y pontydd. Nid oeddwn yn gyfarwydd iawn â'r pentref. Yr unig wybodaeth oedd gennyf eu bod yn giamstar ar chwarae pêl-droed. Darllenais arwydd 'SHOP 200M'. Ar ben y bryn roedd y siop. Cerddais i mewn i weld dyn bychan pen moel yn sefyll y tu ôl i'r cownter. Roedd o fel brenin a'i freichiau wedi eu plethu. Cerdais tuag ato gan ofn dweud rhywbeth o'i le, ond ymlaciais pan siaradodd.

'Be alla i wneud i dy helpu di 'ngwas i?'

'Meddwl roeddwn i a allech chi fy nghyfeirio i i Stryd y Gloch?'

'O, ia, felly pwy wyt ti eisiau ei weld, oherwydd mae llawer wedi symud allan?'

'Mrs Jones, Graig Las.'

'O'r hen ledi. Ydi, mae hi'n dal yno, ond cofia ganu'r gloch fwy nag unwaith — mae hi'n drwm ei chlyw,' meddai'r siopwr.

'Diolch ichi am eich amser.'

'Croeso, tad.'

Wedi derbyn cyfarwyddiadau didrafferth iawn oedd darganfod y tŷ. Canais y gloch ddwy neu dair gwaith ac yn y man daeth cysgod yn nes ac yn nes at y drws.

'A beth allai wneud i ti?' gofynnodd mewn tôn grynedig.

'Wedi darganfod eich pwrs yn Prion ydw i,' meddwn i'n uchel.

'Wel, sut wnaeth o gyrraedd fan'no?'

'Wn i ddim. Dwi'n meddwl y buasai'n well os buaswn i'n mynd.'

'O, cyn i ti fynd disgwylia yn y fan yna am ychydig.'

Aeth i ymbalfalu yng nghypyrddau'r gegin a daeth drwodd gyda bag mawr o Licris Allstorts!

'Dyma chdi rwbath bach am dy onestrwydd.'

'Diolch yn fawr,' meddwn yn ddistaw. Roeddwn wedi meddwl cael arian gan yr hen wraig am ffeindio'r pwrs. Rŵan mi fyddai'n rhaid i Dad fodloni ar fag o fferins ar ei ben-blwydd.

Nid oedd gennyf y nerth na'r awydd i garlamu ar y beic felly ei wthio yr oeddwn yr holl ffordd adref. Y peth cyntaf a welais oedd fy chwaer yn crio chwerthin a Mam yn dod at y drws gan ddweud,

'Ffŵl Ebrill, Ifan! Wythnos i heddiw mae pen-blwydd Dad!'

Roeddwn wedi mynd yn wyllt y bore hwnnw a dyna'r peth gwirionaf a wnes i erioed.

EISTEDDFOD LLANRUG

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ddydd Gwener, 9 Hydref, yn Ysgol Brynrefail. Y beirniaid oedd Sioned Webb-Jones (Cerdd a Cherdd Dant); Zohrah Evans (Adrodd a Llên); Rhian Ellis Owen (Gosod Blodau, Coginio a Thecstiliau); Huw Roberts (Arlunio a Thri-dimensiwn; Islwyn Jones (Ffotograffiaeth) a Nia Lewis (Dawns). Y cyfeilydd oedd Mrs Megan Roberts. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr Eisteddfod mewn unrhyw fodd. Dyma restr y canlyniadau:

Unawd dosbarth derbyn: 1, Rhian; 2, Jamie; 3, Pawb arall. **Adrodd** dosbarth derbyn: 1, Gwenno; 2, Daniel; 3, Pawb arall. **Unawd** cyn oed ysgol: 1, Ffion Erin; 2, Ffion Wyn; 3, Elain a Rhys. **Adrodd** cyn oed ysgol: 1, Tomos Arfon; 2, Ffion Wyn; 3, Derfel. **Unawd** Bl. 1 a 2: (Cadair Lowri) 1, Gwion; 2, Alys; 3, Tracy. **Adrodd** Bl. 1 a 2: 1, Llywelyn; 2, Elin; 3, Alys. **Unawd** Bl. 3 a 4: 1, Ffion; 2, Mari; 3, Beverley a Lois. **Adrodd** Bl. 3 a 4: 1, Lois; 2, Declan; 3, Mari. **Unawd piano** Bl. 3 a 4: 1, Mari. **Unawd** Bl. 5 a 6: 1, Debbie; 2, Elin; 3, Emma. **Adrodd** Bl. 5 a 6: 1, a Chwpan am y perfformiad gorau yn y cystadlaethau adrodd, oedran cynradd: Megan; 2, Emma; 3, Heather a Tracy. **Parti Unsain** i blant oedran cynradd: 1, Y Gwrachod; 2, Parti Potes Maip. **Unawd ar unrhyw offeryn pres** oedran cynradd: 1, Aled. **Unawd piano** Bl. 5 a 6: 1, Llinos; 2, Heather; 3, Tracy. **Unawd ar unrhyw offeryn heblaw offeryn pres a phiano** i oedran cynradd: 1, a Chwpan am y perfformiad offerynnol gorau, oedran cynradd) Llinos; 2, Mari. **Parti Dawns Werin** oedran cynradd: 1, Parti Ceiliog; 2, Parti Aled; 3, Parti Bethan. **Cân Werin** oedran cynradd neu uwchradd: 1, a Chwpan am y perfformiad gorau yn y cystadlaethau canu, oedran cynradd, Debbie; 2, Emma. **Dawns fodern** i unigolyn neu grŵp: 1, Vertigo. **Cyflwyniad llafar digrif:** 1, Merched y Dre'; 2, Y Smyrffs. **Unawd** Bl. 7-11: 1, Natalie. **Unawd Piano** Bl. 7-11: 1, Siân; 2, Guto; 3, Rhian a Ceri. **Siarad Cyhoeddus:** Iwan. **Unawd ar unrhyw offeryn heblaw piano,** Bl. 7-11: 1, Donna; 2, Iwan; 3, Guto. **Unawd ar unrhyw offeryn** i oedran Bl. 12 a throsodd: 1, Frank Green.

CELF A CHREFFT. Gwnïo, Bl. 5 a 6: 1, Megan Jones; 2, Iwan Machno; 3, Ffion Haf Jones. **Agored:** 1 a 2: Eirianwen Whiteside Thomas; 3, Avril, Minffordd. **Gwau neu grosio,** ysgol gynradd: 1, Fiona Pitts. Ysgol uwchradd: 1, Mark Pitts. Agored: 1, Angela Roberts. **Coginio** Bl. 1 a 2: 1, Rhys M. Jones; 2, Gwyn Jones. Bl. 3 a 4: 1, Mari Deiniol; 2, Gerallt Bryn; 3, Aled Rhys Williams. Bl. 5 a 6: 1, Megan Jones; 2, Ffion Haf Jones; 3, Fiona Pitts. Bl. 7 ac 8: 1, Geraint Iwan; 2, Guto Rhun Wynne; 3, Mark Pitts a Rhian Jones. Bl. 9 a 10: 1, Dion Sion Owen; 2, Sion Emyr Wynne; 3, Iwan Rhys Williams. Agored (merched): 1, Lynda Wavell. Agored (dynion): 1, Wavell Roberts. Agored — jam: 1, Eirianwen Whiteside Thomas. Agored — chutney: 1 a 2: Eirianwen Whiteside Thomas. **Gosod Blodau** agored: 1, Beryl Thomas. **Tri Dimensiwn** cyn oedran ysgol a dosbarth derbyn: 1, Gwenno Angharad Gibbard; 2, Daniel Wyn Morris; 3, Sadiw Wyn Griffith. Bl. 1 a 2: 1, Efa Dyfan; 2, Llywelyn Williams; 3, Gwion Dafydd, Rhodri Williams, Llywelyn Williams a Tracy Wyn Griffith. Bl. 3 a 4: 1, Declan Jones a Ffion Angharad Williams; 2, Ceri Wyn Griffith; 3, Gerallt Bryn ac Aled Rhys Williams. Bl. 5 a 6: cydradd 1, Cai Dyfan a Llion Gethin; 2, Meilir Sion Owen; 3, Rhys Williams; 4, Fiona Pitts, Llinos Catrin a Megan Jones. Bl. 9-12: 1, Iwan Rhys Williams. **Arlunio** ysgol feithrin: 1, Sadie Wyn Griffith. Dosbarth Derbyn: 1, Gwenno Angharad Gibbard; 2, Daniel Wyn Morris a Rebecca Wynne. Bl. 1 a 2: 1, Gwion Dafydd; 2, Rhys M. Jones ac Elin Haf Williams; 3, Elliw Fflur. Bl. 3 a 4: 1, Alex Lynes; 2, Beverley Dawn Hughes a Dewi Meirion Jones; 3, Stacey Wynne, Ffion Angharad a Gwenno Jones. Bl. 5 a 6: 1, Iwan Machno; 2, Debbie Yvonne Hughes a Sion Derfel Jones; 3, Megan Jones a Fflur Angharad Gruffydd. Bl. 7 ac 8: 1, a Chwpan Emma Bamard, Geraint Iwan; 2, Laura Beard a Mark Pitts; 3, Rhian Jones. Bl. 9 a 10: 1 a 2: Gethin Jones. **Ffotograffiaeth agored:** 1, Gwenllian Angharad; 2, Dion Sion Owen.

LLENYDDIAETH. Rhyddiaith Bl. 3 a 4: 1, Ffion Angharad Williams; 2, Lowri Ann Hughes-Jones; 3, Ruth Mowle. Bl. 5 a 6: 1, Sofie Angharad Roberts; 2, Megan Jones; 3, Llinos Haf Hughes. Bl. 7: 1, Mark Pitts; 2, Daniel Jones; 3, Guto Rhun. Bl. 8 a 9: 1, Sion Emyr; 2, Iwan Rhys; 3, Geraint Iwan a Dona Griffiths. **Barddoniaeth** Bl. 3 a 4: 1, Declan Jones. Bl. 5 a 6: 1, Megan Jones; 2, Sofie Angharad Roberts; 3, Gwenllian Angharad. Bl. 7: 1, Mark Pitts; 2, Guto Rhun; 3, Daniel Jones. Bl. 8 a 9: 1, Geraint Iwan. Bl. 12 a 13: 1, Iona Williams; 2 a 3: Sian Pritchard. **Tlws yr Ifanc:** 1, Sion Emyr Wynne; 2, Mark Pitts. **Cadair yr Eisteddfod:** 1, Iona Williams; 2, Sian Pritchard. **Agored. Tair dihareb newydd:** 1, Rolant N. Wynne. **Erthygl addas ar gyfer Eco'r Wyddfa:** 1, Robert Williams, Llain Gwta, 5 Gwelfynydd. **Atgofion am y Rhyfel:** 1, G. M. Jones, Y Dalar Deg. **Llinell goll:** 1, Dyfan Roberts.



Dewi Griffiths, prif offerynnwr Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

EISTEDDFOD PENISARWAUN

CANU. Cyn oed ysgol a'r Uned Feithrin: 1, Glesni; 2, Catrin. Blwyddyn 0: 1, Kieran; 2, Siôn Dafydd; 3, Mark a Siôn Patrick. Blwyddyn 1 a 2: 1, Anest; 2, Elin; 3, Lois a Tal.Blwyddyn 3 a 4: 1, Elin; 2, Rebecca; 3, Gethin a Lois. Blwyddyn 5 a 6: 1, Bedwyr; 2, Osian; 3, Jason. Blwyddyn, 7, 8 a 9: 1, Heledd; 2, Mathew; 3, Cenin a Rhys. Blwyddyn 10-13: 1, Wena; 2, Erin. Cân Werin dan 12: 1, Lois; 2, Anest; 3, Llyr a Sarah. Deuawd agored: 1, Wena a Sioned; 2, Erin a Cenin. Parti Canu Babanod: 1, Parti Bryn; 2, Parti Anest. Parti Canu dan 12: 1, Parti'r Bechgyn; 2, Parti'r Genethod. Parti Deulais dan 18: 1, Parti Erin. Cân Ysgafn Pop dan 18: 1, Wena; 2, Lois; 3, Bewyr. Cân Ysgafn Pop dros 18: 1, Parti Carys. Unawd piano dan 12: 1, Lois a Sioned; 2, Anest; 3, Llyr. Unawd piano Bl. 7-13: 1, Erin; 2, Mathew a Sioned. Parti Canu oedolion: 1, Parti Cymysg; 2, Parti Merched.

UNRHYW DDAWNS UNIGOL. 1, Anest.

LLEFARU. Cyn oed ysgol a'r Uned Feithrin: 1, Glesni; 2, Catrin. Blwyddyn 0: 1, Siön Dafydd; 2, Carwyn; 3, Kieran. Blwyddyn 1 a 2: 1, Anest; 2, Guto a Leanne. Blwyddyn 3 a 4: 1, Iolo; 2, Lois; 3, Gethin a Lois. Blwyddyn 5 a 6: 1, Cadi; 2, Luke; 3, Sarah. Blwyddyn 7, 8 a 9: 1, Manon. Blwyddyn 10-13: 1, Sioned. Parti adrodd dan 12: 1, Parti Sarah. Parti adrodd oedolion: 1, Parti'r Merched. Meim i record Gymraeg (cynradd): 1, Sobin; 2, Eden a Bryn Fôn. Meim i record, Blwyddyn 7 ymlaen: 1, Heledd a Manon.

LLÊN. Rhyddiaith dosbarth babanod Bl. 0: 1, Sion Dafydd; 2, Nathan; 3, Aled a Hannah. Rhyddiaith babanod Bl. 1 a 2: 1, Andrew; 2, Anna a Robat; 3, Griff, Chris, Leanne a Gavin. Rhyddiaith Bl. 3 a 4: 1, Rhys; 2, Awen; 3, Elin. Rhyddiaith Bl. 5 a 6: 1, Cadi; 2, Nikki a Jess; 3, Sioned Alaw. Barddoniaeth Bl. 5 a 6: 1, Jess; 2, Mathew; 3, Cadi. Barddoniaeth Bl. 7, 8 a 9: 1, Manon. Rhyddiaith Bl. 7, 8 a 9: 1, Heledd. Rhyddiaith Bl. 10-13: 1, Sioned. Gorffen Limrig: 1, John Eifion a Dafydd; 2, Dafydd. Brawddeg o'r gair Penisarwaun: 1, Carys Williams. **Tarian yr Eisteddfod i'r Prif Lenor dan 12:** Catrin Glyn Roberts. **Cwpan yr Eisteddfod i'r Prif Lenor 12-18 oed:** Sioned Catrin Davies.

GWAITH LLAW. Cyn oed ysgol a'r Uned Feithrin: 1, Sion. Blwyddyn 0: 1, Sion Dafydd; 2, Kieran; 3, Carwyn Eddy. Blwyddyn 1 a 2: 1, Rebecca; 2, Tal; 3, Andrew. Blwyddyn 3 a 4: 1, Rebecca ac Awen; 2, Llyr Roberts a Llyr Alwyn; 3, Caryl. Blwyddyn 5 a 6: 1, Dylan Eddy; 2, Luke; 3, Sarah Woodcock. Oedolion: 1, Juding Harding; 2, Marian Griffiths; 3, Bethan Jones.

ARLUNIO. Cyn oed ysgol a'r Uned Feithrin: 1, Catrin Williams; 2, Katie Lewis; 3, Liam Morgan. Blwyddyn 0: 1, Hannah Smith; 2, Carwyn Eddy; 3, Sion Dafydd. Blwyddyn 1: 1, Elin Prysor Williams; 2, Rebecca Evans; 3, Lois Jones. Blwyddyn 2: 1, Andrew a Gruffydd; 2, Robat Jones; 3, Christopher Hamer. Blwyddyn 3 a 4: 1, Awen Jones; 2, Catrin Griffiths, 3, Rebecca Snowden. Blwyddyn 5 a 6: 1, Jess; 2, Melanie; 3, Jonathan.

COGINIO. Dan 8: 1, Anna; 2, Andrew; 3, Tal. Dan 12: Anest Eifion; 2, Sioned Alaw; 3, Bethan. Blwyddyn 7, 8 a 9: 1 Manon Glyn. Oedolion: 1, Eluned Jones; 2, Judith Harding.

FFOTOGRAFFIAETH. Dan 12: 1, Llyr Alwyn Hughes; 2, Jenny Hamer. Oedolion: 1, Marian Griffiths.

Enillydd Tlws Prif Lenor Ifanc Eisteddfod Penisarwaun

Yr Hen Aifft

gan CATRIN GLYN

Dyma stori amdanaf i a fy mhobl yn cael ein gorfodi i adeiladu beddrod i'r Ffaro, sef Tutankahmun. Mae o newydd gael ei goroni ac felly mae'n rhaid i ni ddechrau adeiladu ei feddrod cyn ei farwolaeth. Rolo ydi fy enw. Rwyf yn byw mewn tŷ wedi cael ei wneud allan o fwd, mewn pentref ar lan yr afon Nîl. Mae Ffaro yn mynnu ein bod yn llusgo cerrig anferth sydd yn pwyso pum deb tunnell dros bolion o bren. Mae cyflwr y gwaith yn arswydus o galed gyda'r dŵr yn brin i dorri syched a'r cyflog yn wael. Rwyf yn cael fy nhalu drwy fara a lliain. O, Mae hyn mor annheg. Yr haul poeth yn llosgi fy nghefn a phelydrau'r haul ar y tywod gwyn yn fy nallu.

Yn y pellter mae anhrefn a gweiddi. Fel roeddwn yn agosáu tuag at y dyrfa fe sylweddolais mai Te, fy ffrind oedd yn griddfan mewn poen. Roedd un o gerrig y pyramid wedi disgyn ar ei law. Doedd gan y meddyg ddim dewis ond torri ei law i ffwrdd.

* * *

(Naw mlynedd yn ddiweddarach)

Cardotyn yw Te bellach ers y drychineb, yn gorfod crafu am fwyd. Nid yw wedi cael bywyd hapus iawn. Ond yn fwy trist

byth, bydd ei fywyd yn dod i ben yn fuan. Oherwydd mae ein Ffaro Tutankahmun wedi marw ac mae Te wedi cael ei ddewis i fod yn un o weision y brenin yn yr ail fyd. Mae hyn yn golygu ei fod yn cael ei orfodi i gael ei gau i mewn yn y bedd a llwgu i farwolaeth. Ni wn sut i ymdopi heb fy ffrind gorau. Bydd y ffarwél olaf yn un anodd iawn.

Mae y meddyg wedi fy newis i i gynorthwyo i fwmeiddio corff Tutankahmun. Corff ifanc deunaw oed oedd gan Tutankahmun. I fwneidio'r corff fe dynais organnau'r corff i gyd allan a'u rhoi mewn jar canopic. Roeddwn yn gorfod glanhau y corff mewn Natron a'i rwymo mewn cadachau. Roeddwn yn helpu i beintio mwgwd ar gyfer y corff. Ar ôl hyn roedd y corff bellach yn fwmi.

Nawr mae'n rhaid ffarwelio â fy ffrind Te. Mae'n teimlo fel pebai ond ddoe roeddwn yn cyfarfod a Te yn disgyn bendramwnwgl i mewn i'r afon Nîl. Mae'n anodd iawn dod dros farwolaeth ein ffaro ond mae'n anoddach fyth dod dros golli Te. Yr unig gysur a gaf yw gwybod y caf ei weld eto yn yr ail fyd.

EISTEDDFOD GWAUN GYNFI

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi ddydd Sadwrn, 30 Hydref. Y beirniaid oedd Mr T. J. Williams, Llanrwst (Cerdd a Cherdd Dant); Mr Aled Lloyd Davies, Yr Wyddgrug (Llefaru a Llên); Mrs Pat Jones, Penisarwaun (Gwau, Gwnïo a Choginio) a Mr Gwilym Williams, Deiniolen (Arlunio, Gwaith Llaw a Ffotograffiaeth).

LLEFARU. Ysgol Feithrin: 1, Lois; 2, Sophie; 3, Ceri, Alicia a Gethin. Bl. 0: 1, Ffrion; 2, Owain Glyn; 3, Daniel. Bl. 1 a 2: 1, Laura; 2, Gwenno a Liam; 3, Arwyn, Daniel a Gavin. Bl. 3 a 4: 1, Caryl; 2, Bronwen. Bl. 5 a 6: 1, Kayleigh; 2, Donna; 3, Robert. Parti Adrodd dan 12: 1, Ysgol Gwaun Gynfi. Adrodd dan 16: 1, Manon; 2, Malan; 3, Medi. Adrodd 16-21: 1, Lyndsey; 2, Darryl; 3, Sioned. Darllen o'r Ysgrythur i ddysgwyr (agored): 1, Miss Moeller; 2, Stephanie. Adroddiad Digri (agored): Sioned Catrin. Parti Adrodd (agored): Parti Llangefni. Prif Adrodiad (agored): 1, Meira Turner; 2, Lyndsey.

LLÊN. Ysgol Feithrin: 1, Osian, Ceri, Dwynwen, Tudur a Joseff. Bl. 0: 1, Gwion, Ceirion, Owain Llŷr; 2, Jason, Ffion, Gruffudd, Dion. Bl. 1: 1, Gruffydd, Megan Jones, Richard Cashman, Daniel Ellis, Cadi Haf. Bl. 2: 1, Gwydion; 2, Buddug a Ffion Medi; 3, Iwan, Liam a Luke. Bl. 3: 1, Sioned; 2, Bronwen; 3, Caryl a Daniella. Bl. 4: 1, Gwenllian; 2, Gethin, Gwilym a Lois; 3, Paul, Ffion Jones. Bl. 5: 1, Kayleigh; 2, Manon, Emma, Nidian. Bl. 6: 1, Gregory; 2, John; 3, Tomos, Rachel. Rhyddiaith dan 16: Heledd Bryn Parri. Medal Lenyddol dan 21: Sioned Catrin Davies. Stori Fer (agored): 1, Graham Williams, Cwm Tawe; 2, Helen Hughes, Carmel. Parodi (agored): 1, Roy Davies, Llanelli. Telyneg (agored): Pennarth. Limrig (agored): Alwyn Jones, Racca. Llinell Goll (agored): Dilys Mai Roberts. Ysgrif 'Fy Milltir Sgwâr' (agored): 1, John Ll. Williams; 2, Margaret C. Griffiths. Cyfansoddi Emyn Sul yr Urdd (agored): Gareth V. Davies, Hen Golwyn. Creu Brawddeg (agored): Mair Jones, Caernarfon. Cystadleuaeth y Gadair (agored): Helen Hughes, Carmel.

CERDD. Ysgol Feithrin: 1, Sophie; 2, Lois, Ceri; 3, Lowri, Dylan. Bl. 0: 1, Ceirion; 2, Many, Owain Glyn; 3, Ffion. Bl. 1 a 2: 1, Ffion; 2, Manon; 3, Arwyn, Laura. Bl. 3 a 4: 1, Sioned; 2, Gwenllian; 3, Bronwen. Bl. 5 a 6: 1, Manon; 2, Rhian; 3, Emma. Unawd Offerynnol dan 12: 1, Emma; 2, Nidian a Gwenllian; 3, Rhian. Canu Emyn dan 12: 1, Manon; 2, Ffion; 3, Gwenllian. Unawd Piano dan 12: 1, Emma. Parti Canu dan 12: 1, Ysgol Gwaun Gynfi; 2, Morrisiaid. Unawd dan 16: 1, Manon; 2, Malan; 3, Elfed. Unawd Offerynnol dan 16: 1, Manon; 2, Arwel; 3, Urien a Malan. Deuawd dan 16: 1, Manon a Medi; 2, Elfed a Trystan. Unawd Cerdd Dant dan 21: 1, Lyndsey; 2, Elfed; 3, Darryl. Cân Werin dan 25: 1, Lyndsey; 2, Darryl. Unawd Piano dan 21: 1, Darryl; 2, Malan. Unawd 16-21: 1, Lyndsey; 2, Darryl. Canu Emyn Dôn dros 50: 1, Glenys; 2, Wmffra a Dilys Mai; 3, Mabon, Tecwyn a Robat John. Unawd Offerynnol (agored): 1, Jennie Lyn; 2, Urien Siôn. Cân Werin (agored): 1, Lyndsey; 2, Wmffra; 3, Mabon. Prif Unawd (agored): 1, Trefor; 2, Lyndsey a Clarence; 3, Wmffra a Mabon. Côr neu Barti (agored): Côr Waun. Cyfansoddi Tôn: 1, Goronwy Jones, Morfa Bychan.

CELF A CHREFFT: Arlunio. Ysgol Feithrin: 1, Daniel Lee a Tudur; 2, Hayley Janine a Ceri; 3, Gerwyn ac Elen. Bl. 0: 1, Dion; 2, Ceirion; 3, Rhys. Bl. 1: 1, Cadi Haf; 2, Richard; 3, Kelly Ann. Bl. 2: 1, Stephen Lee; 2, Gwydion; 3, Ashley. Bl. 3: 1, Caryl; 2, Gerallt Llywelyn; 3, Gruffydd. Bl. 4: 1, Simon; 2, Paul; 3, David. Bl. 5: 1, Kayleigh; 2, Nidian; 3, Christopher. Bl. 6: 1, Gregory; 2, Caroline; 3, Ben. Bl. 7-13: 1, Kelly Widowson; 2, Elfed Morris; 3, Stephanie Widowson. Agored: 1, Dafydd W. Jones; 2, Kelly Widowson. **Gwaith Llaw:** Ysgol Feithrin: 1, Hayley Janine a Gethin; 2, Jack Ynys a Tomos; 3, Hannah Gruff ac Alicia. Bl. 0, 1 a 2: 1, Owain Llŷr. Bl. 3, 4, 5 a 6: 1, Nidian Caffo; 2, Gethin James. **Gwau:** Ysgol Gwaun Gynfi: 1, Buddug, Kayleigh a Manon; 2, Sophia a Bronwen; 3, Louise, Caryl, Robert, Emma, Ffion a Manon. Agored: 1, Menna W. Jones; 2, Sheila Coldson; 3, Valmai P. Williams. **Gwnïo:** Ysgol Gwaun Gynfi: 1, Ffion Jones, Louise a Manon; 2, Kayleigh; 3, Manon Clarke. **Brodwaith:** 1, Helen M. Jones; 2, Helen M. Jones; 3, Sharokn James a Gwenlli Jones. **Tapestri:** 1, Tracey Jordan; 2, Gwenlli Jones. **Coginio.** Ysgol Gwaun Gynfi Bl. 0, 1 a 2: 1, Ffion Medi; 2, Manon Jones, Elin ac Owain Llŷr. Bl. 3, 4, 5 a 6: 1, Gwenllian a Sophia; 2, Manon a Kayleigh; 3, Louise a Nidian. Ysgol Uwchradd: 1, Jennie; 2, Stephanie; 3, Trystan, Alaw ac Urien. Marmaled (agored): Valmai P. Williams. Teisen Siocled Jonsi (agored): 1, Sharon James; 2, Nia Morris; 3, Mrs Widowson a Dee. Dynion yn unig: 1, Ieuan Morris; 2, Gwynfor James ac Ellis W. Williams; 3, Hefin G. Jones. **Gwaith Coed:** 1, Owain Gethin; 2, Malcolm Davies. **Ffotograffiaeth.** Ysgol Gwaun Gynfi: 1, Daniel Ellis; 2, Liam Joseph. Ysgol Uwchradd: 1, Urien Siôn; 2, Alaw mari; 3, Stephanie Widowson. Agored: 1, Valmai P. Williams; 2, Nicola Parry; 3, Kelly Widowson.

Tlws Teulu Ceris: Laura.

Tlws Crud-yr-awel: Kayleigh Jones.

Tlws Mr a Mrs John Peris Roberts: Manon Jones.

Cwpan er cof am Mr W. J. Eames (ymgais orau adran arlunio i flwyddyn 6 Ysgol Gwaun Gynfi): Gregory Cain.

Cwpan Mr a Mrs Hefin Williams: Manon Vaughan.

Cwpan Bryn Du: Menna W. Jones.

Cwpan Clwb Snwcer Deiniolen: Owain Gethin Williams.

Kayleigh, Laura, Manon a Gregory, enillwyr yn Eisteddfod Gwaun Gynfi.

EISTEDDFOD BETHEL

Trefnwyd noson o ddawnsio gwerin a disgo i gychwyn gweithgareddau'r Eisteddfod eleni. Arweinydd y noson oedd Glenys Griffiths a'r beirniaid oedd Olwen Green, Penmon (disgo) ac Aled Roberts, Caernarfon (gwerin).

Dydd Sadwrn, Tachwedd 7fed fe gynhaliwyd yr Eisteddfod. Roedd nifer fawr o blant wedi troi i mewn yn y pnawn i gystadlu a braf oedd gweld y neuadd yn orlawn. Gyda'r nos tro'r bobl ifanc oedd cystadlu ac unwaith eto cafwyd cefnogaeth frwd.

Y beirniaid oedd Mrs Mary Hughes, Groeslon (llefaru); Miss Nia Jones, Croesoswallt (cerdd); John Hywyn, Llandwrog (llên); a Non Huws, Llanfairpwll (celf a chrefft). Y cyfeilyddion oedd Glenys Griffiths a Deilwen Hughes. Arweinyddion y pnawn oedd Rita Williams ac Anita Owen ac yn yr hwyr Geraint Elis a Iorwerth Williams. Bu Gwenan Heledd, Enlli a Nora yn cynorthwyo ar y llwyfan yn y pnawn.

Yn ystod cyfarfod yr hwyr trefnwyd Gorsedd y Beirdd gan Adran yr Urdd o dan arweiniad Geraint Elis a Siân Harris. Eleri Robinson ganodd Cân y Cadeirio gyda Dewi Griffiths yn seinio'r Corn Gwlad. Ar derfyn yr Eisteddfod cyflwynwyd rhodd i Dewi fel gwerthfawrogiad o'i deyrngarwch ar hyd y blynyddoedd yn canu'r Corn Gwlad yn seremoni gwobrwyo'r ddau lenor. Dyma'r tro olaf i Dewi gymryd rhan yn y seremoni gan y bydd yn mynd i'r coleg ym mis Medi.

Eleni cyflwynwyd Tlws i'r buddugol yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus. Rhoddwyd y Tlws gan bwyllgor yr Eisteddfod er cof am Siân Robinson. Enillydd Gwobr Goffa Siân Robinson oedd Bethan Williams, disgybl Bl. 13 yn Ysgol Brynrefail. Cyflwynwyd y Tlws i Bethan gan Marcus Robinson ar ran y teulu.

Manon Williams, Yr Efail, o Bl. 6 yr Ysgol Gynradd enillodd Tlws Llên yr Ysgol Gynradd a Lois Wyn Hughes, Erddig, disgybl yn Ysgol Brynrefail, enillodd Tlws Llên yr Ysgol Uwchradd.

Dyma'r canlyniadau:

CERDD. Ysgol Feithrin: 1, Bethan; 2, Ffion; 3, Ffion Glesni. Bl. 0: 1, Geralt; 2, Elin Owen; 3, Manon a Gruffydd. Bl. 1 a 2: 1, Cai; 2, Ela a Danielle; 3, Siân a Robin. Bl. 3 a 4: 1, Ceri Griffith; 2, Marged a Siôn; 3, Aled Gwilym a Ceri. Bl. 5 a 6: 1, Ffion; 2, Berwyn; 3, Manon a Lowri; Bl. 7, 8 a 9: 1, Huw; 2, lois; 3, Ffion Williams. Alaw Werin Bl. 6 ac iau: 1, Ceri a Berwyn; 2, Cai; 3, Marged ac Elan. Bl. 7-13: 1, Lois; 2, Ffion Williams. Offeryn heblaw'r piano Bl. 6 ac iau: 1, Rhys; 2, Angharad; 3, Dewi Alun a Ffion. Bl. 7-13: 1, Gwion; 2, Ffion Williams; 3, Huw. Unawd piano Bl. 1, 2 a 3: 1, Elliw; 2, SWiôn; 3, Ela, Marged a Ceri. Bl. 4, 5 a 6: 1, Manon, 2, Ceri a Heulwen; 3, Sasha a Nia. Bl. 7, 8 a 9: 1, Huw; 2, Ffion Williams a Gwen. Bl. 10-13: 1, Ifan; 2, Rhian. Parti Bl. 1, 2 a 3: 1, Parti 888; 2, Parti'r Golau Glas; 3, Parti 999. Parti Bl. 4, 5 a 6: 1, Bwganod; 2, Gwrachod a Pump Dewin. Parti Uwchradd: 1, Animatos. Meimio i record Gymraeg: 1, Bethan a Llinos; 2, Dafydd Du a'r Ledis.

Tlysau: Cerdd / Lleisiol Cynradd — Cwpan Boss (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan Brian ac Eirlys Sharpe): Ceri Griffith. Tlws Cerdd / Lleisiol Uwchradd — Cwpan Goffa Mrs Joan Foulkes (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan deulu Llwyn Eithin): Huw Alun Foulkes — ŵyr y diweddar Mrs Joan Foulkes. Offerynnol, gan gynnwys piano, Cynradd — Tarian Goffa W. G. Ellis (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan Dafydd a Margaret Williams): Rhys Wyn Hughes. Uwchradd — Cwpan Goffa John M. Williams (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan Gwilym ac Eirlys Williams): Ifan Rowlands.

LLEFARU. Meithrin: 1, Bethan; 2, Ffion. Bl. 0: 1, Gerallt ac Elin; 2, Elin Mair ac Aled; 3, Manon. Bl. 1 a 2: 1, Siôn; 2, Dyfan; 3, Angharad. Bl. 3 a 4: 1, Ceri Griffiths ac Aled Gwilym; 2, Dewi a Ceri. Bl.. 5 a 6: 1, Heulwen; 2, Manon a Ffion; 3, Lowri. Bl. 7, 8 a 9: 1, Lois; 2, Ffion Meleri a Huw; 3, Ffion Williams. Ymgom Bl. 1-6: 1, Ffion a Manon; 2, Parti Ceri Griffith. Bl. 7-13: Ffion Meleri a Lois. Parti Bl. 1, 2 a 3: 1, Parti 888; 2, Smwt a Smot; 3, Parti 999. Bl. 4, 5 a 6: 1, Gofodwyr; 2, Y Bobl Bach Gwyrdd. Bl. 7, 8 a 9: 1, Catatonia. Llefaru Digri, Uwchradd: 1, Bethan Williams; 2, Ffion Meleri Owen. Sgets Bl. 7-13: 1, Cwmni'r Syrjeri. Agored: 1, Cwmni Pupur a Halen.

Tlysau: Llefaru Cynradd — Cwpan Arian (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan Arwel ac Iola Jones): Manon Williams. Uwchradd — Cwpan Konica (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan garedigion yr eisteddfod): Lois Wyn Hughes. Gwobr Goffa Siân Robinsonn (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan Gareth a Rhian Hughes): Bethan Williams.

LLÊN. Bl. 1: 1, Siân; 2, Dyfan; 3, Angharad. Bl. 2: 1, Robin Llwyd Jones; 2, Aled Rhys a Cai Llwyd Jones. Bl. 3: 1, Manon Morgan; 2, Iona Speake; 3, Lowri Jones. Bl. 4: Ceri Griffith; 2, Sasha Williams; 3, Siân Davies. Bl. 5: 1, Elan Rhys; 2, Heulwen Ostler; 3, Samantha North. Bl. 6: 1,Manon Williams; 2, Siôn Llŷr Roberts; 3, Ffion Thorman. Bl. 7, 8 a 9: 1, Lois Wyn Hughes; 2, Ffion Meleri Owen; 3, Ffion Williams a Huw Alun Foulkes. Bl. 10-13: 1, Sioned Catrin Davies; 2, Anest Williams a Llinos Mair Williams.

Tlysau: Tlws Merched y Wawr, er cof am Miss Maggie Owen a thlws bychan i'w gadw (rhoddedig gan Collwyn a Rita Williams): Manon Williams, Yr Efail. Tlws y Gymdeithas Lenyddol a thlws bychan i'w gadw (rhoddedig gan Wil a Nora Parry): Lois Wyn Hughes, Erddig. Brawddeg o'r gair 'Penrhosgarnedd': 1, Rita Williams; 2, Rhian Hughes a Maud Williams.

CELF A CHREFFT. Arlunio 2D. Cylch Meithrin: 1, Ffion; 2, Claire; 3, Fflur. Ysgol Feithrin: 1, Arwel; 2, Ilid; 3, Ffion. Bl. 0: 1, Manon Grail; 2, Aaron Gwyn; 3, Sarah. Bl. 1: 1, Louise; 2, Bethan; 3, Rebecca. Bl. 2: 1, Dafydd; 2, Charlotte; 3, Danielle. Bl. 3: 1, Zoe; 2, Ffion; 3, Hanna. Bl. 4: 1, Dewi Emrys; 2, Richard; 3, Sasha. Bl. 5: 1, Elan; 2, Heulwen; 3, Liam. Bl. 6: 1, Ffion; 2, Manon; 3, Kaylee a Sarah. Collage. Bl. 0, 1 a 2: 1, Robin; 2, Aaron; 3, Danile Bell a Gwilym. Bl. 3 a 4: 1, Sasha; 2, Marged; 3, Siôn. Bl. 5 a 6: 1, Kaylee; 2, Iola; 3, Elan. Bl. 7, 8 a 9: Ellen Foulkes. Arlunio 3D. Bl. 2 ac iau: 1, Louis; 2, Gwilym; 3, Daniel Bell. Bl. 3 a 4: 1, Marged; 2, Aled a Ceri; 3, Dewi Alun. Bl. 5 a 6: 1, Elan; 2, Ian. Ffotograffiaeth Bl. 3 a 4: 1, Marged; 2, Sasha; 3, Gwilym. Bl. 5 a 6: 1, Elan; 2, Rhys; 3, Elan. Bl. 7 8 a 9: 1, Ellen; 2, Ffion Williams; 3, Ffion Williams. Graffeg Cyfrifiadurol. Bl. 1-6: 1, Iona; 2, Elan; 3, Ceri. Pyped neu Degan Meddal Bl. 2 ac iau: 1, Greta. Bl. 3 a 4: 1, Zoe; 2, Marged; 3, Sasha ac Aled. Bl. 5 a 6: 1, Elan; 2, Ifan Bryn.

Tlysau: Cynradd (rhoddedig gan Rhys a Siân Harris): Elan Rhys. Uwchradd (rhoddedig gan Mrs Bessie Ellis): Ellen Foulkes.

DAWNSIO. Disgo unigol. Bl. 1-6: 1, Mared. Bl. 7-13: 1, Sarah a Manon. Dawnsio Pâr: 1, Sarah a Gethin. Parti Bl. 1-6: 1, Zebra; 2, Grŵp Ellen; 3, Saith Sêr a Phum Lleuad. **Gwerin** parti. Bl. 3 a 4: 1, Parti Hefin a Pharti Ceri. Bl. 5 a 6: Parti Berwyn a Rhys; 2, Jamie a Huw. **Tlws** teulu Cefn Ffrwd a thlws bychan (rhoddedig gan Mrs Ann Williams a Manon): Marged Rhys.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r plant a'r bobl ifanc am gystadlu ac i'r rhai a fu'n eu hyfforddi. Diolch i'r pentrefwyr am ddod i'w cefnogi. Diolch i Ysgol Brynrefail, Ysgol Gynradd Bethel, y Cylch Meithrin ac Adran yr Urdd am bob cyd-weithrediad. Diolch am bob rhodd ariannol gan aelodau'r pwyllgor, cyfeillion a busnesau lleol ac i'r rhai a drefnodd y raffl ac i bawb a atebodd ein cais am nwyddau at y gwobrau. Diolch i bawb a gyfrannodd i lwyddiant yr Eisteddfod.

Prif lenorion Eisteddfod Bethel.

Enillydd Tlws Llenor Disgybl Cynradd Eisteddfod Bethel

Eisteddfod yr Urdd

gan MANON WILLIAMS

Bore Sadwrn yr oedd hi'n ddiwrnod braf o haf. Roedd diwrnod o gystadlu yn yr Eisteddfod yn fy wynebu i a'm brawd bach Ifan. Bu bron i Mam fynd o'i cho pan glywodd fod fy mrawd bach, Ifan, ddim eisiau cystadlu yn yr Eisteddfod, swnian am bob dim, swnian ei fod eisiau gweld Jonsi a'r Criw, a rŵan yn swnian am nad oedd o eisiau mynd i'w gweld!

'Dwi ddim isio adrodd na llefaru, na mynd i weld Jonsi a'i radio wirion 92 i 105 FM!' meddai Ifan yn boen i gyd. Cafodd andros o gweir gan mam, ei llaw fel chwip yn ei daro. Roedd yn ei haeddu hefyd.

Cyrhaeddom Pwllheli yn fuan yn y bore ond doedd ein buan ddim byd tebyg i buan criw yr Eisteddfod, pob pabell i fyny a'r lle yn llawn o bobol, roedd yn debycach i ffair nac i Eisteddfod!

Cyn cyrraedd pabell Jonsi dywedodd Ifan, 'Celwydd oedd fy mod ddim eisiau mynd i weld Jonsi, rwyf wrth fy modd â Jonsi.'

Mae gan fy mrawd uwd o gelwyddau mewn stôr bob amser.

'Rwyf eisiau eich rhybuddio bod herwgipiwr o gwmpas maes yr Eisteddfod,' cyhoeddodd dyn mawr o'r llwyfan. Disgynnodd wyneb Mam i'w thraed pan glywodd y newyddion drwg. Aeth Ifan i fyny ar y llwyfan yn wên o glust i glust, a'r lle yn dawel fel y bedd. Roedd yn barod i adrodd. Mae pawb yn gweld Ifan fel 'Ifan 'Ma' ar Noson Lawen. Adroddodd y bennill yn wych, yna diflannodd i gefn y llwyfan, fel cath ar darannau. Aeth Mam i'w nôl o'r cefn ond cafodd ei dal gan y dynion teledu a Dafydd Du. Doedd dim golwg o Ifan yn y cefn.

'O, na, dwi ddim eisiau diwrnod o gerdded o gwmpas yr Eisteddfod yn chwilio am Ifan,' meddai Mam yn ddigalon.

Dywedodd Mam wrthyf am yr herwgipiwr. Meddyliais yn syth mai yr herwgipiwr oedd wedi'i gipio. O, na, er y pethau drwg yr wyf wedi eu dweud, doedd dim angen iddo fynd i ffwrdd chwaith. Wnâi byth ei weld eto, meddyliais. Roedd fy nghalon yn

Bethan Williams, enillydd Tarian Goffa Emma Barnard Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

berwi y tu mewn i mi a dychmygais beth oedd fy mrawd bach yn ei ddioddef. A oedd mewn caethiwed neu ddim ar y funud a'r eiliad yma? Roedd Mam a fi yn mynd drwy uffern wrth weld ar y newyddion hanes y plant a oedd wedi cael eu herwgipio, ac yna cael eu lladd. Pam fod pobl yn gallu bod mor greulon. Roedd llun y newyddion yn aros yn fy mhen, a Mam yn beichio crio wrth fy ochr. Roedd diwrnod o gystadlu wedi mynd yn drychineb ofnadwy i bawb o bobol yr Eisteddfod ac yn sicr i fy nheulu i.

Aethom am ginio bach i leddfu'r boen ond fyddai'r boen byth yn cael ei lleddfu, mi fyddai yna o hyd fwlch yn ein teulu ni o hyn ymlaen.

Wrth fynd yn nes at y tŷ bwyta roedd llawer o bobol wedi tyrru yng nghanol y ffordd. Aeth Mam a fi i weld beth oedd yn bod, ac yno, yng nghanol y bobol, pwy oedd yno ond yr hogyn delaf erioed! Ifan oedd yno yn sefyll yn edrych yn syth i gannwyll llygaid ei fam a rhedodd ati.

'Lle wyt ti wedi bod?' gofynnodd, ddim yn rhy flin.

Wedi mynd i guddio yr oedd o am ychydig o hwyl ar ôl clywed bod yna herwgipiwr ar y maes — y gwalch!

Jôc wedi mynd ychydig dros ben llestri oedd honno. Hen dderbyn drycin ydi fy mrawd — bob tro yn dod â storm ar ei ôl!

Enillydd Tlws Llenor Disgybl Uwchradd Eisteddfod Bethel

Y Gêm

gan LOIS WYN HUGHES

10 Tachwedd

Daeth pobl o Oxfam yma i'n gweld ni heddiw. Mi gawsom lond sach o ddillad newydd, wel, dim newydd, ond y peth agosa at hynny, medda Mam. 'Dylem fod yn ddiolchgar bod pobl yn cofio amdanom,' meddai hi.

Mae Dad wedi gorfod mynd i ffwrdd hefo'r dynion eraill. Mi aeth o ar gefn lori. Roeddent yn uchel eu cloch ac yn chwerthin. Dwi ddim yn gwybod pam ei fod o'n chwerthin. Mi glywais i fo a Mam yn sibrwd neithiwr a dwi'n siŵr bod y ddau yn crio.

Does 'na ddim bwyd yma ac mae'r dŵr yfed yn fudr. Dyna fo, mae'n rhaid i mi ddysgu gwneud y tro ar be sy gen i a pheidio meddwl am be ddyliwn ei gael. Wel, dyna mae Mam yn ei ddweud o hyd.

12 Tachwedd

Dwi ddim yn gwbod lle i ddechra. Un funud roeddwn i'n chwerthin hefo Mam, a'r funud nesa roedd y tŷ yn diasbedain a'r ffenestri'n deilchion. Doeddwn i ddim yn siŵr be oedd yn digwydd. Clywais sŵn ffrwydriadau. Cauais fy llygaid yn dyn a'u hagor unwaith eto. Dwi ddim yn gallu gweld oherwydd y llwch tew. Wela' i ddim golwg o Mam yn unman. Cauais fy llygaid a'u hagor eto. O! na! Mae'r rhyfel wedi cyrraedd ein pentref ni!

Teimlwn wedi blino'n lân. Yn araf fe aeth y sŵn taranau o'm clustiau ac fe glywais sŵn tristwch. Sŵn plant yn sgrechian, merched yn crio, cŵn yn udo a lleisiau gwan yn galw am gymorth. Teimlais freichiau yn fy nghodi a phopeth yn mynd yn aneglur.

13 Tachwedd

Dwi'n crio, dwi mor anhapus. Mae Mam wedi'i lladd ac ni wn ble mae 'nhad. Fedra i ddim credu'r peth. Sut allai hyn ddigwydd? Pam bod hyn yn digwydd? Pam fi? Be wnes i i haeddu hyn? Be dwi i fod i'w wneud rŵan? Byw ar fy mhen fy hun bach? Does gen i ddim cartref. Lle ga' i fyw? Lle ga' i fwyd? Cefais byliau gwallgof yn ystod y prynhawn. Gwaeddais dros bob man, 'MAM! DAD!' . . . ond chês i ddim ateb. Fedra i ddim dioddef mwy.

1 Rhagfyr

Dwi wedi methu â sgwennu ers dyddiau. Does dim ar ôl o'n pentref. Roedd y lle wedi'i chwalu. Wrth i mi adael, edrychais yn ôl dros fy ysgwydd. Roedd y tai heb ffenestri yn edrych fel penglogau yn sbio'n syn a choed fel esgyrn ar y llawr. Edrychai'r beddau ar ochr y bryn fel craith. Bu'n rhaid ffoi yn gyflym. Roedd rhai yn dweud bod y gelyn yn dod. Roedd ofn yn llygaid pawb a phawb yn mynd i'r un cyfeiriad a neb yn gwybod yn iawn lle i fynd. Roeddwn i'n teimlo yn unig er bod pawb yn glên. Doedd Mam ddim yno i afael yn fy llaw.

Bûm yn byw ar grystiau a bwyd wedi llwydo. Roedd fy nillad yn garpiau a fy 'sgidiau yn dod oddi wrth ei gilydd yn y mwd. Yn y diwedd fe aethom i wlad arall. Mae llawer o blant wedi dod hefo fi. Yn anffodus methodd Meri Ann, fy ffrind pennaf, â dod am ei bod yn rhy sâl. Wn i ddim be wna' i hebddi.

17 Rhagfyr

Erbyn hyn rwyf mewn hostel gyda nifer o blant eraill. Dwi i fod yn hapus am fy mod i'n ddiogel ac yn mwynhau cwmni'r plant eraill.

'Tyrd yn dy flaen, 'sa hi'n medru bod yn waeth,' fasa Mam wedi'i ddweud. Ond, fedra hi ddim. Does na ddim hwyl ar neb. Dwi'n lecio cofio'r hen bentref a'r teulu. Mae un ferch, Rosi Ann, wedi bod yma ers iddi gael ei geni. Mae hi wedi cartrefu yma. Fedra i ddim. Yr unig beth sydd o blaid y lle ydi bod Miss Oliver yn fy nysgu i ddarllen. Fedra i ddim darllen yn rhugl ond hen ddigon i ddarllen y flwydlen ar gyfer cinio bob dydd.

22 Rhagfyr

Mae'r Nadolig yn dod. Cafodd Ann, sydd yn rhannu stafell hefo fi, lythyr heddiw yn dweud ei bod yn cael mynd i fyw at ei nain yn Lloegr. Roedd hi wedi bod yn edrych ymlaen at ei gweld ers hydoedd gan mai unwaith yr oedd wedi'i gweld mewn deuddeg mlynedd. Sut le ydi Lloegr tybed?

Yr unig beth sydd gen i i edrych ymlaen ato yw cael un o'r bocsus bach yna eto. Tybed beth fydd ynddo eleni? Y llynedd cefais becyn o dda-da mint, llyfr nad oeddwn yn ei ddeall ac ychydig o gemau. Roedd yna fwclis wedi eu gwneud o gregyn hefyd. Roedd Mam yn meddwl eu bod yn hyfryd ond doeddwn i ddim mor siŵr. Nadolig llwm oedd hwnnw hefyd. Dwi'n cofio Mam yn fy neffro â'r geiriau, 'Tyrd i agor dy focs, mae'n fore Nadolig'. Eleni fydd . . . Wrth i mi grio mi deimlais un o'r gofalwyr yn cydio yn fy 'swyddau.

'Be sy'n dy boeni?' gofynnodd. Gofynnais y cwestiwn oedd wedi bod ar fy meddwl am hydoedd, 'Be ydi rhyfel?'

Doedd neb wedi esbonio i mi, felly gofynnais i'r ddynes sy'n edrych ar ein holau. Wyddoch chi beth ddywedodd hi? 'Gêm fy mechan i, hen gêm frwnt mae dynion yn ei chwarae. Ar ôl clywed ei hesboniad roeddwn i'n cytuno â hi.

25 Rhagfyr

'Dolig o'r diwedd. Mae'r bocs wedi cyrraedd a'i lond o dda-da, teganau a gemau. Roedd y bocsus wedi cyrraedd ar gefn lori yn cael ei gyrru gan filwyr, yn union yr un fath â'r lori yr aeth fy nhad i ffwrdd ynddi. Roedd 'na dipyn o stŵr wrth i'r bosus gael eu rhannu. Anghofiodd pawb am eu helbul am ychydig. Roedd 'na hwyl wrth i bawb agor ei focs. Roedd Rosi Ann wedi bod yn lwcus. Roedd hi wedi cael sebon pinc a sebon gwyn. Ond, dyna fo, mae gen i Gêm Nadroedd ac Ysgolion.

Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn mae'n anodd credu y pethau sydd wedi digwydd i mi. Wrth i mi chwarae nadroedd ac ysgolion gyda Rosi Ann mae 'na un peth yn dal i droi yn fy meddwl. Biti na hon fyddai'r unig gêm yn cael ei chwarae yn fy mywyd.

Rhai o gystadleuwyr ieuengaf Eisteddfod Bethel.

Parti canu dan 12 oed buddugol yn Eisteddfod Gwaun Gynfi.

Emma Lovell a enillodd wobrau cyntaf yn Eisteddfod Gwaun Gynfi.

Enillydd Tlws yr Ifanc Eisteddfod Brynrefail

Dianc

gan KATE BEARD

Mae heddiw'n ddiwrnod gwlyb, oer a dwl. A lle rydwi, medda chi, yn eistedd o flaen y tân gyda photel dŵr poeth a phaned o de. Wel, na, rydwi hanner ffordd i fyny'r Wyddfa, yn wlyb socian ac yn dilyn fy chwaer Laura, fy mrawd Siôn a Modryb Siwan! Dechreuodd y stori drist yma pan dywedodd Mam a Dad eu bod nhw angen 'brêc', sef penwythnos HEB Y PLANT! Ac i ffwrdd â nhw i fyny i'r Alban i gael penwythnos braf mewn gwesty sydd â dau bwll nofio, sauna a chawodydd braf, cynnes. A fan'ma rydw i, hanner ffordd i fyny'r Wyddfa! Tydi bywyd ddim yn deg.

Mae Modryb Siwan ag obsesiwn efo awyr iach, bwyd iach, dim teledu na cherddoriaeth a llawer o ymarfer corff. Mae hynny'n golygu penwythnos braf o fyw allan o'r tŷ bron! Dim 'sglodion na siocled na dim byd sy'n ddrwch i'ch iechyd. Chwarae gemau, a rhedeg yn y bore. Dim ond un diwrnod sydd wedi mynd heibio ond fedra i ddim dioddef llawer mwy o hyn.

'Tyrd, Elin! Ti bron iawn hanner milltir ar ein holau ni!' gwaeddodd Modryb Siwan.

'Iawn, dwi'n dod rŵan!' a rhedais atyn nhw i drio dal i fyny.

'Ar ôl i mi orffen efo ti mi fyddi di'n gallu rhedeg i fyny'r Wyddfa, rŵan, tyrd!' dywedodd Modryb Siwan.

Ar ôl i ni gyrraedd adref ro'n i'n gwybod be o'n i'n mynd i'w neud. Mae'n rhaid i mi ddianc, ond fel bo Modryb Siwan yn meddwl fy mod i yn nhŷ Gwen, ond go-wir nid yn fan'no fydda i. Dwi eisiau bod mor bell o'r tŷ yma ag y gallaf.

Codais y ffôn.

'Helô, ydi Gwen yna plîs?'

Ar ôl hyn roedd yn teimlo fel oriau cyn y daeth Gwen at y ffôn.

'Helô, Elin?'

'Plîs, plîs! Gwen mae'n rhaid i ti fy helpu i. Mae Modryb Siwan yn fy ngyrru i i fyny'r wal efo'i awyr iach a'i bwyd iach!'

'Rŵan, Elin, dechrau o'r dechrau. Be sy'n bod, a phwy ydi Modryb Siwan?'

'Tyd i'm cyfarfod yn y caffi mewn hanner awr ac mi wna i egluro popeth iti wedyn,' meddwn yn frysiog.

Ar ôl eistedd yn y caffi am oriau, fe ddaeth Gwen i mewn.

'Elin, be sy? Dwi wedi bod yn poeni ers i mi gael dy alwad ffôn.'

Eglurais bopeth i Gwen.'

'Mae'n iawn i Siôn a Laura, maen nhw'n mwynhau cerdded i fyny'r Wyddfa. A beth bynnag, mae Modryb Siwan yn hoffi plant bach.'

'Ond, beth fedra i neud?' gofynnodd Gwen.

'Mi gei di roi cynnig i mi ddod i aros yn dy dŷ di.'

'Ond, fedra i ddim, mae Mam a Dad yn mynd i ffwrdd. Dwi fod i fynd i dŷ Nain. Ond, gan ddweud hynny, dwi'm llawer o eisiau mynd chwaith. Dwi'n gwybod! Mi gei di ddweud wrth dy fodryb Siwan dy fod ti'n aros yn fy nhŷ i ac mi wnaf innau ddweud wrth fy rhieni i fy mod i'n aros yn dy dŷ di. Fe wnawn ni gyfarfod wrth yr orsaf drennau ac mi wna i egluro popeth yn fan'no.'

'Iawn. Mi wna i sgwennu llythyr oddi wrth dy rieni di a dweud ei fod o'n gofyn i mi aros yn dy dŷ di.'

Rhois y llythyr i Modryb Siwan. Darllenodd ef yn andros o araf. Daliais fy ngwynt a cheisiais gadw'n cŵl a difater. O'r diwedd cefais ganiatâd ganddi i fynd i dŷ Gwen!

Mi fedrwch ddychmygu'r sioc gefais i pan roddodd hi hanner canpunt i mi, gan ddweud,

'Dyna chi, i gael amser da os ydych chi'n mynd i rywle am y diwrnod.'

Y tu allan i'r orsaf drennau roedd Gwen yno'n disgwyl amdanaf.

'Wel, lle dan ni'n mynd, i dy dŷ di, ia?'

'Na, rydan ni'n mynd i Gaer.'

'Ble? Lle rydan ni'n mynd i gysgu? Be rydan ni'n mynd i'w fwyta?'

'Paid â gofyn cymaint o gwestiynau!'

Dilynais Gwen i brynu ticed. Roedd y siwrne yn un hir a diflas a phan gyrhaeddom ni Gaer roedd hi'n ddeg o'r gloch.

'Lle dan ni'n mynd i gysgu, 'ta, ateba di hwnna?' gofynnais.

'Yn y gwesty crand 'na yn fan'na.'

'Dim ond pum deg punt sydd gen i!'

'Dan ni'm yn mynd i dalu, nac 'dan! Dilyna di fi.'

Aethom o gwmpas yr adeilad i chwilio am ddrws cefn. Yn lwcus roedd na ddrws, ac fe ddilynais Gwen i mewn. Roedd y lle'n enfawr ac roedd yna risiau mawr aur yng nghanol yr ystafell.

Natalie Blanchard a Sarah Weir, enillwyr mwyaf o farciau yng nghystadlaethau celf a llên Eisteddfod yr Ysgol.

Aethom i fyny'r grisiau. Ar ôl cerdded coridor ar ôl coridor gan osgoi pob oedolyn ar y ffordd, daethom ar draws ystafell gyda'r arwydd: *'Repairs in process, do not enter'* arni.

'Grêt!' dywedodd Gwen, 'gawn ni gysgu yn fan'ma am heno.'

Ymhen awr roeddem ni wedi dadbacio, darganfod dillad glân i'r gwely yn un o'r cypyrddau ac wedi gwneud ein hunain yn eithaf cyfforddus. Yn sydyn daeth cnoc uchel ar y drws a bu bron i ni neidio allan o'n croen!

Atebais y drws i ddynes dal yn edrych arnaf drwy ei sbectol. Roedd ganddi lais crand a dywedodd,

'Helo, darling, is your mummy in?'

Fel roeddwn i'n cochi at fy nghlustiau ac yn trio meddwl beth i'w ddweud, daeth Gwen o'r tu ôl a pharablu llith o Gymraeg.

Diolch byth fe aeth hi i ffwrdd gan fwmblan rhywbeth dan ei gwynt.

Pasiodd y noson rywsut. Roeddem ni'n dwy yn ofnadwy o flinedig a chysgasom yn drwm tan y bore.

Deffrasom yn gynnar, roeddem ein dwy ar lwgu gan ein bod ni heb gael swper y noson cynt. Un peth oedd ar ein meddwl — bwyd!

Roedd arogl bacwn yn dod ar hyd y coridorau ac aethom ar ôl yr arogl. Roedd yr ystafell fwyta yn llawn pobl a byrddau. Roedd gweinyddion mewn siwtiau a thei-bo bach yn cerdded o gwmpas. Daeth un tenau efo mwstas atom a gofyn pa rif ystafell oeddem ni. Wnes i ddweud yr un cyntaf a ddaeth i'm meddwl, sef 16, a chroesi fy mysedd. Yn lwcus roedd y bwrdd yn wag. Ar ôl i ni lenwi ein boliau daeth y teulu oedd biau'r bwrdd i mewn. Yn lwcus roeddem wedi dod a'n bagiau i lawr ac roedd yn rhaid i ni redeg allan.

Cawsom amser difyr o gwmpas y siopau ac erbyn chwech o'r gloch roedd yn rhaid i ni fynd adref.

Roeddem ein dwy yn eistedd yn ein seddau yn disgwyl i'r trên gychwyn ac yn teimlo'n glyfar ond efo chydig o ryddhad ein bod ar ein ffordd adref.

Cychwynnodd y trên o'r orsaf ac aethom i chwilio am ddiod i'r bar. Fel y cyrhaeddom ni'r bar aeth fy ngwaed yn oer. Pwy oedd yno ond Mam a Dad! Roedd pawb yn sefyll efo'u cegau yn agored. Ni ddywedodd neb yr un gair am hir iawn.

Erbyn i ni gyrraedd Bangor roedd Mam a Dad wedi dod at eu coed. Yr unig beth oedd ar ôl oedd wynebu Modryb Siwan — ond stori arall ydi honno!

Rhai o gystadleuwyr Eisteddfod Bethel.

Enillydd Cadair Eisteddfod Llanrug

'Queen'

gan IONA WILLIAMS

Buasech yn taeru mai tair ar hugain ydi hi nid tair a phedwar ugain. Un o nythiad o dri ar ddeg oedd hi. Ia, fy nain yw hon, Mair Elizabeth Davies (neu Mary fel mae hi yn ei ddweud wrth bobl ddiarth). Dydy hi ddim yn gall fel nain pawb arall. Dydy hi ddim yn actio'n barchus a chyfrifol fel mae neiniau i fod i actio. Gwisgai dreiners a dangosai ei phen-gliniau.

Cafodd ei geni ym Mangor yn 1914 yn Ffordd Friars. Symudodd i Lerpwl am ychydig flynyddoedd a dyna lle ganwyd fy mam. Un plentyn arall sydd gan nain, Gwilym, sy'n byw yn yr un pentref a ni. Collodd nain ei gŵr ychydig flynyddoedd yn ôl ac ers hynny mae hi'n byw hefo ni. Dyna pryd rydych chi'n dod i adnabod person yn iawn, a'u harferion drwg a da nhw.

Ni fedrwch gael sgwrs gall â hi heb chwerthin. Ond pan mae hi'n flin, mae hi'n flin go iawn. Nid oes gair i gael allan ohoni yr amser hwnnw, pan fyddwn i neu fy mrawd yn cyrraedd adref yn oriau mân y bore, ond rydym yn gwerthfawrogi'r distawrwydd am ychydig ddiwrnodau.

Pan oedd hi'n fengach buodd hi yn y 'Waffs' yn Newcastle. Disgynnodd allan o falŵn o'r awyr a bu yn yr ysbyty am chwe mis. Collodd ei gwallt i gyd ond mi ddaeth drwyddo'n iawn. Y rheswm rydw i'n gwybod cymaint am hyn yw fy mod i'n cael y stori bob dydd fel esgus bod ei gwallt hi'n flêr. Dwi'n cwyno wrth i gael 'set' ond yr esgus ydy y gwnaiff ei gwallt hi ddod allan gan ei bod hi wedi 'cael dawmain gyda'r balŵn'!

Roedd hi'n berffaith pan oedd hi'n ifanc (medda hi). Roedd hi'n denau, yn ddel ac roedd yr hogiau i gyd ar ei hôl hi. Beth sydd wedi digwydd iddi hi rŵan? Rydw i'n cael fy atgoffa mai hi oedd y *'best actress'* ym Mangor ac mai hi oedd yn ennill y cystadlaethau canu i gyd yn yr ardal. (Dim ond hi oedd yn trio, mae'n siŵr!)

Nid ydy hi'n gallu cerdded yn dda iawn, felly pan rydym ni'n mynd i siopa mae'n rhaid i mi afael yn un braich iddi a mam yn gafael yn y fraich arall. Mae o'n straen i mi a mam tra mae hi'n cerdded yn y canol fel brenhines. Ei ffugenw hi ydy 'Queen' gan fod pawb yn gwneud pob dim drosti tra bo hi'n eistedd ar ei phen-ôl drwy'r dydd yn edrych ar y teledu. Yr unig beth mae hi eisiau ei weld ydy'r 'News'.

'Mae hi'n hanner dydd — tro'r sianel i BBC1.'

'Mae hi'n un o'r gloch — tro'r sianel i BBC1.' Fel yna mae hi drwy'r dydd. Mae hi'n dweud ein bod ni'n ddwl am ein bod ni eisiau gwylio 'Neighbours' a 'Home and Away'.

'Dydych chi'n dysgu dim byd wrth edrych ar y lol yna. Does ryfedd fod 'na ddim byd yn eich pennau chi, sothach ydy sebon.' Bryd hynny rwyf fi a fy mrawd yn diffodd y newyddion o ran sbeit a dweud ei fod o wedi gorffen. Diolch byth, mae hi'n ein coelio ni y rhan fwyaf o'r amser.

Pan rydym yn siopa, mae Mam a minnau yn prynu pethau ar y slei oherwydd wnaiff Nain ddim byd ond cwyno ein bod ni wedi gwario gormod ar ryw ddilledyn.

'Fuaswn i wedi cael tŷ am chwe swllt ers talwm.'

Beth bynnag ydy chwe swllt, dydy o ddim llawer, neu ni fuaswn yn ei glywed bob tro rwyf yn prynu rhywbeth newydd.

Fel nad yw Nain yn gweld beth rydym yn ei brynu rydym yn gorfod ei rhoi i eistedd yn rhywle a dweud fod gormod o waith cerdded iddi. Marks & Spencers ydy hoff siop fy mam ac yn gyfleus iawn mae darn o bren reit fawr o amgylch y ffenest. Felly, dyna lle bydd Nain yn eistedd am hanner awr yn busnesu ar bawb sy'n pasio. Byddwn ni'n cael ein temptio i fynd i siop arall a wedyn mynd i'w nôl hi, ond byddwn yn teimlo'n euog, felly mi brynon ni hufen iâ mewn corned iddi i'w chadw'n ddistaw, a'i rhoi i eistedd ar fainc o flaen siop Next. Mae o fel rhoi ratl i fabi, ond mae o'n ei chadw hi'n hapus!

Dannedd gosod sydd ganddi, a phan mae ganddi friwiau yn ei cheg rydym ni i gyd yn cael gwybod. Mae ei dannedd yn hongian allan o'i cheg hi a chan ei bod yn chwerthin ar yr un pryd mae gen i ofn i'w dannedd syrthio allan a minnau'n gorfod eu codi nhw. Does dim rhyfedd fod ganddi ddannedd gosod, dydy hi ddim yn gwneud dim ond bwyta Polo mints a fruit pastilles. Colli ei dannedd ar ôl 'syrthio allan o'r balŵn' wnaeth hi, medda hi! Mae'r dannedd wedi gwisgo cymaint fel nad oes llawer ohonyn nhw ar ôl i'w gweld. Dydy hynny ddim syndod gan eu bod nhw ganddi ers hanner can mlynedd.

Mae tua hanner can mlynedd wedi mynd heibio ers iddi weld rhai o'i brodyr. Gan fod rhai ohonynt yn byw ymhell i ffwrdd yn Llundain ac yn Peterborough dydy hi ddim yn eu gweld yn aml. Er i Mam a'i brawd, Gwilym, gynnig mynd â hi i'w gweld nhw, gwrthod a wna bob amser.

'Dim heddiw, mae 'nghefn i'n brifo.' 'Dim heddiw, mae gen i ormod o anwyd.' Esgus ar ôl esgus nes bod pawb yn blino cynnig.

Os nad ydym yn cynnig y gŵyn yw, 'Dwi yn y tŷ 'ma dydd ar ôl dydd a does neb eisiau mynd â fi allan.' Fedrwn ni ddim ennill.

Un gair da i ddisgrifio Nain yw 'hypoconcract'. Mae rhywbeth yn bod arni byth a beunydd. Dywed bob dydd ei bod yn mynd i weld y doctor ond dydy hi byth yn mynd. Nid aiff ar gyfyl ysbyty. Mae'n ei hatgoffa hi o fy nhaid, gan mai yn yr uned gofal dwys y bu farw. Unwaith y bu hi yn yr ysbyty ac roedd hi wedi ffwndro'n lân. Roedd y doctor wedi rhoi cyffuriau iddi i ladd y boen yn ei chefn. Syrthio wnaeth hi yn y tŷ ond yn yr ysbyty dwedai mai disgyn o ben to Woolworths a wnaeth hi wrth iddi drio dal lladron. Doeddwn i ddim yn coelio mai Nain oedd y ddynes hon a oedd yn mwydro. Doeddwn i ddim wedi arfer ei gweld hi'n wael fel yna, felly roedd o'n brofiad anghysurus.

Gall Nain fod yn anniolchgar o'r holl dendans a gaiff. Bydd Mam yn gwneud pob dim iddi, ond nid yw'n gweld y gwerth. Mae'n hi'n cael ei bwyd o'i blaen bob dydd, ei dillad wedi eu golchi a'u smwddio a'i hystafell wedi'i glanhau. Mi wnaiff bob amser ffeindio rhywbeth yn bod ar y bwyd — 'Does dim digon o halen yn y tatws.' 'Ti wedi rhoi gormod o refi ar y bwyd 'ma.'

Dwi'n teimlo fel dweud wrthi am beidio bod yn annifyr ac iddi wneud ei bwyd ei hun, ond mae Mam wedi fy rhybuddio i frathu fy nhafod a chau fy ngheg.

Bu Nain yn gweithio yn siop fy nhaid — 'y Sadlar Bach' ym Mangor am bedwar deg pump o flynyddoedd. Yn ôl a glywais byddai'r hwch wedi mynd drwy'r siop pebai y busnes yn dibynnu arni hi! Hoffai Nain fynd i siopa bob prynhawn gan adael Taid yn y siop ar ei ben ei hun. Byddai Nain wrth ei bodd yn crwydro gan fynd i siarad efo genod Woolworth, a rhoi bet ar geffyl bob hyn a hyn — heb i Taid wybod. Doedd hi byth yn rhoi pres mawr ar geffyl. Doedd dim llawer o bwynt rhoi bet gan mai pump neu ddeg ceiniog a fyddai'n ei roi ar bob ras. Beth bynnag, roedd hi'n mwynhau ei hun ac yn cael pleser wrth ei wneud. Byddai weithiau ond yn mynd yno i gael siarad efo'r dynion oedd yn gweithio yn y 'bwcis'. Ni wyddai Taid erioed ei bod hi'n rhoi arian ar geffylau.

Roedd pawb ym Mangor ers talwm yn adnabod Nain. 'Dipyn o gês' yn ôl pawb. Byddai bob amser yn prynu 'pick 'n mix' a'u rhannu â'r bobl a ddeuai i'r siop. Mae hi'n andros o ddynes ffeind. Byddai'n rhoi arian i bobl a fyddai'n casglu tuag at wahanol elusennau ar ochr y stryd. Dydy hi ddim yn hoffi gweld pob yn dioddef, fel y plant bach du sydd yn llwgu,

'Dwi am yrru pres i'r plant bach 'na. Dydyn ni ddim yn sylweddoli pa mor lwcus ydan ni,' meddai bob amser y gwêl hi nhw ar y teledu.

Gwendid Nain yw nad yw'n gwerthfawrogi'r pethau y mae pobl yn ei wneud iddi. Dydy hi ddim yn sylweddoli cymaint mae pobl eraill *yn ei wneud* drosti, ond bob tro y byddaf yn mynd i'r siop mae'n rhoi pres i mi — ond dydy pres ddim yn bopeth.

Mae hi'n ddynes garedig iawn ac efallai nad ydw i yn sylweddoli faint ydy ei oed hi weithiau pan fydd hi'n ffraeo efo ni.

'Sgwn i a fydda i cystal â hi pan fydda innau yn dair a phedwar ugain oed?

Rhai o gystadleuwyr Eisteddfod Bethel.

Stori Fuddugol Adran Ieuenctid Eisteddfod Llanberis

Nid Arna i Roedd y Bai

gan DAFYDD PRITCHARD

Roedd hi'n ddiwrnod braf a'r haul yn tywynnu gan ei gwneud yn drybeilig o boeth ac roedd Huw, Jack a Twm yn cerdded i lawr Stryd y Ffynnon. Newydd ddod yn ôl o'r ysgol roeddent ac yn mynd adref.

Roedd Jack yn dipyn bach hŷn na'r ddau arall ac yn meddwl ei hun yn reit fawr. Roedd o wedi cael diwrnod reit bleserus a dweud y lleiaf — wedi taflu dau blentyn i lawr dibyn serth yr ysgol ac yn bendramwnwgl i'r afon oer! Wedyn aeth i ddwyn pres cinio plant y flwyddyn gyntaf gan eu bygwth â'r un gosb os na fyddent yn cydweithredu'n heddychlon. A diolch i'w ymdrechion caled fe wnaeth elw digon rhesymol o bedair punt, naw deg tri ceiniog, a hynny ar ôl gwastraffu dros ddwy bunt ar y peiriant gamblo yn y caffi!

Roedd gan Huw ychydig o ofn Jack ac o ganlyniad roedd o'n actio fel gwas bach iddo gan wneud y gwaith oedd ddim digon budr iddo fo eu gwneud. A dweud y gwir, doedd gan Huw ddim digon o synnwyr cyffredin i wybod yn well.

Bachgen peniog, braidd yn ddistaw, oedd Twm ac yn aml yn cael ei alw'n *'swot'* neu'n *'teacher's pet'*, ond doedd dim ofn Jack arno fo o gwbl. Fel arfer roedd Twm yn cadw cryn bellter rhyngddo ef ei hun a Jack ond, gan mai dim ond ef, Jack a Huw oedd yn dod oddi ar y bws yn y safle hwnnw, man a man iddo gerdded adref gyda'r ddau.

Yn sydyn stopiodd Jack yn ei unfan.

'Shhh! Sbiwch ar y gath 'na,' sibrydodd Jack.

'Be amdani hi?' gofynodd Huw.

'Wel, sbia arni hi'n cysgu ar ben y *whili-bin* 'na,' meddai Jack yn slei.

Ar ben bin sbwriel yr ochr arall i'r wal roedd cath frech yn cysgu'n sownd.

'O, gad lonydd iddi hi. Cath Mrs Jones ydi hi ac fe fyddai Mrs Jones druan yn torri'i chalon tasa rhwbath yn digwydd iddi.'

'Pwy ydi'r "Mrs Jones" druan 'ma?' holodd Huw yn fusneslyd.

'O, dim ond rhyw hen groc sy'n byw y drws nesaf i Twm, yntê Twm *bach*?

'Ia, Jack,' meddai Twm yn flin. 'Ond paid a'i hambygio hi, na wnei di, *plîs*?'

'O, wna *i* ddim, dwi ddim yn meddwl! Beth bynnag wneith ychydig o gerrig ddim drwg iddi, na wnaiff, Huw . . .? Wel, Huw?' meddai Jack yr un mor slei.

'Na . . . Na wnaiff Jack,' atebodd Huw yn llipa gan ychwanegu'n ddistaw, 'Os ti'n deud!'

'Mi ydw i'n deud,' a chyda hynny fe gododd y garreg fwyaf o fewn golwg a'i thaflu â'i holl nerth at y gath, a chyda'r glec fwyaf fe'i trawodd yn galed ar ei chefn.

'Tyrd, Huw, tafla'r cerrig 'ma, a chdi hefyd, Twm. RŴAN! neu mi gei di hi fory yn yr ysgol!' bygythiodd Jack mewn llais blin a gwyllt.

Cododd Huw lond ei ddwylo o gerrig a dechreuodd bledu'r cerrig at y gath. Erbyn hynny roedd y gath yn rhedeg o gwmpas mewn panig llwyr a'r ddau fachgen yn dynn wrth ei chwt.

Roedd Twm wedi trio stopio'r ddau trwy ddweud fod y gath yn hen ac yn gloff, ond carreg yn ei foch a gafodd yntau gan Jack a oedd yn cael gormod o hwyl.

Erbyn hyn roedd Huw wedi dod i ddechrau mwynhau'r gêm ond, yn anffodus, doedd hi ddim i bara. Fe daflodd Jack lond llaw o gerrig mân ac fe darrodd un ohonynt y gath yn ei phen ac fe dorrodd Jack ei fys yn y fargen. Sgrialodd Jack adref nerth ei draed gyda Huw yn dynn wrth ei gwt yr un mor gyflym gan adael Twm yno gyda'r gath yn un swp wrth ei draed. Y funud honno daeth Mrs Jones allan o'r tŷ.

'Magi . . . Magi . . . tyrd at Mami . . . Magi . . . Ma . . . Oo! Magi, beth sydd wedi digwydd iti?'

Gwelodd y swp wrth flaenau traed Twm.

'Chdi sydd wedi gwneud hyn yntê?' meddai rhwng ei dagrau. 'Wel, mi fydd gan Cledwyn rhywbeth i'w ddweud am hyn ar ôl iddo ddod yn ôl o'r pwyllgor, yn saff iti.'

'Ond nid arna i roedd y bai,' protestiodd Twm. 'Nid fi wnaeth hyn o gwbwl!'

'O, naci wir?' meddai Mrs Jones yn drist iawn. 'Pwy, 'ta, y dyn anweledig?'

'Na, Huw Morgan a Ja . . .' triodd Twm ateb yn dorcalonnus.

'Trio rhoi'r bai ar rywun arall rŵan, ia? Nid yn unig rwyt ti'r fwrdrwr ond rwyt ti'n gelwyddgi sydd yn trio celu'r gwir oddi wrth hen wraig sydd yn dal i ddallt y dalltings. Mae'n siŵr mai rhyw hogia bach diniwed fasa byth yn meddwl am wneud drwg i neb ydi'r rhain, yntê?'

Bu ond y dim i Twm roi pwff bach o chwerthin wrth feddwl am y fath beth. Aeth y bregeth a'r galaru ymlaen ac ymlaen am beth amser gyda Mrs Jones yn hanner ffraeo a hanner crio.

Aeth Twm adref yn torri'i galon yn llwyr, ond er hyn fe lwyddodd i gadw pob deigryn poeth a fynnai losgi ei lygaid glas. A dweud y gwir, am y tro cyntaf yn ei fywyd roedd gwir ofn ar Twm. Roedd ei ymennydd i gyd yn ferw gwyllt o feddyliau poenus ac ofn llwyr. Roedd ei fol bron a thaflu cynnwys ei du mewn i gyd allan ac roedd o bron a thorri'i fol i gael dweud wrth ei rieni. Ond, er ei fod yn gwybod y byddai ei rieni yn ei gredu, feiddiai o ddim dweud wrthynt rhag ofn y câi stŵr am feiddio cadw cwmni i Jack a oedd wastad yn tywys rhywun ar berwyl drwg.

Yn yr ysgol y diwrnod canlynol cafodd bregeth arall gan Mr Ramsbotham, y prifathro, a hynny o flaen ei rieni oedd heb glywed gair am y digwyddiad, a chafodd gerdyn rhybudd.

'Mae'r peth yn gywilyddus! I feddwl fod plentyn o ysgol Llanbwnbwl Rhyd y Boncen Fach wedi gallu meddwl am wneud y ffasiwn beth. Mae'n drosedd ynddo'i hun, lladd cath fach ddiniwed am ddim rheswm yn y byd. Fe ddylet ti gael dy gloi mewn cell a thaflu'r unig allwedd i lawr y toiled!'

Yn nosbarth 9I roedd Jack yn teimlo'n reit blês a'i hun. Erbyn hyn roedd wedi gallu ychwanegu at ei restr o feiau ar gam yr oedd wedi eu llwytho ar ysgwyddau plant eraill. Ond ar y llaw arall yn nosbarth 8E roedd Huw yn teimlo'n swp sâl, doedd o ddim wedi bod yn teimlo'n dda iawn ers y digwyddiad erchyll. I wneud pethau'n waeth roedd Twm yn cael ei gadw ar ôl ysgol am fis cyfan ac wedi ei wahardd o'r timau chwaraeon am weddill y tymor. Roedd o wedi stopio siarad â'r ddau arall ac roedd o wedi cael enw drwg gan weddill yr ysgol.

Wythnos ar ôl wythnos doedd Huw ddim yn hoffi gweld Twm ar ei ben ei hun ond roedd Jack yn mwynhau pob munud o'i weld yn unig. Aeth bron i fis heibio a llawer wedi anghofio am y digwyddiad yn llwyr — a Jack yn eu plith — ond i Huw, digon oedd digon. Weithiau doedd o ddim hyd yn oed yn gallu cysgu'r nos. Felly, fe benderfynodd wneud rhywbeth mawr yn ei gylch.

Am y tro cyntaf ers y digwyddiad fe ddaeth Huw a Twm wyneb yn wyneb ar Stryd Fawr Llanbwnbwl Rhyd y Boncen Fach.

'Beth wyt ti isio?' holodd Twm yn ddiamynedd.

'Just isio deud sori, ac rwyf wedi deud wrth Mr Ramsbotham mai fi a Jack wnaeth y peth erchyll.

'Do? Wel, pam nad ydw i'n cael gwneud chwaraeon o unrhyw fath 'ta?' atebodd Twm yn flin iawn.

'Ol reit, 'ta, dydw i ddim wedi gwneud eto, ond mi wna i fory fan bellaf. Rwy'n addo,' meddai Huw yn swta.

'O, wnei di, os gweli'n dda,' erfyniodd Twm yn daer.

'Ydw, rwy'n addo dweud,' a gyda hynny aeth i mewn i'r swyddfa bost gyfagos.

Y noson honno edrychai Twm ymlaen i gael cymryd rhan yng ngweithgareddau chwaraeon yr ysgol. Am y tro cyntaf ers amser maith roedd y teimlad o ofn wedi mynd o'i feddwl. Y diwrnod canlynol fe gafodd gymryd rhan mewn chwaraeon. Roedd Huw wedi cadw at ei air ac wedi dweud mai ei fai o a Jack oedd y cwbwl, ac roedd enw Twm yn glir unwaith eto. Ond y prynhawn hwnnw, er mawr syndod i bawb, roedd Jack yn cymryd rhan yn yr ymarfer pêl-droed!

Ond, yn y bôn, doedd hi'n fawr o syndod i neb ei fod o'n cymryd rhan gan mai enw llawn Jack oedd Jack Cuthbert Ramsbotham!

EISTEDDFOD WAUNFAWR

Cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn ar 7fed o Dachwedd gydag Eisteddfod y Plant yn y prynhawn a'r oedolion yn yr hwyr a chafwyd cystadlu brwd. Y beirniaid oedd Mr Maldwyn Parry (Cerdd); Bethan Dobson (Llefaru); Ann Elfryn (Gwaith Llaw ac Arlunio. Y cyfeilydd oedd Catrin Lowri. Dyma'r canlyniadau:

CERDD. Ysgol Feithrin: Anya, Sioned, Carwyn. Dosbarth Derbyn: Cain, Dafydd, Leah, Elgan. Blwyddyn 1 a 2: Huw, Meleri, Dewi, Ilid. Blwyddyn 3 a 4: Elidyr, Angharad, Ffion. Blwyddyn 5 a 6: Nia, Caryl, Beth. Deuawd: Nia a Wenna, Arawn a Guto, Beth a Ceryl. Parti Canu: Patri'r Hogia, Parti'r Genod. Cân Werin: Guto. Cerdd Dant: Guto. Cân Actol oed Meithrin: Yr Ysgol Feithrin. Piano hyd at Blwyddyn 4: Siôn, Ffion, Angharad. Piano Blwyddyn 5 a 6: Dylan, Wenna, Caryl. Recordydd Blwyddyn 3 a 4: Rebecca, Angharad. Recordydd Blwyddyn 5 a 6: Guto, Lesley, Beth. Parti Recordydd: Parti'r Nos. Unawd Offeryn Chwyth: Nia Elin, Lesley, Mair, Wena, Rebecca. Unawd Llinnynol: Caryl, Beth. Parti Dawnsio Disgo: Parti Gemma a Pum Seren.

LLEFARU. Ysgol Feithrin: Sioned, Anya, Carwyn, Annest, Daniel. Dosbarth Derbyn: Gavin, Elgan, Leah, Cain, Dafydd. Blwyddyn 1 a 2: Huw, Siôn, Dewi, Ilid. Blwyddyn 3 a 4: Owain, Ffion, Elidyr. Blwyddyn 5 a 6: Pryderi, Beth, Gavin, Caryl. Parti Adrodd: Parti Guto, Parti Nia.

LLÊN. Blwyddyn 3: Olivia Taylor, Elidyr, Emma Nesfield, James, Jasmin. Blwyddyn 4: Hannah, Angharad, Arwel, Mererid. Blwyddyn 5: Caryl, Lesley, Beth, Carla, Arawn, Kelly. Blwyddyn 6: Pryderi, Nia Mair, Guto, Emma, Sarah, Charlotte. Sawl gair allan o 'ansbaradigaethus': Deion, Beth, Ceryl.

ARLUNIO. Ysgol Feithrin: Anest, Alun, Dafydd, Katie. Dosbarth Derbyn: Anya, Hannah, Rosie. Blwyddyn 0: Cain, Jessica, Mathew, Jasmin. Blwyddyn 1 a 2: Rachel, Huw, Morys. Blwyddyn 3: Amy, Olivia, Elissha, Elidyr. Blwyddyn 4: Gemma, Gethin, Aaron, Marc. Blwyddyn 5: Liam, Lesley, Iwan, Ellen. Blwyddyn 6: Pryderi, Dylan, Osian.

GWAITH LLAW. Blwyddyn 0: Tomos, Keeley, Sion, Mathew. Dosbarth Meithrin: Cai, Anya, Gareth Wyn. Blwyddyn 1 a 2: Sianni, Tammy, Morys, Elin. Blwyddyn 3: Olivia, Iwan, Emma, Olivia Ackers, Elidyr. Blwyddyn 4: Gemma, Angharad, Kerry. Blwyddyn 5: Caryl, Ellen, Jacob. Blwyddyn 6: trefor, Ela Wyn, Nia Mair, Dylan, Sarah.

Cynhaliwyd Eisteddfod ddiddorol iawn gyda'r nos gyda'r pentrefwyr wedi eu rhannu i dri thîm, sef Tîm y Post a Thîm Croesywaun. Bu cystadlu brwd — tan un o'r gloch y bore! — efo Tîm Croesywaun yn fuddugol gyda 235 o farciau a Thîm y Post efo 152 o farciau. Diolch yn fawr i'r ddau gapten, John Gwynedd (Tîm y Post) a Sioned Glyn (Tîm Croesywaun) am ymorol fod yna ddigon o gystadleuwyr ym mhob cystadleuaeth. Dyma'r canlyniadau:

CERDD. Unawd 11-15: Fiona. Unawd Offerynnol 1-15: Ieuan (sacsoffôn), Ieuan (piano), Esyllt a Jasmin (ffliwt). Cân Werin 11-15: Fiona. Unawd 15-19: Rhian. Unawd Offerynnol 15-19: Heledd (piano). Unawd dros 19: Eurwyn, Wmffra, Gwenda, Catrin, Gina. Unawd Offerynnol dros 19: Cartin, Iola, Wendy, Catrin, Gina. Deuawd: Gwenda ac Eurwyn, Gina a Catrin, Sioned a Catrin, John Gwynedd a Iola, Wmffra ac Eurig. Canu Emyn: Wmffra, Catrin, Gwenda. Cân Actol/Sgets: Tîm y Post, Tîm Croesywaun, Y Bechgyn. Cân Werin: Catrin, Wmffra, Gwenda, Eurig, Emyr, Iola, Eurwyn. Grŵp Pop: Croesywaun, Post, Y Bechgyn. Côr: Tîm y Post, Tîm Croesywaun.

LLEFARU. 11-15: Rhian. Dros 19: Grace Dawson, Olwen, Wmffra, Irene, Sioned, Margaret Owen. Côr Adrodd: Tîm y Post, Tîm Croesywaun (merched); Tîm y Post, Tîm Croesywaun (dynion).

LLINELL GOLL: Olwen Williams.

POSAU GEIRIAU: Glenys Jones, Rhian Ellis, Bethan Parry.

CEFNOGWCH EISTEDDFODAU 1999

CROESAIR IONAWR 1999



Gobeithiaf weld 3 ar draws yn llawn 14 i lawr; 15 i lawr efo 19 ar draws o'i chwmpas; 33 i lawr 36 ar draws; 1 i lawr a 38 ar draws a 6 i lawr i gyd ar fy mhlât cinio ddydd Nadolig.

ENW .....

CYFEIRIAD .....

..... CÔD POST .....

AR DRAWS

1. Tegan a elwir ar ôl yr Arlywydd Roosevelt (4)
3. O Ogledd America yn wreiddiol, er gwaethaf ei enw (5)
6. Bwriadu cau man gwasgaredig (6)
10. Eithafoedd gwallgofrwydd antur y fuwch heb ei thri chwarter olaf (8)
11. Syrthio a malurio (8)
12. Ymwneud â gwaith adeiladu wna Nora slei slei (8)
13. Un o aelodau'r corff (4)
15. Blasus (6)
16. Bachgen ysgol o'r Bala? (6)
17. Un gwirion ymhlith y llwyth etholedig (3)
18. Mae'n cario llwythi mewn trol o'r lwerddon (4)
19. Gradd Prifysgol i rai sy'n cyfarth? (5)
21. Un yn llithro mewn ffars wirion (4)
24. Gwefr (3)
25. Un annymunol yn rhoi'r ddeddf i lawr (6)
27. Cludydd mewn bwlb trydan (6)
29. Tyfiant braf? (4)
30. Chdi, Delia, wedi meddwi mae'n amlwg (8)
35. Pobl sy'n trwsio a harddu adeiladau (8)
36. Ceirios y wern (8)
37. Y llestr y rhoir 1 i lawr ynddi i goginio (6)
38. Y 33 i lawr brown sy'n rhoi blas ar y bwyd (5)
39. Medal am fod yn ddel? (4)

I LAWR

1. Cloron (5)
2. Rhai fel Dafydd Du a Dewi Llwyd (9)
4. Taro yn ôl mewn pennod o 'Tafod a Hwyl' (5)
5. Heb eto fod yn ddyn (7)
6. Ysgewyll o wlad Belg? (8)
7. Dyna ydi hwn! (4)
8. Mae pawb yn cytuno mewn un olygfa (4)
9. Bwndeli (6)
14. Bydd y 3 ar draws yn llawn o hwn (6)
15. Cynhwysiad y ci poeth (6)
16. Adeiladwaith a thro ynddo (3)
20. Gŵr Ffion (3)
22. Gall nifer da o leisiau, heb eisiau, fod yn ddi-ddiwedd (9)
23. Arwres liwgar y nofel gan W. D. Owen (5,3)
26. Lluosog (7)
28. Callaf ei thafod byrlymus heb ddechrau igian (6)
31. Mae pawb yn hŷn na'r rhai sy'n colli eu afiaith (5)
32. Megis Bangor neu Gaerdydd (5)
33. Allan o risàit o eiddo cogyddes Awstralaidd y daw'r hyn a ddefnyddir i flasu'r bwyd (4)
34. Roedd un ar ben y 3 ar draws (4)

ATEBION CROESAIR RHAGFYR

O'rllu o atebion a dderbyniais i groesair Rhagfyr, doedd ond tri yn berffaith gywir. Roedd un camgymeriad yn gyffredin i'r gweddill, sef yr ateb i 18 i lawr.

'Nage, ei hanner' oedd y cliw, a hanner 18 ydi NAW!

Derbyniais bedwar RHAN, tri HAN, dau ONI (??), pump NAC a dwsin o NAG. Dowch, mi ddylech wybod sut mae fy meddwl bach i yn gweithio bellach, ac fe fu cliw tebyg rhyw ddau neu dri mis yn ôl (CHWECH).

Nan owen, Moreen Lennon ac Olwen Owen, y dair o Lanberis, gynigiodd yr atebion cywir ac ymgais Olwen Owen, 15 Stryd Charlotte, Llanberis a dynnwyd allan o'r het. Llongyfarchiadau a £5 y Nadolig i chi, Olwen.

Ar ôl gorffen croesair cynta'r flwyddyn newydd, anfonwch eich atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, Gwynedd LL55 3HE i gyrraedd erbyn Ionawr 18, os gwelwch yn dda.

RHODDION

£10: Olwen a Kevin Morgan, 39 Stryd Eleanor, Caernarfon. Keith a Jean Roberts, Llanberis. Er cof am Mrs Maggie Humphreys, 32 Rhydfadog gan Mr a Mrs R. Lloyd Roberts, Northampton. Euryn a Meinir Williams, Finsbury Park, Llundain.

£5: Mrs Evans, 48 Maes Padarn, Llanberis. Teulu'r ddiweddar Mrs Nancy Rowlands, 12 Stryd y Dŵr, Llanberis. Mr Ernest owen, 8 Rhes Efrog, Llanberis. Mrs Jean Roberts, 13 Stryd Goodman, Llanberis. Mr Trefor Edwards, Llanberis. Er cof am John Elwyn Williams, gan Glenys, Glyn a Sonia, Ty'n y Clwt, Deiniolen. Iorwerth a Peri, 5 Hafod Olau, Deiniolen. Eurwyn a Carys Lloyd-Evans, Tanycoed. Mrs Catherine Jones, Llys Eiddon, Llanrug. Mrs Elizabeth Jones, Bryn Heli, Llanrug. Elinor Williams a'r teulu, Bryn Rhydd Mawr, Penisarwaun. Miss Maggie Jane Jones, Foel, Dinorwig.

£3: Siân Eilir a'r teulu, 2 Tai Gwyrfai, Deiniolen.

£2: Mrs Bet Jones, Lyndale, Llanrug. Mrs M. Lewis, Llanrug.

Gwynedd Hotel & Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Roger a'r staff

DAFYDD OWEN
TRYDANWR
Pob math
o waith trydanol
a Larwmau Lladron
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
National Inspection Council for Electrical Installation Contracting
APPROVED CONTRACTOR
11 Rhes Faenol
LLANBERIS
Ffôn: (01286) 871680

Siop Nwyddau Tŷ a Gardd
FORMAG
41A STRYD FAWR
LLANBERIS Ffôn: 872501
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH IFOR A MARGARET

GARTH MAELOG
PET CENTRE AND GROOMING SALON
Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota
Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr
STRYD FAWR, LLANBERIS 870840
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth
E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CHWARAEON

Mwy o lwyddiant i Ysgol Brynrefail

Mae gwahanol dimau Ysgol Brynrefail yn dal i ddenu sylw y mis hwn. Un o ysgolion 'bach' Eryri yw Brynrefail ond maent yn disgleirio mewn sawl camp. Mae hyn yn adlewyrchu'n amlwg frwdfrydedd y sawl sy'n arwain a hyfforddi'r timau, a hefyd y parch sydd gan y disgyblion mewn cynrychioli eu hysgol. Mae'n help hefyd cael prifathro sy'n ymwneud â byd y bêl. Diolch hefyd i aelodau unigol am eu parodrwydd i gyfrannu erthygl neu adroddiad i'r Eco.

Cynhaliwyd Gala Nofio yr Urdd ym mhwll Bangor yn ddiweddar ac yn amlwg mae unigolion disglair yn y tîm. Llwyddodd aelodau'r garfan i fod yn fuddugol neu yn ail ym mhob cystadleuaeth. Yr Ysgol oedd y tîm buddug a hi fydd yn cynrychioli rhanbarth Eryri yn y Gala Cenedlaethol a gynhelir yn Nhreffynnon ym mis Ionawr. Pob lwc iddynt.

Fel y gwyddoch mae'r golygydd chwaraeon yn foi di-duedd a phrawf o hyn yw'r gofod a roddir isod i adroddiad Dafydd Pritchard am y gêm cwpan yn erbyn ysgol o Fôn!

Mae adroddiad hefyd am dimau rygbi yr Ysgol. Mae'r gêm rygbi ar gynnydd yn yr Ysgol ac mae yna ambell unigolyn disglair iawn.

Brynrefail *v* David Hughes

Ddydd Llun, y 7fed o Ragfyr, yn ôl yr arfer fe gurodd hogiau Brynrefail o dan bedair ar ddeg oed unwaith eto. Y tîm anlwcus y tro hwn oedd Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Y sgôr oedd Ysgol Brynrefail 5, Ysgol David Hughes 1. Jonathan Gordon oedd y cyntaf i sgorio ar ôl croesiad penigamp Marcus Orlik. Daeth y goliau eraill gan Gethin Wavel, Eifion Williams, Owain Morris a Marcus Orlik.



Jonathan Gordon, un o'r sgorwyr yn erbyn Ysgol David Hughes.

Roedd Gavin Davis, ein golwr yn cael ei brofi'n rheolaidd ond, yn ffodus, dim ond un gôl gawson nhw.

Felly, rydym ni drwodd i'r rownd nesaf ar ôl perfformiad gwych arall. Mae'r tîm, Mr Holland a minnau yn gobeithio y gallwn ailadrodd llwyddiant dwy flynedd yn ôl.

Fel ôl-nodyn i'r gêm yma, Ysgol David Hughes oedd yr unig dîm i guro tîm blwyddyn 7 Ysgol Brynrefail pan enillwyd Cwpan Cymru.

Byddwn yn cyfarfod Ysgol John Bright, Llandudno yn rownd derfynol ardal Eryri ym mis Ionawr.

DAFYDD PRITCHARD

CWIS NADOLIG 1998

1. Pwy oedd y Cymro olaf i sgorio mewn rownd derfynol un o gwpanau Ewrop?
2. Pwy yw'r gogleddwr olaf i ennill cap rygbi llawn i Gymru?
3. Mae Morgannwg wedi ennill Pencampwriaeth y Siroedd deirgwaith. Pwy oedd y capteiniaid?
4. I garfan pa dîm pêl-droed roedd Ken Barton o Gaernarfon yn aelod?
5. Fe chwalodd Murray Crook obeithion Llanberis yn un o gemau mawr y 60au. I pa dîm y chwaraeai?
6. Pwy oedd yr unig 'fachgen lleol' yn nhîm Bangor a guroẗd Naples ar Ffordd Farrar?
7. Timau o pa wledydd sy'n cystadlu yn (a) Bundesliga; a (b) Primera?
8. I pa ddau dîm rygbi'r gynghrair ym Mhrydain y chwaraeodd Jonathan Davies?
9. O Pa glwb rygbi'r undeb yr ymunodd Roert Howley â Chaerdydd?
10. Pa glwb rygbi o Wynedd sy'n chwarae ar Ddôl Dafydd?
11. Ym mha flwyddyn yr agorodd cae-pob-tywydd ar dir Ysgol Brynrefail?
12. Pa ddau redwr o'r fro sydd wedi ennill prif dlws Chwaraewr y Flwyddyn yn Arfon?
13. Pa ddau glwb pêl-droed a ddenodd y dorf fwyaf (hyd yma) yng Nghyngrair Cymru?
14. Ar pa feysydd y chwaraeodd Cymru eu tair gêm olaf ym Mhencapwriaeth Pêl-droed Ewrop?
15. Pa Albanwr ac Archentwr wnaeth ddefnydd amheus o'u dwylo mewn gemau pwysig pêl-droed?
16. I pa dîm Eidalaidd y chwaraeodd John Charles?
17. Pa ŵr o'r ardal a deledwyd yn concro 'Old Man of Hoy'?
18. Beth yw'r cysylltiad rhwng un o sylwebyddion pêl-droed BBC Cymru â'r geiriau 'Dros Gymru'n gwlad . . .'?
19. Pa wlad y chwaraeodd Cymru yn eu herbyn mewn gêm rygbi ar y Cae Ras?
20. Curodd Cymru tîm pêl-droed Lloegr unwaith yn unig ar Wembley a'r sgôr oedd 1-0. Pwy sgoriodd y gôl bwysig?

(Ceir yr atebion ar dudalen 9)

Gemau Rygbi
Ysgol Brynrefail *v* Ysgol Friars

Aelodau tîm rygbi Blwyddyn 8.

Aelodau tîm rygbi Blwyddyn 10.

Ar brynhawn gwlyb o Ragfyr ar gaeau Clwb Rygbi Bangor cynhaliwyd gornest rygbi rhwng Ysgol Brynrefail ac Ysgol Friars, Bangor.

Dangosodd tîm blwyddyn 8 addewid yn eu gêm nhw er colli o 10 i 17. Ar ôl cychwyn sigledig fe sefydlogodd Brynrefail gan ddal eu safleoedd yn fwy cadarn. Yn ystod yr ail hanner fe ddangosodd y tîm addewid mawr wrth iddynt hyrddio at linell amddiffyn Friars dro ar ôl tro. Serch hynny, methu ag adlewyrchu eu hymdrech ar y llinell sgôr fu yr hanes yn y pendraw, ond mae'r hedyn wedi ei hau ac aros am yr egin sydd rhaid yn awr.

Agorwyd y sgorio yn gêm blwyddyn 9 gan Ysgol Brynrefail, ond yn ddigon buan Friars oedd arglwyddi'r gâd yma. Methodd Brynrefail â sefydlu patrwm effeithiol yn ei chwarae a manteisiodd Friars ar y gwendid yma. Llwyddodd Brynrefail i bwyso ar gamgymeriadau Friars ac i sgorio eto, ond lladdfa oedd yr ail hanner. Dangosodd bechgyn Brynrefail gryfder eu cymeriadau trwy frwydro hyd y diwedd. Hwyrach wrth i rai o'u chwaraewyr allweddol ddychwelyd i'r gemau nesaf a chydag ychydig o chwarae safleol craff gall bechgyn blwyddyn 9 edrych ymlaen at gyfnod o gynnydd. Ymdrech gref, ond colli 12 i 38.

Achubwyd enw Brynrefail gan dîm blwyddyn 10 a oedd yn amlwg yn dangos budd o'u sesiynnau ymarfer wythnos â thîm merched yr ysgol. Honnodd un o hyfforddwyr y tîm merched, a oedd yn bresennol, bod ymarfer â'r merched wedi gwella sgiliau pasio y bechgyn (hwyrach y dylai Graham Henry dalu sylw!). Sawl cais gwych oedd y tâl am yr ymrwymiad yma, a'r sgôr terfynnol yn 17 i 5 i Frynrefail.

Dwy flynedd wedi hedfan!

Ar Ragfyr 9, 1996 yr agorwyd cae-pob-tywydd ar dir Ysgol Brynrefail yn swyddogol. Gêm hoci yn erbyn tîm teithiol o gyffiniau Dulyn oedd y prif atyniad. Bellach mae'r goleuadau cryf i'w gweld yn goleuo aml noson dywyll. Yn sicr, o'r llu o straeon a ymddangosodd yn yr Eco dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu'n adnodd bendithiol iawn i'r ysgol. Anodd iawn yw meithrin sgiliau ar feysydd mwdlyd traddodiadol ein hysgolion. Mae'r llwyddiant ym myd hoci yn adlewyrchiad o'r ffaith hon.

Mae nifer fawr o ieuenctid yr ardal yn cael eu hyfforddi yno a sawl un o gwmpas y 'canol oed' wedi cael ychydig o ail-wynt i gicio'r bêl. Mae hyn wedi meithrin elfennau cymdeithasol hefyd. Diolch, felly, i'r cynghorau lleol a llywodraethwyr yr Ysgol am eu gweledigaeth. Cryfder unrhyw adnodd yn naturiol yw'r defnydd a wneir ohono, a'r gwelliannau sy'n deillio o hynny. Gobeithio y gellir adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y ddwy flynedd gyntaf.

Blwyddyn newydd lwyddiannus i holl dimau yr ardal